(1927)

£3

Trial

John J. Evans

PIWRITANIAETH A PHOLITICS

Darlith Flynyddol Coleg y Bedyddwyr, Bangor
1927

PIWRITANIAETH A PHOLITICS
(1689-1719)

GAN
THOMAS RICHARDS, M.A., D.Litt.,
Llyfrgellydd Coleg y Gogledd

WRECSAM
HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR
1927

ARGRAFFWYD YNG NGHYMRU

AT Y DARLLENNYDD.

Ymgais fechan yw'r ddarlith hon i ddal ymlaen gyda hynt a hanes y Piwritaniaid. Syrth i'w lle yn weddol naturiol ar ôl y tair cyfrol a gyhoeddwyd gan Gymdeithas yr Eisteddfod, ac wrth sgil y papur ar Ddeclarasiwn 1687 a ddarllennwyd o flaen Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr yn 1924. Fel pob un o'r rheini, a thebig i bob gwaith ymchwil —y mae'n aruthr sych mewn mannau.

Mwyaf yr eir ymlaen, mwy o hyd y tyf y ddyled. Y caredigion mwyaf y tro hwn yw awdurdodau'r *Bodleian*, y *Record Office*, a *Somerset House*, y Llyfrgell Genedlaethol a Llyfrgell y Dr. Williams. Nid oes arwydd bod caredigrwydd yr un ohonynt yn blino nac yn pallu dim.

Tybed na ddylwn ddiolch hefyd i Bwyllgor y Coleg am y cyfle i draddodi'r ddarlith, ac i'r capelaid pobl a ddaliodd (y rhan fwyaf ohonynt) i wrando arni ar brydnawn mwll ym Mehefin? Yr wyf o galon yn diolch iddynt i gyd.

PENODAU.

		Tud.
I	Amddiffynnydd y Ffydd . . .	9
II	Y *Nonjurors* Cymreig	17
III	Deddf Goddefiad	23
IV	Y Ddau Syr Wmffre	39
V	*Rex v. Larwood*	43
VI	Y Cymunwyr Achlysurol . . .	47
VII	Tynnu'n Groes	57
VIII	Pamffleta	67
IX	Gwerthu'r Achlysurwyr . . .	74
X	Deddf Sism	82
	Nodyn : Marwnad i'r Frenhines Ann.	
XI	Cyfeillgarwch Gwŷr Mawr . .	99
XII	Y Brotest	114
XIII	Addolwyr Iago	121
XIV	Pleidwyr Siôr	134
XV	5 *Geo. I*, *c.* 4.	140
Atodiad :	Colledion Sir Fôn	147
	Mynegai	149

I

Amddiffynnydd y Ffydd.

Clwstwr o ddyddiadau i ddechreu. Diwrnod mawr yn hanes rhyddid crefyddol y wlad hon oedd y diwrnod hwnnw pan darodd y Tywysog Orange ei draed ar dir Lloegr yn Torbay, 5 Tachwedd, 1688. Ymhen saith wythnos yr oedd y brenin Pabyddol Iago ar ei ffordd i Ffrainc. Ganol mis bach 1689 cyhoeddwyd y Tywysog yn frenin William y Trydydd a'i wraig Mary yn frenhines. Ar Ebrill 11 y bu seremoni'r coroni. Ar y 24 o Fai yr oedd goddefiad crefyddol yn un o ddeddfau gosodedig y wlad. Ar ôl y 10 o Fehefin, 1689 (yn ôl adran xviii yn y ddeddf honno) os profid rhyw fraddug eglwysig yn euog o derfysgu ar heddwch y Dissenters tra'n addoli Duw yn un o'r mannau a gofrestrwyd ganddynt yn ôl y gyfraith newydd, dirwyid ef i'r swm o £20. Ychydig gyda dwy flynedd cyn hynny, £20 oedd y swm a godid ar unrhyw bregethwr Ymneilltuol, os meiddiai bregethu yn ei dŷ ei hun a mwy na phedwar person ar wahan i'r teulu yn gwrando arno. Y byd amheuthun hwn, y newid rhyfeddol yma : dyna un rheswm paham y gelwir dyfodiad William i'r wlad yn *Glorious Revolution.*

Holandiad oedd William, gŵr surbwch tawedog, bregus iawn ei iechyd. Ond yr oedd yn un o Brotestaniaid mwyaf goleuedig ei oes. Y

mae'n ddadl fawr a fu gwladweinydd hafal iddo yn teyrnasu ar y wlad hon erioed. Yr oedd cuddfwriadau penaduriaid Ewrob i gyd ar flaenau ei fysedd : prif ddiddordeb hanes y Cyfandir am genhedlaeth gyfan oedd gwylied y twrneimaint rhwng y llwynog o Ffrainc a'r cadno o Loegr. Diddordeb poenus odiaeth i saint syml y wlad. Crogai tynged Protestaniaeth, ac Anghydffurfiaeth bid sicr, wrth wregys William : os gorchfygid ef gan Lewis o Ffrainc, byddai'r Iago ffuantus yn ail-esgyn i'r orsedd, byddai'r eryrod Catholigaidd yn ail-ymgasglu am wledd celanedd. Ac yntau'n Brotestant mor fawr, go brin yr oedd cymeriad moesol William i fyny â'r safon a ddisgwyliem : gwnaeth cyfreithiwr o Gymro, Robert Price o'r Gilar, enw mawr iddo ei hun drwy feirniadu'r brenin am roddi arglwyddiaeth Dinbych i un o'i gyfeillion mynwesol ; ymfalchïai ei elynion gael allan iddo anrhegu un o'i ordderchadon â thiroedd lawer yn (yr) Iwerddon. Serch hyn i gyd, yr oedd yn frenin o ddyn ymhob ystyr o'i gymharu â Siarl buteingar a Iago benffol. Nid oedd gan Biwritaniaid y wlad ddim i'w ddewis ond ei bleidio i'r carn ; pa un ai wynebu'r Pabyddion ar lannau'r Boyne y byddai, neu hyrddio ei gatrodau yn erbyn y Ffrancod yn yr Iseldiroedd, selog a diymod oedd eu gweddïau ar ei ran. William, drwy ras Duw, a safai rhyngddynt â'r diluw. Os oedd y melinydd o Dredwstan am beidio syrthio'n aberth i rywbeth gwaeth na deddfau Clarendon,

bydded i'r Hollalluog Dduw gadw muriau Derry i fyny a tharo muriau Namur i lawr. 'Does ryfedd yn y byd i oddeutu cant o weinidogion Ymneilltuol, gyda'r duwiolfrydig John Howe ar y blaen iddynt, brysuro i'r palas brenhinol i ddywedyd wrtho mor dda ganddynt ei fod wedi dod.[1] Talodd Cymanfa'r Bedyddwyr a gyfarfu yn Llundain yn 1689 ddiolch cynnes iawn iddo.[2] Yn 1701, drachefn, pan fu Lewis o Ffrainc mor ehud a chyhoeddi mab Pabyddol Iago yn wir etifedd coron Lloegr, mynnodd prif ddynion y Crynwyr nesu i wyddfod y brenin a chyfaddef eu cred yn blaen wrtho mai offeryn yn llaw Duw ydoedd i iawn lywio'r wlad yn ôl trefn a dosbarth.[3] Grwgnach tipyn arno oedd arfer gyffredin y Crynwyr. Pan gododd y perigl o golli William a chael ysbrigyn o Babydd yn ei le, fe wyddent hwythau pa ochr i'r clawdd i'w throedio. Tua'r un amser aeth Bedyddwyr cylch y brifddinas, gyda Joseph Stennett yn ben arnynt, o flaen William i ddywedyd yr un pethau yn union â'r Crynwyr.[4] Cydunai pob ysgol o Ymneilltuwyr, a hynny o lwyrfryd calon, i ddal breichiau'r brenin newydd i fyny.

---

[1] Drysdale: *Hist. Presb.*, t. 459, n. 1. Ar Ion. 2, 1688–89, y bu hyn.

[2] Toulmin: *An Hist. View* (1814), t. 292.

[3] *ibid.* tt. 386–387.

[4] *ibid.* tt. 324–325.

Yn naturiol ddigon, yr oedd yna glymbleidiau o bobl o gylch y wlad am ladd William, y rhai hyn o ddifrif hefyd—hen gynffonwyr llys llwgr Iago, uchel-frenhinwyr na fynnent ufuddhau i neb ond mab y teyrn eneiniedig hwnnw, dynion beiddgar bradwrus a dderbynient eu gwŷs a'u tâl o Ffrainc ac a addfedent eu cynlluniau ym mân sucandai'r brifddinas. Lluniwyd cynllun ar ôl cynllun, a brâd wedi brâd. Y mwyaf perigl oedd hwnnw luniwyd tua dechreu'r flwyddyn 1696, i lofruddio'r brenin yn ei gerbyd pan ar ei ffordd adre' o hela. Methodd rhai o'r bradwyr â chadw'r gyfrinach, a daliwyd hwy ymron i gyd. Llawenydd mawr yn nau Dŷ'r Senedd, ymhlith gwir garwyr y ffydd Brotestanaidd, ac yn anad neb, ymhlith Ymneilltuwyr y wlad. Pregethodd James Owen o Groesoswallt bregeth arbennig ar yr achlysur, a chyhoeddwyd hi'n bamffledyn.[5] Ar y nawfed o Ebrill dyma Fedyddwyr y brifddinas—Joseph Stennett yn eu harwain y tro hwn eto, ac un o ieirll y llys yn eu cyflwyno—yn llongyfarch William ar ei waredigaeth, ac yn gobeithio, meddent hwy yn ddifrifol iawn, y byddai Arglwydd y lluoedd yn llwyddo ei lu a byddin o angylion gwarcheidiol yn gwarchod ar ei fywyd.[6] Tebig i'r bardd Cymreig Dafydd Manuel a flodeuai yn yr amser a'r cyfwng hwn, eu gweddi hwythau oedd :

[5] *Cong. Hist. Soc. Trans.*, v, 17.
[6] Toulmin : *An Hist. View*, tt. 307–308.

Dwg ein brenin a ninne
Allan o'r niwl oll i'r ne.[7]

Cyn hyn, yr oedd dau Dy'r Senedd wedi symud gamau lawer ymhellach. Wnai dim y tro iddynt hwy ond tynnu allan gyfamod newydd (go debig i'r cyfamod a wnaed i amddiffyn bywyd y frenhines Bess ac nid anhebig i gyfamod Ulster yn ein dyddiau ni), yn ôl yr hwn y tyngai pob aelod i gydnabod William fel yr unig freiniol frenin, tyngu hefyd y safent wrth ei gefn yn erbyn unrhyw ystryw o du Lewis a Iago. A phe digwyddai i'r ystrywiau drygionus lwyddo, y dialent ar deulu Judas gyda dial cyfiawn a chyflawn. Esgorodd y cyfamod Seneddol ar gannoedd o gyfamodau llai; ceid byrddau llydain yn Llundain wedi eu hulio â chopïau o'r cyfamod; ymhob sir, ym mrawdlysoedd y gwanwyn hwnnw, am y cyfamod y siaradai pawb, yn farnwyr a rheithwyr; heidiai pobl i'r eglwysi i ysgrifennu eu henwau wrtho (ac i'r capeli Anghydffurfiol, wrth gwrs, h.y., i'r ychydig ohonynt a godasid tu allan i'r brifddinas). Cedwid yr *Association Rolls* yn ofalus, ac anfonid hwy i fyny i'r awdurdodau goruchel yn Llundain. A dyna lle y maent heddyw ymhlith trysorau'r *Record Office*, yn swyddfa'r *Petty Bag*.

---

[7] *N.L.W. Add. MS.* 436 B, t. 58. Nac anghofier, ychwaith, i'r Eglwyswr Huw Morus ganu clod i fuddugoliaeth fawr La Hogue yn 1692 (*Eos Ceiriog*, i, 227–232). "*Y Cadarn a'i cododd a'i cadwo*" yw ei weddi dros William ym mrwydrau Fflandrys (*ib.*, 236).

Tybed a ddaeth yr *Association Rolls* i Gymru? Os do, a drafferthodd undyn i lawnodi ei enw arnynt? Ateb cadarnhaol i'r ddau gwestiwn. Daeth cannoedd lawer o enwau o'r Dywysogaeth, a marciau doniol ddigon gan y rheini na allai ysgrifennu eu henwau. Pe buasai amser a gofod, diddorol iawn a fuasai myned drostynt i gyd. Dyna *list* sir Forgannwg, dros 760 o enwau arni—D.L.'s, ynadon, swyddogion y milisia, clerigwyr, maerod trefi, *town-clerks*, a dynion mwy cyffredin.[8] Dacw enwau Dafydd Jenkins, mab yr hen Judge Cafaliraidd o Hensol; Edward Llywelyn, o Drenewydd Nottais, gŵr a fu mewn trwbwl saith mlynedd cyn hyn am alw'r brenin William yn ffŵl[9]; Anthony Powell o Lwydarth yn Nhir Iarll; Sylvanus Bevan, y Cwacer caredig y sonia Joshua Thomas amdano[10]; Richard Cradock o deulu Cwrt Rhydhir ger Castellnedd, cydweithiwr â Lewis Thomas y Bedyddiwr yn 1669, ond a drôdd tua 1684 i gymuno yn eglwys blwyf y Nottais[11]—un ac oll yn 1696 am gadw William yn fyw. Wele enwau Samuel Jones, hen ficer Piwritanaidd Llangynwyd a'r John Hutton a ddaeth i lanw ei le ar ôl dydd du Bartholomeus—

[8] *Assoc. Oath Rolls*, No. 351; gwêl hefyd *Bulletin Board of Celtic Studies*, Mai 1926, 137–149.

[9] *Cardiff City Records*, ii, 178–179.

[10] *Hanes Bed.* (arg. Pontypridd), 109–110.

[11] D. R. Phillips: *Hist. Vale of Neath*, 405. Hoffem weled y *nexus* rhwng Cradock 1669 a Chradock 1684 dipyn tynnach nag ydyw.

y ddau yn ymyl ei gilydd, a'r ddau am y cyntaf i ddiogelu'r ffydd Brotestanaidd rhag rhaib y gelyn Pabyddol. Yr enw John Miles yma hefyd, ond nid *y* John Miles a fu farw yn Lloegr Newydd yn 1683 ; efallai mai ei ŵyr oedd hwn, Eglwyswr, a fu ar ymweliad â'r wlad hon yn ystod teyrnasiad William.[12] Mwyaf pryfoclyd ohonynt i gyd, dyma'r enw *William Saphin* : tybed ai yr *Hên Saphin* oedd ef, a fu'n cynniwair yn nyddiau blin yr erlid o dueddau Penybont ar Ogwr belled a Blaencanaid er mwyn addoli Duw gyda gradd o ddiogelwch.[13] Prun bynnag, wele'r *Association Rolls* yn profi bod Saphiniaid ym Morgannwg ; nid oes eisiau mwyach chwilio *registers* bro a bryn am y Sephaniah hwn a'r Sephaniah arall. Trown eto at restri Mynwy, a cheir gweled fel y bu i ugeiniau o ynadon a chlerigwyr Protestanaidd y sir Babyddol honno frysio'n frwd i arwyddo'r *Rolls* ym Mrynbuga neu Drefynwy neu Gasnewydd.[14] Nid oes air am fwrdeiswyr y Fenni yn arwyddo. Dywedir iddynt hwy wrthod yn bendant dyngu'r llwon o ffyddlondeb yn 1689, ac iddynt golli eu siarter o'r herwydd.[15] Byddai'n ddiddorol gwybod pwy a pheth oedd y tu ôl i'r gwrthnysigrwydd yma. Ai dylanwad y Gunters Pabyddol

[12] Gwêl yr hanes yn *MS. J. Walker*, c. 4, f. 72.
[13] Joshua Thomas : *Hanes Bed.*, 176–177.
[14] *Oath Rolls*, Nos. 176, 178, 179, 180.
[15] *Western Mail*, col. " Wales Day by Day," 28 Ebrill, 1926 ; gwêl hefyd E. G. Hardy : *Jesus College*, t. 82.

oedd yn byw yn y dref neu y Fychaniaid Pabyddol oedd ychydig y tu allan iddi? Gobeithio nad oedd y Bedyddiwr Christopher Price (yr oedd ef yn fyw yn 1696) yn ormod o ffrind i Iago'r Ail[16] i dyngu'r llw i William y Trydydd a dymuno'n dda iddo yn wyneb brad a pherigl. Y mae'n bryd symud o'r Fenni i fyny'r Wysg i sir Frycheiniog. Ar *rolls* y sir honno[17] denir ni ar unwaith gan enw William Watkins, y capten o Lanigon ond odid, gŵr y Fedyddwraig gaeth a anfonai gyda'r gwas roddion o arian i Fedyddwyr tlawd Llanwenarth. Waeth heb geisio chwilio am enwau Piwritaniaid ym Môn[18]; ni cheid neb yno ond Bwcleaid Beaumaris a'r mân ysweiniaid oedd yn falch o eilio pa beth bynnag a ddywedent hwy. Trysorau cyfoethog iawn, llawn ffeithiau a llawnach fyth o awgrymiadau, yw rholiau y *Petty Bag Office*. Nid oes wiw sôn am hanes cyflawn i grefydd yng Nghymru heb eu troi a'u trosi hwy yn fanwl, manwl.

[16] *Declarasiwn* 1687, tt. 19–21.
[17] No. 336.
[18] No. 333.

II

Y Nonjurors Cymreig.

Gwrthodod rhai cannoedd o offeiriaid â myned yn agos at fyrddau'r *Association Oath Rolls.* At y *Nonjurors* yr ydym yn cyfeirio. Am fod William yn torri ar draws yr olyniaeth frenhinol oedd mor gysegredig ganddynt, am na chydnabyddent hawl Senedd ar ei phen ei hun i ddewis brenin, am na allent gysoni tyngu llw o ffyddlondeb i William â'r llw dyngasent yn flaenorol i Iago,—ni fynnent ar un cyfrif dyngu'r llwon newydd. Serch caniatau chwe mis o ras iddynt i chwalu'r mater yn eu meddwl, dal i wrthod a wnaeth y mwyafrif ohonynt. Golygai hyn golli pob torth a physgodyn yn yr Eglwys,[1] canu'n iach i fywioliaethau bras a bywyd moethus a dyfodol disglair. Allan yr aeth gryn bedwar cant ohonynt. Yn eu plith yr oedd yr Archesgob Sancroft ei hun, yr Esgob Ken, yr Esgob William Lloyd o Norwich—mab i offeiriad Llangower ym Mhenllyn, rheithor hefyd am dymor yn Efenechtyd yn Sir Ddinbych—

[1] Ni chollodd pob un ohonynt bob torth. Fe gytunodd dau Dŷ'r Senedd, ar ôl hir a chyndyn ddadlau, fod y brenin o'i ewyllys da i dalu dogn o arian i nifer bennodol o *Nonjurors*. Ond nid oedd y nifer hwn ar un cyfrif i godi dros *ddeuddeg*, ac nid oedd yr arian a ewyllysid i unrhyw un ohonynt i godi uwchlaw *un rhan o dair* o'r gyflog a gollai drwy ei anufudd-dod (*Commons' Journals*, x, 102; *Lords' Journals*, xiv, 188).

gŵr a fu yn Esgob Llandâf o 1675 i 1679; yr Esgob William Thomas o Gaerwrangon, yr hwn (pan yn un o offeiriaid goruchel Tyddewi) a roddodd bob hwylustod i Stephen Hughes ddwyn allan argraffiad newydd o *Lyfr y Ficer*[2]; a'r Dr. George Hickes, brawd (dyma'n sicr y ddau frawd mwyaf anhebig a fu yn y byd !) i'r John Hickes a gafodd ei grogi am gefnogi gwrthryfel Monmouth yn 1685, un o'r Anghydffurfwyr mwyaf rhamantus ei yrfa, mwyaf anhyblyg ei argyhoeddiad, yn holl hanes Piwritaniaeth yr ynysoedd hyn. Ceid, y mae'n wir, ambell ddafad ddu ymysg y pedwar cannwr yma, ambell ddynan dwl ystyfnig. Ar y cyfan, dynion da iawn oeddent, dynion gwir dduwiol, dynion yn dyrchafu egwyddor ar draul hunanles. Dynion nid anheilwng eu coffa gyda'r un anadl a Dwy Fil 1660–1662.

Nid rhyw lawer o offeiriaid Cymru a gerddodd allan o'r Sefydliad yn 1689. Gan fod y nifer yn fach, a'r sylw dalwyd iddynt yn llai na hynny, fe ddaliwn fantais ar y cyfle hwn i gyfleu rhestr ohonynt[3]:

[2]A bod yn fanwl, ni ellir galw'r Dr. William Thomas yn *Nonjuror* ffurfiol; bu farw dair wythnos cyn dydd y troi allan. Un o'i eiriau olaf oedd—"*I think I could suffer at a stake rather than take this Oath*" (Lathbury: *Nonjurors*, t. 51).

[3]Yr awdurdodau dros y rhestr hon yw *The Life and Works of the Rev. John Kettlewell* (1719), Cyf. II, App. vi, tt. v–xiii, yr enwau ym mywgraffiad yr Esgob Ken gan W. L. Bowles, a'r cyfeiriadau yn y (Browne) *Willis MS.* 110 yn y Bodleian, f. 120v.

Nonjurors Cymru.	*Nodyn neu ddau.*
Esgobaeth Llanelwy.	
Dr. Hugh Wynne, Canghellor yr Esgobaeth.	
Henry Price, un o breb-endariaid Llanelwy ac ysgolfeistr Rhuthyn.	*John* Price, yn ôl y *Willis MS.*
Thomas Jones, ciwrad Efenechtyd.	
John Lloyd, ficer Llangar.	
Esgobaeth Bangor.	
Dr. Richard Jones, Canghellor yr Esgobaeth.	
Esgobaeth Caer.	
Hugh Maurice, rheithor Bangor Monachorum[4] [Bangor-on-Dee]	Hwn, mae'n debig, yw'r Parch. Hugh Morris a roddodd £50 o elusen i'r plwyfolion (Archddiacon D. R. Thomas: *Hist. Dioc. St. Asaph*, arg. 1874, 801).
Esgobaeth Tyddewi.	
Michael Owen, ficer Lacharn a rheithor Eglwys Cymun.	
Timothy Powell, ficer St. Clears a rheithor Robeston West.	
Thomas Powell, ciwrad Cronwear.	
John Lewis, ciwrad Boulston.	
Thomas Davies, rheithor etholedig Yarbaston.	
William Pritchard, ficer Eglwyswrw.	Newidioddhwn ei feddwl, a dychwelodd i fynwes yr Eglwys.

[4]Yn esgobaeth Llanelwy y cyfrifir plwyf Bangor y Mynachod ers llawer blwyddyn bellach.

Nonjurors Cymru.	*Nodyn neu ddau.*
Esgobaeth Llandâf.	
Dr. Richard Jones, Canghellor yr Esgobaeth.	Dyna'r enw a ddyry Kettlewell. Dr. *John* Jones a ddylai fod. Gyda llaw, amhriodol ei alw'n Nonjuror o gwbl, canys daliodd ei afael yn y swydd hyd ei farw yn 1709 (*D.N.B.*, xxx, 126–127).
Mr. Nicholas James, Tregare.	
[John] Boteler, rheithor Llangatwg Nedd.	*Butler* y sillebir yr enw amlaf. *Ficer* ydoedd yn ôl y *First Fruits Certificates* (Llandaf, File 11).
[Zachary] Bebington, ficer Trelech (Mynwy).	
Esgobaeth Henffordd.	
John Howell, rheithor Maesyfed Newydd.	
Richard Lloyd, ciwrad Presteign.	*Bristein* sydd gan Kettlewell.

18 oedd eu nifer gyda'i gilydd ; 16, a thynnu allan y Laodiceaid. Efallai y dylid ychwanegu rhai ag enwau trwyadl Gymreig iddynt, tebig i'r tri Minor Canon yn eglwys gadeiriol Caerwrangon, a thebig i'r Maurice Edwardes hwnnw a fu'n gaplan i Archesgob York ac a ddisgrifir gan y Dr. John Walker fel "*a Nonjuror to K. Will's Government.*"[5] Nid oes ddadl am Robert Morgan, Student of Christ Church, a wrthododd y radd M.A. oherwydd na allai dyngu'r llwon i'r brenin

[5] *MS. J. Walker*, c. 1, f. 52.

newydd y byddai raid iddo eu tyngu ar yr achlysur hwnnw.[6] Yntau'n fab i un o esgobion Bangor ac yn frawd-yng-nghyfraith i'r Dr. Humphrey Humphreys, a etholwyd yn esgob yno yn 1689. Enwir John Lewis hefyd, o Goleg yr Iesu, fel un o *Nonjurors* Rhydychen.

Nid oes eisiau un esgusawd am ddal tipyn ar eu hanes, mewn papur ar Biwritaniaeth yn enwedig. Nid Piwritaniaid cyffredin mohonynt, ond rhai anghyffredin—ag arfer termau'r gwladweinwyr, *they were Puritans of the Right, not Puritans of the Left.* Mwy o egwyddor mewn credu, mwy o wirionedd wrth addoli, mwy o burdeb gyda phopeth —dyna'u prif ddelfrydau. Caledu eu calonnau waethwaeth fu eu hanes politicaidd, ffurfio eglwys newydd a chreu esgobion, ymrannu'n fân bleidiau, a throi wyneb llawen at Eglwysi Groeg a Rhufain. Cyn marw allan yn nechreu'r ganrif ddiweddaf, bu iddynt (neu rai ohonynt) esgob o Gymro, Kenrick Price wrth ei enw, genedigol o Faelor Saesneg.[7]

Nid oedd dim cydymdeimlad meddwl rhwng y Piwritan Ymneilltuol â'r Piwritan Eglwysig; dwfn chwyrnent ar ei gilydd o'r tu allan i byrth y Sefydliad. A phan aeth Thomas Lathbury ati i ysgrifennu hanes yr ymraniad Nonjuraidd,

[6] *Life and Times of Anthony Wood*, gol. Clark, iii, 402. Yn 1692 y digwyddodd hyn.

[7] Henry Broxap: *The Later Non-Jurors* (1924), tt. 252–253, 278, 285–286, 351.

methodd yr Uchel-Eglwyswr hwnnw a gwrthsefyll y demtasiwn i droi oddiar y ffordd, dilorni'r Ymneilltuwyr, a dywedyd iddynt hwy bob copa anghofio egwyddorion gwir ryddid crefyddol drwy awchus dderbyn declarasiynau anghyfraith Iago'r Ail yn 1687 a 1688.[8] Oni ddywedodd John Howe gynared â 1689 mai dim ond dynion anwybodus iawn a siaradai druth o'r math yma[9]; oni chyfaddefodd esgobion Ty'r Arglwyddi yn 1703 fod y Dissenters wedi sefyll gefn ynghefn â'r Eglwys pan anfonwyd y Saith Esgob i'r Tŵr yn 1688[10]? Gresyn o beth ydyw gweled dynion unllygeidiog yn ceisio ysgrifennu hanes. Na fydded i eiriau ehud Lathbury wneuthur i neb anghofio dewrder y *Nonjurors* a'u safiad syth ar dir egwyddor.

[8] *Hist. of the Non-Jurors* (1845), tt. 3–16, 47, 54 (nodyn *n*), 239, 360.

[9] Toulmin: *An Hist. View*, App. I, 537.

[10] *Reports of the Several Conferences Relating to the Bill for Occasional Conformity* (1702–1703), t. 26.

III

Deddf Goddefiad.

Gadewch i ni atgofio ein gilydd nad oedd gan y *Nonjurors*, Cymreig na Seisnig, ran na chyfran yn *Association* 1696. Nid oeddent am ladd William, ond parch bychan bach oedd ganddynt iddo. Mab-yng-nghyfraith Iago ydoedd, ac nid mab. I ddod at gorff mawr y clerigwyr cyffredin, er eu bod yn dymuno iechyd da i'r brenin, yr oedd lawer rhy fach o Eglwyswr i fod yn Ben delfrydol i Eglwys Loegr. Gwyddai pawb ei fod yn frwdfrydig dros Ddeddf Goddefiad a thros y *Comprehension Bill*—mesur oedd hwnnw i agor drysau prif swyddi'r wlad i *Ddissenters* heb ofyn iddynt gymuno yn ôl dull a defod yr Eglwys—a thros y syniad o ail-foldio gwasanaeth yr Eglwys fel y gallai'r Presbyteriaid ddod i mewn iddi heb ystumio cydwybod. Undeb crêd ac unffurfiaeth addoli oedd delfryd y brenin ; yna drwy rin yr unoliaeth hon greu y fath gryfder politicaidd yn Lloegr ag a darawai ddyrnod farwol i Lewis o Ffrainc a Phabyddiaeth gorllewin Ewrob. Nid hawdd i estron o'r Iseldiroedd oedd amgyffred y cythrwfl argyhoeddiadau a fodolai ym Mhrydain, cythrwfl a saernïodd waliau diadlam rhwng y Sefydliad a'r sectau, a rhwng y sectau a'i gilydd : pe deallai hynny'n well, ni feddyliai ddwywaith am dorri rhengau'r Dissenters yn ddwy drwy gynnig tafell

fawr o freintiau i'r Presbyteriad a dim o gwbl i'r Annibynnwr a'r Bedyddiwr. Nid gŵr fel William, a'i feddwl yn hir hoeliedig wrth ffyniant Holland a chudd-fwriadau ei hen elyn ym Mharis—nid ef oedd y gorau i sylweddoli bod cenhedlaeth gyfan o erlid, bod uchelgais y Presbyteriad am delerau da iddo ei hun a dim i neb arall, wedi gwneuthur undeb crefyddol yn amhosibl yn y wlad hon. Ni thâl i ddyn meidrol geisio gwyrdroi bys amser nac ymyrryd â threfn ddoeth Rhagluniaeth. Angenrhaid mawr 1689, a siarad o safbwynt rhyddid crefyddol, oedd cadw'r Piwritaniaid gyda'i gilydd, pobl na chyfrifent ond un allan o bob un-ar-hugain o'r boblogaeth. Llwyddodd rhagfarn yr Eglwys i sicrhau y fantais amhrisiadwy honno : bu'r fath ymrannu ar y *Comprehension* yn nau Dŷ'r Senedd, a'r fath gyfarth ar gyfaddawd yn Nhy Isaf y Confocasiwn,[1] fel y syrthiodd holl obeithion y brenin yn farw i'r llawr. Cyn diwedd 1689 yr oedd yn wybyddus i'r wlad bwygilydd mai tu allan i'r Sefydliad y byddai'r Presbyteriaid, gyda'u hen gyfeillion a'u hen elynion. Methu cytuno fu'r hanes yn 1689 fel yn 1661 a 1604.

[1]Meiddiodd un o gynrychiolwyr esgobaeth Llandâf, y rheithor William Powell o Lanwenarth, godi ei law dros fesur y *Comprehension*. Nid oedd Uchel-Eglwyswyr yr esgobaeth honno wedi anghofio hynny ddiweddared â 1715 (*Rawlinson Letters* 97, f. 18). Nid annaturiol gofyn pa sut heddwch a ffynnai rhwng y William Powell hwn â William Prichard y Bedyddiwr.

Ym meddyliau pobl yr Eglwys gwaddod digon chwerw a adawyd gan yr ymgeintach yn y Senedd a'r Confocasiwn. Os oedd Iago am eu gwerthu i ddwylo'r Jesuitiaid, pa faint gwell oedd y brenin a fodlonai i Bresbyteriaid fod yn gyd-etifeddion â hwy? Gwawdid hwy beunydd gan y *Nonjurors* a ymadawsai â'r hen allorau; nid oedd yn ddim gan y rheini alw clerigwyr y Sefydliad yn addolwyr Mammon a disgyblion Simon Magus. Nid oeddynt, ychwaith, yn llawen o glywed am benodi esgobion eraill i lanw lle'r *Nonjurors*, isel-Eglwyswyr bob un, clymblaid haerllug o Erastiaid yn Nhy Uchaf Confocasiwn a safai ar ffordd y diwygiadau eglwysyddol a gynhigid gan y Ty Isaf. Yn enwedig, hoffent dorri pen Gilbert Burnet, yr Ysgotyn dysgedig ond isel-Eglwysig a godwyd gan William yn Esgob Salisbury.[2] Clywent hefyd am ffon lawdrom Presbyteriaid Ysgotland ar ysgwyddau'r Episcopaliaid a fu'n eu cwrsio am naw mlynedd ar hugain. O grombil y meddyliau gofidus hyn—gwawd a brâth y *Nonjurors*, dylanwad peryglus yr Erastiaid, hwyl gollyngdod Presbyteriaid y gogledd—y dyrchafodd y cri croch fod yr Eglwys mewn perigl—"*the Church in Danger*"—cri a ddyrchafodd fwyfwy hyd ddyddiau

[2]Am farn Uchel-Eglwyswr amdano, gwêl y *Cherry MS.* 23, f. 164—"*I beseech you beware of him*" (Henry Dodwell wrth yr Esgob Lloyd o Lanelwy, mewn llythyr dyddiedig Ion. 7, 1689–1690). Ar y pryd hwn, yr oedd Dodwell yn uwch nag Uchel-Eglwyswr—*Nonjuror* pybyr.

olaf Ann y frenhines. Maen clô areithiau'r Toriaid, pen pwysicaf pregethau'r offeiriaid, byrdwn galarus y pamffledwyr tâl. Perigl oddimewn, perigl oddiallan—pa Eglwyswr union-gred na chynhyrfai i'w waelodion wrth feddwl am Ddeddf Goddefiad, ffrwyth ysgymun y *Glorious Revolution*, epil anachaidd y briodas â Holland? "*If the Act of Uniformity has made one dissenter, toleration has created hundreds.*"[3] Sobr o beth oedd gweled rhyw Ddissenter barus yn chwifio *certificate* a gawsai yn llys yr esgob. Llys esgob yn gorfod cydnabod sism a chofrestru tai cyrddau'r sismaticiaid!

Y mae'n llawn bryd gwybod beth oedd y rhyddid a gafodd yr Ymneilltuwyr—y rhyddid a barai y fath wewyr meddwl i'r Eglwyswr—o dan y ddeddf enwog hon, "*when liberty of conscience was made legal by Act of Parliament*,"[4] yn ôl geiriau hen lyfr eglwys y Cilgwyn, "*when it pleased God to incline the hearts of our rulers to permit the religious liberty of Dissenters by a law*," os dyfynnir barn Piwritaniaid Llundain yn 1690.[5] Rhyw ddiflas braidd y swnia'r Act yn y gwreiddiol ar ôl y brawddegau soniarus uchod.[6] Yn lle dywedyd

[3] Toulmin: *An Hist. View*, t. 50.

[4] *Cofiadur* (1923), t. 28.

[5] Alex. Gordon: *Freedom after Ejection*, t. 158; Drysdale: *Hist. Presb.*, t. 464.

[6] Dymunol iawn fyddai i bob un ddarllen yr Act drwyddi un ai yn y *Documents* a olygwyd gan George Gould yn 1862 (tt. 507–516), neu yn *Select Statutes* Grant Robertson (tt. 70–75).

yn ddifloesgni bod rhyddid i Ddissenters i addoli Duw fel y mynnent, rhygnu y mae'r ddeddf y bydd rhyddid *os* gwneir hyn ac *os* gwneir arall. Dim rhyddid o gwbl heb dyngu llw o ffyddlondeb i'r brenin fel brenin ac i'r brenin fel Pen yr Eglwys Wladol, heb gondemnio dysg y traws-sylweddiad a phob ymyrraeth o eiddo'r Pab yn llywodraeth y wlad, heb arwyddo crêd yn y Deugain Erthygl namyn Un. Pob ty cwrdd Ymneilltuol i fod yn agored yn ystod oriau'r addoli ; gellid cau'r drws, ond dim cloi i fod. Faint bynnag o lwon a dyngid, pa ddeclarasiwn bynnag a wneid, dirymid y cwbl os dangosid tuedd i gadw'r awdurdodau rhag gwybod pa beth oedd yn myned ymlaen y tu mewn—prawf go dda fod Eglwyswyr rhonc (fel yr Iarll Nottingham a fu'n llunio'r ddeddf) yn dal ati i gredu mai llwydaidd iawn oedd teyrngarwch y Dissenters i'r Goron. Oni chynhygiodd rhyw Eglwyswr, wythnos cyn i'r mesur ddod yn ddeddf, nad oedd y Goddefiad i barhau ond am saith mlynedd ? Y degwm i'w dalu fel arfer ; os etholid Anghydffurfiwr i fod yn *churchwarden* neu yn *overseer*, byddai raid iddo dyngu'r llwon eglwysig arferedig neu gael dinesydd arall i lanw'r swydd ar ei ran—y dinesydd hwnnw i fod yn ŵr wrth fodd y gwŷr oedd mewn awdurdod. Dylid dweyd yr esgusodid pregethwyr y Gair rhag llanw'r swyddi yma. Esgusodid tair o Erthyglau'r

Eglwys i bob Ymneilltuwr[7]; esgusodid iddynt hefyd y geiriau arweiniol yn Erthygl xx; esgusodid y clôs diweddaf yn Erthygl xxvii—honno a bwysleisiai y ddyledswydd o fedyddio plant—i bawb a ddywedai mai Bedyddiwr ydoedd. Nid oedd y Pabydd na'r Sosin o fewn arfaeth y Goddefiad; yn wir, o fewn ychydig flynyddau ar ôl 1689, pasiwyd deddfau llymion aruthr yn erbyn y ddau. Am y Cwacer, oherwydd ei syniadau cyndyn ynghylch tyngu llwon a phlwc ei arweinwyr yn mynnu clust i'w ddadl, cafodd ef fwy o ryddid credo na'r un o'i gymrodyr anghydffurfiol: dim ond iddo gyhoeddi'n groew y credai yn athrawiaeth y Drindod ac yn nwyfoldeb ysbrydoliaeth yr Ysgrythurau, ni ofynnid dim ganddo o berthynas i'r Erthyglau.

Ar ôl darllen yr Act yn fanwl, wedi llawn ddeall yr adran ynghylch cloi'r drysau, wedi'r tyngu a'r haeru, nid oedd dim yn aros i'w wneuthur ond dywedyd wrth yr awdurdodau o ba enwad yr oeddych (byddai'r term *Protestant Dissenters* yn ddigon), ac ym mha le y dymunech gael cwrdd i addoli. Nid oedd mymryn o hawl ganddynt i wrthod—dim ond cofrestru'r enw a'r lle yn eu llyfrau swyddogol a rhoddi copi o'r ysgrif i chwi, am chwe cheiniog. Caech eich dewis o dri lle i fyned iddo: llys esgob yr esgobaeth, llys yr

[7] xxxiv (*Of the Traditions of the Church*), xxxv (*Of Homilies*), xxxvi (*Of Consecration of Bishops and Ministers*).

archiagon agosaf,[8] neu o flaen ynadon y Chwarter Sessiwn. Gyda llaw, at archiagon Caerfyrddin yr aeth Robert Morgan o Bontardulais i gofrestru, at Sessiwn Sir Fflint yr aeth Philip Henry. Yr oedd Robert am ganiatad i bregethu mewn pump o dai gwahanol—tri yn Llannon, un yn Llanelli, un yn Llangennech. "*Appeal for same to be registered. Certificate granted*" (11 Chwef., 1689–1690)[9]. Philip am gael pregethu yn ei dŷ ei hun ym Malpas ac mewn "out-housing" yn ymyl. Caniatad.[10]. A barnu oddiwrth records sir Drefaldwyn a ddiogelir yn *Somerset House*, gwell oedd gan y Cwacers fynd i'r Sessiwn nag i lysoedd yr Eglwys. Rhwng canol Ebrill 1708 a chanol Ionawr 1715 sicrhasant saith o dystysgrifau i dai pregethu—i gyd o'r Sessiwn—dwy ym Machynlleth, dwy yn Llanidloes, un yn Llanbrynmair, un yn Llangynog, un yn Nhref-eglwys. Ond a chymryd golwg eangach ar y blynyddoedd, dyweder o 1760 i 1808, yr oedd bumwaith gwell gan Ddissenters y wlad droi at y pwerau ysbrydol i gofrestru eu tai nag at ynadon

[8]Yn fwy cywir, archiagon yr archiagonaeth y digwyddech chwi fyw ynddi. Nid hwnnw a fyddai'r agosaf, bob amser.

[9]*The Welshman* (Caerfyrddin), 6 Tach., 1925 (Carm. Antiqs., No. 884.).

[10]*Cong. Hist. Soc. Trans.*, vi, 207.

y Chwarter Sessiwn.[11] Paham? Y tebig yw bod y swyddfeydd eglwysig yn agored ymron drwy'r flwyddyn, tra nad oedd ryddid gan yr ynadon roddi caniatad ar eu pennau eu hunain, dim ond pan oeddent yn eistedd "*at Quarter Sessions*" (adran xix).

Gellid meddwl bod yr Act yn weddol glir, bod cyfreithwyr y *Revolution* wedi ei morteisio'n ddigon diogel fel na cheffid twll ynddi. Nid yw hyn ond anghofio gwrthnysigrwydd calon hen swyddwyr y Sefydliad i oddef unrhyw ryddid—clercod cyfrwys y Sessiwn, *registrars* ystyfnig yr esgobion oedd yn methu'n lân â chredu bod oes yr ysbïo a'r esgymuno drosodd. Amryw ohonynt yn gwrthod yn bendant â rhoddi'r dystysgrif. Er enghraifft, daeth gŵr o'r enw Green, o blwyf Hindley yn swydd Lancs., o flaen *registrar* esgob Caer i ofyn am gofrestru lle neilltuol yno—hyn ar ei ran ei hun a phymtheg o Ddissenters eraill. Yr oedd yntau, fel Robert Morgan, wedi gofalu ysgrifennu'r apêl ac enw'r tŷ yn barod ar bapur. Gwrthod a wnaeth y *registrar*. Magodd Green a'i gyfeillion ddigon o galon i fyned a'u cwyn o flaen barnwyr y *King's Bench*. Daeth y swyddwr esgobol Pope yno gyda rhibyn hir o fân ddadleuon yn tarddu o amwysedd geiriau'r *registration clause*, adran xix o Ddeddf Goddefiad. I ddechreu,

[11] *Hist. Dissenting Deputies* (1814), tt. 107–109, nodyn diddorol *. Sylwer yr ystyrrir yr holl wlad yn y cyfrif hwn, ac nid Cymru yn unig.

meddai cwnslar Pope, Green a'i gyfeillion sydd yn nodi'r lle addoli[12]; nid yw'r Act yn dywedyd dim ar y pen—onid, meddai'r cwnslar, onid gan y pregethwr ei hun a'i gynulleidfa y mae yr hawl honno? Yn ail, y mae'n debig i Green fod braidd yn ddiofal wrth arfer y gair "*Dissenters*;" haerai'r cwnslar bod apêl Green, belled ag yr ai'r geiriau, yn rhoddi hawl i bawb o Ddissenters y wlad ddod i addoli yn yr un tŷ hwnnw yn Hindley. Green ei hun, meddai'r blaid esgobol, a wnaeth yr apêl; nid yw'r Ddeddf yn dywedyd pwy'n arbennig sydd i fod yn gyfrifol am y rhan honno o'r gwaith; paham Green? Buont wrthi yn cecru a dadlau am oriau. Y diwedd fu i'r barnwyr lynu'n glos wrth ysbryd y Ddeddf, dehongli adran xix yng ngoleu'r ysbryd hwnnw, a thaflu dros y bwrdd fân ddadleuon Pope a'i gwnslar.[13]. Nid oedd hawl mwyach gan swyddwr torrog i wneud melin a phandy o adran xix. Nid oedd le ar ôl hyn i ynadon traws wrthod cofrestru ty i bregethwr a'i gospi wedyn gyda chrechwen am dorri deddf y confenticlau, os meiddiai bregethu heb eu caniatad.

[12]Enw'r lle y dymunent gwrdd ynddo oedd "*The Chapel*." Nid yw'n eglur iawn pa un ai hen gapel Ymneilltuol ydoedd, ai digwyddiad alw'r fan felly. Beth bynnag, protestiai'r ochr arall yn gryf yn erbyn y term. Pallodd amynedd un o'r barnwyr—"*a field or a tavern might be called The Chapel*," meddai.

[13]*Green and Fifteen Others v. Pope* (1 Lord Raymond, 125–128). Michaelmas, 8 William III.

Os cofrestrid pregethwr i bregethu yn sir Amwythig, a oedd hawl ganddo i bregethu yn sir Ddinbych? Nac oedd, meddai'r barnwyr, "*A licence inrolled at the Sessions in one county will not extend into another county, but he must have a licence inrolled in the county where he preaches.*"[14] Tybed a oedd James Owen wedi cael rhyddid i bregethu yn nhre' Rhuthyn, ac ef yn dod yno unwaith bob mis o Groesoswallt tua 1691?[15] Y mae lle pur gryf dros gredu mai pan ddaeth Owen yn weinidog sefydlog i Wrecsam yn 1696 y gwrthododd Sessiwn y sir ganiatad iddo bregethu yn Ninbych, ac y bu iddo yntau bregethu mewn tŷ annedd yno heb dderbyn bendith yr ynadon. Torf o wŷr diriaid yn lluchio cerrig drwy'r ffenestri, a thabyrddwr meddw yn ceisio boddi llais y pregethwr. Mynnodd James Owen apelio oddiwrth ragfarn pobl anwybodus y Sessiwn at farnwyr profedig yr *Assizes*, y rhai a eglurodd yn hyglyw ddarpariadau'r ddeddf, a rhoddi gwers gras i'r ynadon yn y fargen.[16] Fe gofiwch nad oedd Rhuthyn a Chroesoswallt yn yr un sir na'r un wlad, ond yr ydoedd trefydd Dinbych a Gwrecsam. Heb ganiatad swyddogol i bregethu

[14]*Regina v. Peach*, Michaelmas, 3 Anne, K.B. (2 Salkeld, 572).

[15]*Gordon MS.*, f. 99 (Llyfrgell Dr. Williams yn Llundain).

[16]Charles Owen: *Some Account of the Life . . . of Mr. James Owen* (1709), tt. 36–37. Brawd ieuengach James oedd ei gofiannydd Charles. Cofiant diddorol iawn. Ei fai mawr yw prinder dyddiadau.

mewn dwy sir, troseddu'r oedd John Jenkins wrth groesi o Rydwilym dros y Cleddau i Sir Benfro, a Hugh Owen o Fronyclydwr wrth fyned dros y Bwlch i Gyfeiliog, a Lewis Thomas wrth ymunioni o Hengoed i Flaenau Gwent—troseddu yn erbyn y dyfarniad uchod gan farnwyr y *King's Bench* yn *Regina v. Peach.* Os cydymffurfiodd pregethwr anghydffurfiol â thelerau'r ddeddf mewn un sir, symud i fyw i sir arall, a phregethu yno heb gael *certificate* newydd, a oedd hynny i'w gymeradwyo? Nac oedd, siwr iawn, meddai'r barnwyr: rhaid oedd dal at yr egwyddor mai yn sir y Chwarter Sessiwn yn unig y daliai grym y *certificate* gyntaf. Hawdd deall hynyna; ond pwy a rydd eglurhad ar waith Archiagon Caerfyrddin yn caniatau dwy drwydded, un yn sir Gaerfyrddin (plwyf Cilycwm) a'r llall yn sir Aberteifi (plwyf Llanwenog)—a sir Aberteifi yn hollol y tu allan i'w archddiaconiaeth ef?[17]

Purion sylwi na dderbynnid y ddeddf o gwbl gan rai Piwritaniaid go eithafol: ofnent halogi eu dwylo ag argraff y wladwriaeth; dalient ymlaen i bregethu heb yr un caniatad. Ar eu cyfer hwy atgyfodid deddf confenticlau 1670. Os pregethent mewn ty a mwy na phedwar o bersonau ynddo (dros 16 oed, cofier) yn gwrando arnynt tu allan i'r teulu, dyna hwy ar unwaith yn agored i ddirwy y ddeddf honno. Gwnaeth gŵr o'r enw Clark hynny, ac

[17] 20 Rhagfyr, 1690 (*Welshman*, 6 Tach., 1925).

ugain yn gwrando arno. Dihangodd rhag cosb am i'w gyhuddwyr anghofio rhoddi wrth gwt y *charge* eiriau anhebgor y gyfraith—"*contra formam Statuti*;" ac felly, meddai'r barnwyr gyda gwên ddireidus, nid oes brawf nad ei deulu ef ei hun oedd yr ugain pobl. Lwc fawr i Clark oedd amryfusedd y cyfreithwyr. Lwc arall oedd nad y Barnwr Dolben yn unig a wrandawai ar yr achos; am ei gospi yr oedd hwnnw.[18]

Heblaw rhyddid i addoli, daeth amryw fendithion eraill yn sgil Deddf Goddefiad. Ni ellid mwy gyhoeddi'n ddirym gymunroddion at wasanaeth anghydffurfwyr ac anghydffurfiaeth (fel y gwnaed yn 1684 â'r £640 ewyllysiwyd gan Robert Mayot i Richard Baxter[19]). Nid ymyrrodd y gyfraith â'r cronfeydd arian a gesglid er mwyn cyfnerthu a datblygu enwadau Ymneilltuol ledled y wlad, yn enwedig cronfa unedig y Presbyteriaid a'r Annibynwyr a ddechreuwyd yn 1690 a chronfa'r Annibynwyr ar eu pennau eu hunain a sefydlwyd yn 1695. Ar ôl dyfarniad barnwyr y King's Bench yn *Hutchinson a'i Wraig v. Brookebanke*, ni ellid mwy gyhoeddi deuddyn a briodwyd yng ngwydd tystion mewn tŷ cwrdd Ymneilltuol (cofrestredig, wrth gwrs) yn euog o

[18] *Rex & Regina v. Clark*, Trinity, 5 William & Mary, K.B. (1 Salkeld, 370).

[19] Er mwyn cael golwg iawn ar y *case* yma, gwell darllen 1 Vernon, 248–250; 2 Vernon, 104; a'r nodyn pwysig yn 4 Vesey Junr., 434.

odineb.[20] Bendithion pwysig iawn, bob yr un ohonynt.

I'r Eglwyswr penboeth, yr oedd Deddf Goddefiad ei hun yn fwy na digon, heb y cnwd planhigion yma a dyfai yn ei chysgod. Pa ryfedd iddynt ymgroesi rhag y fath ryddid, y fath benrhyddid? Eli i'w calonnau oedd clywed am ymraniadau ymhlith y Dissenters, am Uchel ac Isel Galfiniaid yn ymdderu â'i gilydd, am ddadl bedydd Sir Benfro, am James Owen a Benjamin Keach yn newid dyrnau yn y Wasg, am Annibynwyr Presbyteraidd Henllan yn arfer eu dylanwad gyda "swyddogion parchedig y Tir" i beidio caniatau lle addoli i Annibynwyr Annibynnol Rhydyceisiaid (yn ôl *Byr Hanes* Mathias Maurice)[21]. Weithiau aent ymhellach na llawenhau yng nghwerylon y sectariaid, os gwir y stori am godi capel Chwarelau Bach gryn bellter oddiwrth y ffordd fawr er mwyn i'w ffenestri fod yn fwy diogel rhag cerrig y drwgewyllyswyr.[22] Dim dau am daflu cerrig at addoldy Llanfyllin. A beth am y curo tabwrdd yn Ninbych a chanu clychau eglwys Llwydlo o chwithig[23]—dyna driciau eraill i wneuthur addoli Duw tu

[20] Michaelmas, 5 William & Mary, K.B. (3 Levinz, 376). Dyna ddedfryd y barnwyr yn *Wigmore's Case* yn ogystal (Mich., 5 Anne, K.B.—2 Salkeld, 438).

[21] *Cofiadur* (1925), t. 48.

[22] *Hanes yr Eglwysi Annibynnol* (Doctoriad Rees a Thomas), ii, 97. Yn 1695 y codwyd ef.

[23] Dr. Thos. Rees: *Hist. Prot. Noncon.* (1883), tt. 247–25c.

allan i'r Eglwys Sefydledig yn anhawdd. Yn wir, a gwrando ar air Eglwyswr penboeth yn 1710, methodd Dissenters Llwydlo â dal grwndi'r clychau aflafar : "*there is not one Dissenter in the town*," meddai.[24] Ond beth am yr ugain punt dirwy a roddai adran xviii o Ddeddf Goddefiad ar bob un a ymyrrai ag addoli'r anghydffurfwyr ? Nid oedd yr adran honno yn cospi neb am gadw rialti *o'r tu allan* : rhaid oedd i'r dynionach dienaid hyn ruthro *i mewn* cyn y byddai gan yr awdurdodau un hawl i gydio yn eu gwarrau. Fe gyffelybir Eglwyswr a Dissenter oes gyntaf Goddefiad i ddau gi wedi eu clowtio oddiwrth ei gilydd gan bastwn gŵr mewn awdurdod, ond yn dal ati i ysgyrnygu dannedd y naill ar y llall.[25] Tystiolaeth *records* y cyfnod yw mai'r Eglwyswr ysgyrnygai grochaf a mwyaf effeithiol.

Ni wiw, ysywaeth, celu'r gwir i Ymneilltuwyr ysgyrnygu, ac ateb ynfydion yn ôl eu hynfydrwydd. Profodd awyr ffres y rhyddid newydd yn ormod i rai ohonynt, a chamgymerasant surdoes yr adwaith am fara croew yr ymarfer syber o dduwioldeb. A glywsoch chwi am rysedd y pobydd Presbyteraidd hwnnw o bentre' Bruton yng Ngwlad yr Haf ? Digwyddai fod ei dŷ yn ymyl yr eglwys, "just by the Church yard hatch." Ddiwedd

[24] Dyfyniad (o bamffledyn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn honno) gan yr Anrh. Mrs. Bulkeley Owen : *Hist. of Selattyn Parish*, t. 363.

[25] G. M. Trevelyan : *England under the Stuarts*, t. 449.

Ionawr 1705 yr oedd ganddo ddau o foch yn barod i'w lladd. Pa ddiwrnod, dybygech chwi, a ddewiswyd gan y pobydd i gyflawni'r gwaith, pa adeg o'r dydd, a pha le? Ar y 30 o Ionawr, pan dyrrai pob Eglwyswr egwyddorol i'r eglwys i gofio am farw Siarl y Merthyr eglwysig, ar ganol y ffordd yr âi y bobl ar hyd-ddi i'r gwasanaeth, ac ar ben yr amser yr oedd y gwasanaeth i ddechreu—rhyw ddameg goch i arddangos ei deimladau gwerinol ac anghydffurfiol. "[It] *appear'd as a triumphant acting over the same murther again even in his hogs.*" Y mae'n wir iddo fod yn gapten ym myddin Monmouth yng ngwrthryfel 1685 ac achub ei fywyd megis o'r gyneuedig dân; ond nid oedd hyd yn oed hynny yn galw arno i ddamsang ar deimladau tyner dynion lawn mor deilwng ag yntau—gwaith ffôl na ddaeth rhithyn o ddaioni ohono erioed. Anghofio'r dydd o'r mis oedd ei esgus: ond pa anghofio oedd yn bosibl tra'r oedd sŵn y clychau yn ei glustiau o'r plygain i'r diwedydd?[26] Naw wfft iddo. Anghofiais ddywedyd mai Laurence Creed oedd ei enw, a'i fod yn un o brif golofnau'r trwp Presbyteriaid yn y pentre'.[27]

---

[26]"In this town of Brewton every 30th of January the morning Bell tolls from day break till night (only prayer time excepted)."

[27]*MS. J. Walker*, c. 3, f. 396 (mewn llythyr dyddiedig 7 Tach., 1707, oddiwrth Samuel Hill at John Walker). Purion cofio mai Eglwyswr sy'n adrodd yr hanes.

Nid Cymro oedd Laurence Creed—yr oedd amryw o'r Creeds yng Nghymru, serch hynny, dau ohonynt yn swyddwyr o dan Ddeddf y Taeniad —ac hyd yn hyn ni chlywais am un Cymro yng nghyfnod y Goddefiad yn syrthio oddiwrth ras mor ddwfn ag ef. Ond os daw rhywun â phrawf go dda bod rhyw Fedyddiwr tanbaid o lannau Teifi, neu ryw Annibynnwr ffyrnig o dueddau Llangybi yn Eifionydd, neu ryw Grynwr diamynedd o gantref Mechain yng ngwlad Maldwyn—os daw prawf eu bod wedi anghofio eu hunain a thorri'r llechi yn ddarnau, bydd raid ymorol i'w gredu. Adeg gynhyrfus iawn ydoedd, adeg anhawdd i gadw ar ganol llwybr barn.

IV

Y Ddau Syr Wmffre.

Beth pe'r etholid anghydffurfiwr o grêd i swydd maer neu siryf, a allai ei dal heb droseddu yn erbyn y *Corporation Act* a basiwyd yn 1661 a dywedyd bod Deddf Goddefiad wedi gwneuthur honno'n ddirym? Cyn ceisio ateb y cwestiwn dyrys yma, rhaid troi o'r neilltu am foment i sylwi ar ddau Sais, pob un o'r ddau a chyswllt Cymreig iddo, a phob un o'r ddau wedi arfer ei ddawn ar y ddilemma y cyfeirir ati uchod.

A fyddai'n ormod gofyn i chwi droi i hanes *Declarasiwn* 1687 a gyhoeddwyd yn *Nhrafodion Cymdeithas Hanes* yn 1925? Yno fe welwch fod Iago'r Ail, ar ôl ei siomi'n aruthr gan wrthwynebiad cyndyn Eglwyswyr y wlad i'w bolisi crefyddol, wedi penderfynu chwynnu ei wrthwynebwyr oddiar lechres ynadon y siroedd, a phenodi Pabyddion ac Ymneilltuwyr i lanw eu lle. Gofyn i'r Duc Beaufort, Arglwydd Arlywydd Cyngor y Gororau, i awgrymu enwau Dissenters cefnog iddo. Yr enw cyntaf a awgrymwyd ar restr Sir Forgannwg oedd *Sr Humphrey Edwyn, Knt*[1]. Bum dro ar ôl tro yn hel meddyliau pwy allai y gŵr hwn fod, a beth oedd ganddo i'w wneuthur â gwlad Forgan. O'r diwedd gorfod

[1] *Bodleian Rawlinson MS.* A. 139[A], f. 166.

picio i lawr at Ifano i Gaerdydd (ym Maesteg yr oeddwn y pryd hwnnw). Yno, yng nghyfrol xvii o'r *Dict. of Nat. Biography* y cafwyd goleuni.[2]

Marsiandwr gwlân yn y brifddinas oedd Syr Humphrey Edwin, gŵr a llawer o foddion ganddo, Ymneilltuwr egwyddorol ond llawn uchelgais, Presbyteriad o ran sect. Bu iddo gredu'n ffyddiog yn nifrifwch cynlluniau Iago, a chripiodd yn bur uchel i lewys y brenin diserch hwnnw. Ar y 18 o Dachwedd, 1687, urddwyd ef yn farchog : dyna egluro'r *Knt* yn y *Rawlinson MS.*, a dyna'r rheswm i Beaufort ysgrifennu enw Syr Humphrey yn gyntaf un ar list y "*Dissenters not* [yet] *in Comission.*" Ef hefyd oedd uchel siryf Morgannwg yn 1688. Daeth i gyswllt â'r Sir honno drwy brynu ystad Llanmihangel ger y Bontfaen oddiwrth yr hen Gafalir Syr Robert Thomas, a chyn bo hir wedyn wele ef yn geidwad castell Ogwr ac yn berchen ar yr arglwyddiaeth yn ogystal. Yng Nghymru y bu farw yn 1707. Y mae cof am yr anghydffurfiwr selog hwn wedi ei gerfio ar golofn o fewn muriau eglwys Llanmihangel.

Gŵr gwahanol iawn ei olygiadau oedd Syr Humphrey Mackworth. Piwritan oedd ei daid—Humphrey fyth—a ddaeth i gyffiniau Cymru fel un o swyddogion byddin y Senedd yn y Rhyfel Gartrefol ; ennwyd ef yn un o ddirprwywyr Deddf y Taeniad yn 1650 ; yn 1651 gwnaeth y fath wrhydri dros y Senedd drwy gadw tre' a sir

[2]tt. 135–137.

Amwythig yn dawel, fel y penderfynodd yr awdurdodau Piwritanaidd roddi cadwyn aur yn rhodd iddo, heb sôn am fathodyn gwerth canpunt.[3] Pan fu farw yn 1654, claddwyd ef ym mynachlog Westminster. Eglwyswr brwd a Thori rhonc oedd ei ŵyr. Daw ei enw yntau ar list Sir Forgannwg yn 1687, ond mewn llaw wahanol i'r llaw a ysgrifennodd enw'r Syr Humphrey arall, gyda *D*† o'i flaen ; daw ei enw hefyd ar list o ynadon a wnaed yn nechreu 1688, gyda † eto o'i flaen.[4] Os ystyr y *D* a'r croesau yw y tybid mai Dissenter oedd Syr Humphrey Mackworth, dyna gamgymeriad dybryd (neu fe gogiodd yn glyfar iawn er mwyn ennill ffafr y brenin a mantais iddo ei hun). Dissenter, choelia i fawr !

Yr oedd newydd briodi (yn 1686) â Mary, merch ac unig etifeddes Syr Herbert Evans o'r Gnoll ger Castellnedd a Phencrug yn sir Fynwy ; dyna paham, y mae'n debig, yr ymddengys enw Syr Humphrey ymhlith Protestaniaid Mynwy yn 1696, yn barod i roddi ei fywyd i lawr dros William y Trydydd.[5] Ef yw'r Mackworth a wnaeth gymaint i ddatblygu gweithiau glo Cwm Nedd a gweithiau plwm gogledd Ceredigion. Ef oedd yr aelod Seneddol dros Sir Aberteifi yn 1701, 1702–1705, a 1710–1713. A barnu oddiwrth

[3] *Cal. St. Pap.*, 1651, tt. 373, 374 (Awst 27).

[4] Cymharer yn fanwl *Rawlinson MS.* A. 139[A], f. 140 a f. 166.

[5] *Petty Bag, Assoc. Oath Rolls*, No. 176, col. 4.

ei ddyddlyfrau, nid oedd ŵr duwiolach nag ef ym Mhrydain ; fe ysgrifennodd bamffledau o nodwedd grefyddol odiaeth ; bu'n gefnogydd mawr i'r *Charity Schools* eglwysig yng Nghastellnedd a'r Esgair Hir yng Ngheredigion[6] ; ym mhennod VIII ceir gweled beth oedd ei farn am yr Ymneilltuwyr beiddgar rheini a fynnent fyned y ffordd arall heibio i rai o ddeddfau pwysica'r wlad.

[6]Ceir peth wmbredd o wybodaeth am Mackworth a'i deulu gan D. Rhys Phillips: *Hist. Vale of Neath* (1925). Cyfeirir at ei gefnogaeth i'r ysgolion elusenol yn y *Trans. Hon. Soc. Cymmrodorion*, 1904–1905, tt. 142, 183 (mewn ysgrif fanwl ar addysg Cymru gan Mr. Shankland).

V

Rex v. Larwood.

Yr oedd Deddf Goddefiad yn sicrhau rhyddid addoli i'r Ymneilltuwr syml cyffredin. Nid oedd y rhyddid hwnnw'n ddigon i'r bobl gyfoethog, uchelgeisiol, dalentog, a ymfalchïent anghydffurfio â dull a defod yr Eglwys. Hoffent hwy gael eu pennau i mewn i swyddi pwysig corfforaethau'r trefi a chael gwasanaethu eu cyd-ddynion yn y fyddin a'r llynges (fel swyddogion, wrth gwrs). Ar y ffordd safai *Corporation Act* 1661, a omeddai bob swydd ar gorfforaeth tref i bobl oedd heb gymuno yn eglwys y plwyf o fewn y deuddeng mis cyn hynny; bwgan arall oedd *Test Act* 1673, a gaüai bob Piwritan (a Phabydd) allan o swyddi'r fyddin a'r llynges hyd nes y cydymffurfient ag erthyglau'r Eglwys Sefydledig. Nid ymyrrai Deddf Goddefiad yn y dim lleiaf â'r hen ddeddfau gorthrymus hyn. Dyna safle afresymol: dynion galluog teyrngar yn dyheu am wasanaethu brenin a gwlad, cyfreithiau cledion yn bolltio'r drysau yn eu herbyn. Pa les i'r Prif Farnwr Holt ddywedyd bod gan y brenin (pob brenin) ddiddordeb yn ei ddeiliaid a hawl ar eu gwasanaeth, os oedd deddfau'r *Corporation* a'r *Test* yn gwrthod y gwasanaeth hwnnw?

Dim ond inni droi am funud at wŷr y gyfraith, cawn olwg ar ddwy ysgol wahanol o Biwritaniaid a dau ddyfarniad anghyson o eiddo'r barnwyr. Yn nechreu teyrnasiad William dewiswyd gŵr o'r enw Clarke (nid yr un dyn, sylwer, â'r Clark a fu'n pregethu i gryn ugain o bobl heb yr un *certificate* ganddo), Ymneilltuwr nad âi byth i'r eglwys, yn feili tref Guildford. Yn ôl pob hanes, derbyniodd yr anrhydedd gyda llawenydd. Gyttrym yn y byd na chymerodd maer eglwysig y dre' achos y beili i'r King's Bench er mwyn ei gospi am droseddu yn erbyn deddf y *Corporation*. Methu a wnaeth y maer. Daeth Clarke adref yn holliach, a'r hawl ganddo i ofalu am fuddiannau ei gyfeillion Piwritanaidd a'i elynion eglwysyddol.[1]

Derbyn swydd beili a wnaeth Clarke o Guildford; gwrthod swydd siryf a wnaeth Larwood o Norwich—gwrthod yn bendant am ei fod yn Anghydffurfiwr, ac am y byddai'n drais ar ei gydwybod gydymffurfio â gofynion y *Corporation Act*. Awd ag ef o flaen y King's Bench, tri o farnwyr yn eistedd. Siaradai cwnslar y brenin yn ddoniol dros ben mai unig amcan Deddf Goddefiad oedd goddef i Ymneilltuwyr addoli Duw o dan amodau neilltuol, ac nid eu hesgusodi rhag

[1] *Mayor of Guildford* v. *Clarke*, Mich., 2 William and Mary (2 Ventris, 247–248).

dwyn eu cyfiawn ran o bwysau'r wlad ; hefyd, meddai, os esgusodir y Larwood hwn, synnwn i damaid na throai pawb yn Ymneilltuwyr er mwyn osgoi swyddi pwysig a thipyn o drafferth ynglŷn â hwy. Cododd un o'r barnwyr, Syr Samuel Eyre, a dywedodd ei fod ef am esgusodi Larwood ar y tir fod Deddf y *Corporation* yn ei gau allan, na ddylid cospi undyn ddwywaith am yr un peth (cospir ef gan y *Corporation Act* drwy ei gadw allan, cospir ef drachefn drwy golli swydd broffidiol), ac nad oedd un rheswm dros gospi dyn am beidio gwneud yr hyn yr oedd deddf y wlad yn ei warafun. Yn olaf oll, dywedai, beth am y dyfarniad bum mlynedd yn ôl yn y *Mayor of Guildford v. Clarke ?* Yn erbyn Larwood yr oedd y ddau arall, y Prif Farnwr Holt a Syr Giles Eyre. Wele grynodeb o'u dadl. Nid bwriad y *Corporation Act* oedd esgusodi neb rhag derbyn swydd, ond eu gorfodi i ddod i fyny â'r telerau angenrheidiol i'w llanw ; nid i ddangos ffafr i Ddissenters y pasiwyd hi, ond i'w calonogi i ddod yn Eglwyswyr ; os gwrandewir ar ein brawd Eyre, meddent, bydd Larwood ar ei fantais, canys swydd anhawdd yw swydd siryf, "*chargeable and full of trouble.*" Yn ben ar y cwbl, sylwai'r Prif Farnwr gyda phwyslais, "*no man shall take advantage of his own disability.*" A chan fod y barnwyr yn ddau yn erbyn un, colli'r dydd a wnaeth Larwood druan, a gorfod talu dirwy drom (cafodd gŵr o Eglwyswr y fraint o gael allan drwy brofiad pa un

ai colledwr ai ennillwr oedd siryf Norwich ar ddiwedd blwyddyn ei swydd).[2]

Buddiol i ni gadw'n glir yn y cof mai Ymneilltuwr selog i'w ryfeddu oedd Larwood o Norwich; ni fynnai wadu egwyddor er mwyn anrhydedd y byd hwn—yn sicr ddigon, ni fu gyfrwysed a gŵr o'r enw Burdett a alwodd ei hun yn Ddissenter pryd nad ydoedd, gyda'r amcan o ddianc rhag dioddef pennyd arbennig yn llys yr esgob.[3] Yr oedd ysgol fawr o Biwritaniaid yn unfryd unfarn â Larwood. Yn wir, prin y gallwn godi'n rhy uchel y clawdd terfyn, gyda pholion go sicr ar hyd-ddo, rhwng yr ysgol hunanymwadol hon a'r Dissenters mwy uchelgeisiol a fynnai wthio i'r prif swyddi, doed a ddelo, cydwybod neu beidio. Awyr iach y bryniau di-demtasiwn oedd eiddo Larwood a'i drâs. I faterolwyr mentrus y gwastadedd, serch hynny, y mae inni ddiolch am fynnu cyfiawnder a thegwch i Ymneilltuwyr mewn gwlad a thref a phrifysgol. Hwy biau'r bennod nesaf.

---

[2] *Rex & Regina v. Larwood*, Hilary, 6 & 7, William and Mary (1 Salkeld, 168; 3 Salkeld, 134; 1 Lord Raymond, 29–37).

Fel y gwelir, Rex & *Regina* yw'r teitl swyddogol. Gan i'r frenhines farw yn niwedd Rhagfyr 1694, go brin y cyhoeddwyd y ddedfryd o fewn ei hoes hi. Felly, y mae'n llawn gywired galw'r *case* yn *Rex* v. Larwood, ac yn llawer mwy hwylus.

[3] *Burdett v. Newell*, Mich., 4 Anne (1 Lord Raymond, 1211). Gwêl hefyd *Britton v. Standish* (*Hist. Dissenting Deputies*, 200–201, n. *).

VI

Y Cymunwyr Achlysurol.

Dyfarniad *Rex v. Larwood* a ddaliodd ei dir ym marn y barnwyr yn gyffredinol, ac nid dyfarniad y *Mayor v. Clarke* : nid oedd modd gwadu nac osgoi na dirymu adran feichus y *Corporation Act.* Nid oedd dim dyfodol, ac edrych ar ymddangosiad naturiol pethau, i Anghydffurfwyr uchelgeisiol ; rhaid oedd iddynt, yn ôl pob tebig, fyw bywyd syml dirodres heb na rhwysg aldramonaidd na'r pleser o ymdaith mewn gosgordd gyda chleddyf y ddinas yn grogedig wrth eu cluniau. Ond bu'r ffaith yn anffyddlon i'r ymddangosiad. Nid y tebig a ddigwyddodd. Yn ystod deng mlynedd ar hugain yr erlid dysgodd yr Ymneilltuwyr lawer iawn o wersi buddiol. Dysgasant fod yn gyfrwys ac yn gall. Yn 1697 dewiswyd Syr Humphrey Edwin, y marsiandwr Presbyteraidd a sgweier newydd Llanmihangel ym Morgannwg, yn Arglwydd Faer Llundain. "*He got upon a great horse and eat custard*," meddai'r Swift sarhaus amdano.[1] Fore Sul Hydref 31 aeth, yn ôl y ddeddf, i gymuno yn eglwys ei blwyf ; yn y prynhawn fe aeth, yn ei lawn wisg swyddogol, i wrando ar bregeth yn nhy cwrdd y Presbyteriaid. Dywedir ei fod wedi gorfodi "sword-bearer"

[1] *Works*, gol. Scott, x, 186 (cyfeirio at Jack Bresbyteraidd y mae yn y "*Tale of a Tub*").

y ddinas i ddod gydag ef ; pan oedd hwnnw ymron swrddanu mewn awyrgylch mor ddieithr ac yn bygwth ymadael ar ffrwst, clowyd ef yn sicr yn un o'r côrau. Aeth Syr Humphrey drwy'r un rhaglen ar y Saboth cyntaf o Dachwedd drachefn.[2] Dyma'r modd y dechreuwyd datgloi cwlwm y deddfau, sef drwy gymuno'n achlysurol, ddwywaith yn y flwyddyn, "*occasional conformity*." Beth am eiriau'r ddau farnwr wrth gyhoeddi'r dyfarniad yn *Rex v. Larwood?* Anwybyddwyd hwy.

Yn y fan hon dylid dywedyd bod y diwinydd hirben John Howe, belled yn ôl â 1689, wedi gweled mai i ryw gyfaddawd dynol fel hyn y gwthid Piwritaniaid parchus oedd yn dyheu am swyddi. O safbwynt Presbyteraidd yr edrychai ef ar bethau, nid o safon Larwood nac o safon y Clark hwnnw a feiddiodd bregethu heb ganiatad y gyfraith. Prif bwynt Howe oedd dangos leied y gwahaniaeth a fodolai rhwng yr Eglwyswyr â'r Presbyteriaid cymedrol, rhwng y cymunwyr arferol â'r cymunwyr achlysurol : byddai cystal, meddai, cadw pobl oddiwrth fwrdd y cymun am fod eu gwallt o liw neilltuol a'u cadw oddiwrtho oherwydd eu galw'n Bresbyteriaid ; y mae'r Llywodraeth a wrthyd wasanaeth dynion rhesymol o Ymneilltuwyr [Presbyteraidd, cofier] yn debig i ddyn a dyrr ymaith aelodau ei gorff am fod ychydig frychni ar y croen.[3] Ac y mae'n briodol sylwi mai nid

[2] *D.N.B.*, xvii, 135–137.
[3] Toulmin : *An Hist. View*, App. I, 540–542.

amddiffyn yr achlysurwyr a wnai Howe yn 1689, ond pwyo i dre' y gwrthuni o gau allan o wasanaeth y wlad y bobl hynny na allent gydymffurfio â phob dim yn Llyfr y Weddi Gyffredin. Nid oes brawf iddo ddod i maes o gwbl i amddiffyn Syr Humphrey Edwin yn 1697.

Yr oedd mawr angen amddiffynwyr ar y gŵr hwnnw. Achosodd haerllugrwydd y marchog Presbyteraidd wbwb wyllt yng ngwersyll y Toriaid a'r Eglwyswyr. Ni sonid am fawr ddim arall yn y clybiau a'r tai coffi. Ar ben y Goddefiad, y *trusts* Ymneilltuol, y priodi bondigrybwyll mewn tai cyrddau, dyma'r ffieidd-dric hwn yn ail-agor drysau'r corfforaethau i'r Anghydffurfwyr, ie, drws corfforaeth bwysicaf y byd! Beth nesaf? Beth oedd i'w wneud? Yr oedd Ty'r Cyffredin yn 1697 yn rhy lawn o Whigiaid, Eglwyswyr mae'n wir, ond Eglwyswyr claïar iawn, ac yn dibynnu i gryn raddau ar bleidleisiau Ymneilltuwyr cefnog y trefi. Nid oedd fawr obaith iddynt hwy symud na bys na throed yn y mater. Os na symudai'r Senedd, rhaid oedd dadfeichio'r teimladau drwy gyfrwng y Wasg. Ac eto, pan ddechreuodd y Wasg lefaru, a chlywed dau lais yn fwy clochaidd ac effeithiol na'r rhelyw—nid Eglwyswr swyddogol mo'r un ohonynt. Un yn fab i Ymneilltuwr, gŵr wedi ei addysgu mewn academi Ymneilltuol, ac yn ddigon o feistr ar ddialectic i amddiffyn cyfrwystra yn cael y goreu ar orthrwm—neb llai na Daniel Defoe. Beth

bynnag oedd y rhesymau cyfrin am oerfelgarwch Defoe tuag at ei hen gyfeillion—nid oes un o'i gofiannwyr wedi cael gweledigaeth eglur ar y pwnc—beirniadodd hwy'n llym mewn pamffledyn a gyhoeddodd tua Phasg 1698 : edliwiai i'r Ymneilltuwyr eu dirfawr anghysonderau, cyferbyniai bobl yr Arglwydd ag addolwyr Baal, a dywedai'n groew nad oedd hawl gan ddyn i alw ei hunan yn Ymneilltuwr os gallai ystumio ei gydwybod i fyned tu fewn i'r Eglwys ar unrhyw achlysur. "*Occasional conformity is either a sinful act in itself, or else his* [Sir Humphrey Edwin, dybygwn] *dissenting before was sinful.*"[4] Y llais arall oedd un Henry Dodwell, gŵr gwahanol i Defoe, *Non-juror*, un o leygwyr mwyaf dysgedig ei ddydd. Onid ef, yng Nghroesoswallt yn 1681, a fu yn dal i fyny freichiau yr Esgob William Lloyd yn y ddadl gyhoeddus honno yn erbyn tri o brif golofnau'r Ymneilltuwyr? Erbyn hyn yr oedd Dodwell ag osgo gref i ddod yn ôl i fynwes y Sefydliad, ac ofnai'n fawr y byddai i'r Eglwyswyr achlysurol dyfu i'r fath nifer ag i beryglu'r Eglwys o'r tu mewn—"*they might vote on Church matters as Churchmen*

[4]William Minto: *Defoe*, tt. 19–21. Ail-gyhoeddodd Defoe y pamffledyn hwn yn 1701, ac atebwyd ef gan John Howe. Taflodd Defoe y bêl yn ôl ato yntau drachefn (amdanynt ill dau, gwêl Edward Arber: *Term Catalogues*, iii, 67, 228, 232, a William Chadwick: *Life and Times of De Foe* (1859), tt. 95–102).

and then declare that certain doctrines were not those of the Church of England."[5] Ofn go ddisail, os daliwn i gofio nad oedd holl Biwritaniaid y wlad, y cwbl gyda'i gilydd, ond megis un allan o bob un-ar-hugain o'r trigolion !

Nid rhyw lawer o ddylanwad oedd gan Defoe efo'i holl ddoniolwch, na chan Dodwell gyda'i holl ddysg. Llai fyth gan y lleisiau gwacach. Gormod o gyfarth, teimlai'r Toriaid erbyn hyn, a dim digon o frathu. Ond nid oedd bosibl gwneuthur dim—dim a dim gafael arno—i lareiddio beiddgarwch yr achlysurwyr heb gael grym cyfraith oddiwrth ddau Dy'r Senedd. Nid oedd hynny'n bosibl heb dorri crib Whigiaid Ty'r Cyffredin ; nid oedd hynny ychwaith yn bosibl heb gael etholiad cyffredinol. Cafwyd hwnnw yn 1701. Daeth y Toriaid i mewn yn llu banerog, ddwywaith yn 1701, ac yn 1702 drachefn. Yn nechreu 1702 bu'r brenin William farw,[6] a daeth Ann ei chwaeryng-nghyfraith i'r orsedd. Merch i Babydd, ond Protestant mawr ei hun, a mwy o Anglican nag o Brotestant ; gwraig o gyrhaeddiadau bychain tosturus, ond ystyfnig fel ei thad Iago. Bu i'r digwyddiadau trifflyg hyn—buddugoliaethau'r

[5] *Case in View*, t. 53 (dyfynnir yn Lathbury : *Nonjurors*, t. 197).

[6] " It pleased him (nid *Him*) to give a King in his Anger, and take him away in his Wrath," medd yr Uchel-Eglwyswr Walker (*Sufferings*, Preface, viii).

Toriaid, marw William, esgyniad Ann[7]—newid y safle wleidyddol drwyddi draw. Yr oedd yr Eglwyswyr yn eu hafiaith. Cydweithiai popeth er daioni iddynt. Arwyddion amlwg ar bob llaw o adweithiad diwrthdro yn erbyn Ymneilltuaeth a rhyddid crefyddol. Tua'r amser hwn y condemniwyd llyfrau John Locke, y meddyliwr mawr a roddodd waelod athronyddol i bolisi'r Goddefiad, gan Brifysgol eglwysig Rhydychen a gwahardd y myfyrwyr i ddarllen ei draethawd enwog ar y Deall Dynol; tua'r cyfwng hwn, hefyd, y cyffrowyd John Walker i geisio taflu parddu ar bortreadau Calamy o'r Ddwy Fil. Haerai Uchel-Eglwyswr mewn pregeth o flaen Ty Isaf Confocasiwn ar y 30 o Ionawr nad oedd dioddefiadau Siarl y Merthyr fawr lai nag eiddo'r Gwaredwr.[8] Hyderai prif arweinydd y *Nonjurors* y deuai pethau i'w ffordd hwy tra'r oedd merch Iago'r Ail ar yr orsedd.[9] A dyma'r adeg

[7]Tegwch â'r Frenhines yw dwyn ar go' iddo gynnig rhoddi mil o bunnau yn nwylo'r Dr. Daniel Williams er mwyn iddo'u rhannu ymhlith gweinidogion tlodion o Ymneilltuwyr. Gwrthod eu cymeryd a wnaeth y Doctor, "for reasons connected with the state of the times" (gwêl yr hanes mewn erthygl ar y *Regium Donum* yn y *Christian Reformer* am Ion. 1846). Dywed Alexander Gordon mai Harley oedd gwir awdur y cynnig, ac nid y Frenhines (*D.N.B.*, lxi, 387).

[8]Burnet: *Hist. Own Time* (arg. 1823), v, 16.

[9]*Hist. MSS. Commission*, Third Report, App., t. 273 (llythyr oddiwrth y Dr. William Lloyd o Norwich at Syr. C. Calthorp, 29 Meh., 1702).

gyfleus a ddewiswyd gan Roger Griffith o'r Fenni, athro'r academi Ymneilltuol yn y dref honno, gŵr y gwariodd Ymneilltuwyr arian mawr ar ei addysg yn y wlad hon ac ar y Cyfandir—dyma'r adeg a ddewiswyd ganddo ef i droi ei gefn ar ei hen gyfeillion a chael ei ordeinio'n offeiriad yn Eglwys Loegr.[10] Yr oedd hir addysg wedi ei gyfaddasu i ddeall arwyddion yr amserau yn bur dda.

Nid annaturiol, felly, yw darllen mai un o resymau'r Toriaid dros basio mesur cryf yn erbyn y cymuno achlysurol oedd dathlu dyfodiad Ann i'r orsedd drwy ddiogelu buddiannau'r Eglwys :[11] os, meddent, y cafodd y Dissenters ddŵr i'w melinau yn chwildro 1689, bydded i ninnau roddi'n hysgwyddau wrth olwynion ffawd yn chwildro hapus 1702. Waethaf y modd iddynt hwy, bu raid treulio rhan orau'r flwyddyn i ddarpar ar gyfer y rhyfel fawr â Lewis o Ffrainc, rhyfel a gynlluniwyd gan William ac a goronwyd â buddugoliaethau lawer gan Marlborough. Yn ei diwedd y deuwyd at bechodau Sir Humphrey Edwin a'r Presbyteriaid. A beth am gamwedd y Syr Thomas

[10]Nid wyf yn meddwl bod cyfeiriad diweddarach ato na Nadolig 1702 yn nhrafodion y *Presbyterian Board* (*Minutes*, ii, 109). Dylid cyfaddef bod argoelion cryf o gariad at yr Eglwys yn Griffith er 1698 (*Hanes Egl. Ann.*, i, 41–42).

[11]*Reports of the Several Conferences Relating to the Bill for Occasional Conformity* (1702). *Printed by Order of the House of Commons* (t. 22). Pamffled Toriaidd diddorol a phwysig. Bydd yn fwy hylaw i gyfeirio ato fel *Reports*.

Abney a wnaed yn Arglwydd Faer yn 1700? Prin y gellir dywedyd bod y marchnatâwr pysgod—dyna oedd Syr Thomas—yn gystal capelwr â'r marsiandwr gwlân; ond yr oedd yn un o brif gyfeillion John Howe, a'i wraig gyntaf yn ferch i Joseph Caryl, un o brif oleuadau'r Ddwy Fil.[12] Yr oedd mwyafrif mawr aelodau'r Cyffredin yn wenfflam yn erbyn y ddau, yn fwyaf enwedig ŵr o'r enw John Howe, yr aelod Toriaidd dros Sir Gaerloew. Cyd-ddigwyddiad digon diddorol: gelyn mwyaf anghymodlawn y cymunwyr achlysurol a'u hamddiffynnydd enwocaf, ill dau yn John Howe. Pan gawd hamdden i astudio'r mesur newydd yn fanwl, buan y profwyd mai nid diod ddiflas lasdwraidd ydoedd, ond bwyd cryf at flas y Tori mwyaf eithafol.

Can punt, a dim dimai llai, oedd y ddirwy a roddid ar bobl etholid i swyddi cyfrifol yng ngwasanaeth y Frenhines, y rhai a aent i gymuno i'r Eglwys er mwyn eu cadw, ond a aent yn union wedi hynny i addoli mewn tŷ cwrdd Ymneilltuol; pum punt o ddirwy yn ychwaneg am bob dydd y dalient i gyflawni gwaith y swydd ar ôl bod yn y tai hyn: os ceffid rhywun yn wir euog o'r trosedd hwn, nid oedd obaith iddo ddal y swydd honno byth wedyn ar y ddaear hon, na'r un swydd wladol arall ychwaith. Serch hyn i gyd, os deuai'r troseddwr i'r Eglwys am flwyddyn gron heb ddangos ei wyneb yng nghwmni ei hen gyfeillion, cyfranogi

[12] *D.N.B.*, i, 54-55.

o'r cymun yn yr Eglwys deirgwaith o leiaf yn yr un flwyddyn honno, tyngu llw o'i gydymffurfiaeth o flaen un o farnwyr ei Mawrhydi neu o flaen ynadon y Sessiwn—ar ôl puro ei hun yn y pair tri-onglog yma, byddai obaith iddo adennill hyder ei gydwladwyr eglwysig a chael ail gynnig ar swydd (ar ôl taflu ail olwg ar adrannau'r mesur, gwelwn mai "*after* new admission to office" yr oedd tyngu'r llw i fod). Beth pe tai yr hen achlysurwr yn syrthio oddiwrth ras wedi seremoni'r buredigaeth? Dwbl ddirwy, £200 a £10 am bob diwrnod. Dim gobaith atgyfodi mwy heb ddod i'r Eglwys dair blynedd yn olynol, cymuno deirgwaith yn ystod pob un ohonynt, a thyngu'r llwon yn ddifrifolach nag erioed. Cynddrwg â'r cospau anhrugarog hyn oedd y gair senllyd *conventicle* a frithai wyneb y mesur[13]; gwaeth na'r gair hwnnw oedd y bri newydd a roddid ar grefft a chlust yr ysbïwr: yr ysbïwr oedd i gael pob dimai o'r canpunt. A barnu oddiwrth ei ysbryd a'i eiriau, bygythiai'r mesur hwn daflu'r Ymneilltuwyr yn ôl i ddyddiau poenus yr erlid. Pwy ar ôl ei ddarllen drwodd, a gredai neges y *preamble* fod y Goddefiad i aros tros byth, heb na brycheuyn na chrychni arno? Darllenwyd

[13]Daliwyd at yr hen ddeffiniad yn neddfau 1664 a 1670—ni ellid galw unrhyw gwrdd yn gonfenticl os na byddai yno bump o bersonau tu allan i deulu'r ty y cyfarfyddid ynddo. Felly, gallai swyddwr a chymunwr achlysurol osgoi holl gospau mesur 1702 drwy gadw cwrdd yn ei dŷ ei hun, a gofalu na fyddai mwy na phedwar o bobl ddieithr yno.

y mesur deirgwaith yn Nhy'r Cyffredin, ar frys gwyllt. Os pesid ef gan y ddau Dŷ, disgwylid i'r ysbïwyr lanhau eu clustiau erbyn Dydd Gwyl Ddewi, 1703.

Yn niwedd y bennod hon na themtier ni, wrth wawdio tipyn ar ddawn atgas yr ysbïwr, i wastraffu gormod o gydymdeimlad â'r cymunwyr achlysurol. Nac anghofiwn Larwood a'i gymrodyr. Gwelai'r bobl unplyg hynny—gwŷr a ddioddefent ddirwy drom am BEIDIO derbyn swydd—ddal adar ry anturus ym magl yr adarwr. Ni ryfeddent glywed am ddanadl yn goresgyn hyfrydleoedd yr Edwiniaid, ac am ddrain yn araf dyfu yn eu pebyll.

VII

Tynnu'n Groes.

Fel yr oedd goreu i'r achlysurwyr, nid oedd fawr berigl iddynt yn 1702–1703. Yr oedd Ty'r Arglwyddi ar ffordd y mesur. Nid Toriaid (fel y mae'n syn dywedyd) oedd yn y mwyafrif yno, ond esgobion isel-Eglwysig a ffieiddient ormes ar gydwybod, a Whigiaid ucheldras na fynnent er dim golli cefnogaeth Ymneilltuwyr y trefi mawr. Nid taflu'r mesur allan oedd eu cynllun, ond ffordd arall gyfrwysach o lawer, sef cynnig y fath welliantau arno, ac ychwanegu adrannau mor annerbyniol ato, y gwyddent cyn dechreu na wnai Toriaid Ty'r Cyffredin braidd edrych arnynt. Un gwelliant a gynhigid gan yr Arglwyddi oedd tynnu'r *fine* o £100 i lawr i £20, "*because*," meddai Burnet, "*they thought this the most plausible way of losing it, since the house of commons had of late set it up as a maxim that the lords could not alter the fines they* [the Commons] *should fix in a bill.*"[1] Diddorol yw darllen am y drafferth yr aeth yr Arglwyddi iddi er mwyn ateb gwrthddadl y Cyffredinwyr ar y pwynt yma. Cawsant allan o hen roliau llychlyd y Senedd fod eu Ty hwy wedi meddwl am *fines* o flaen y Ty arall, fod yr Arglwyddi wedi newid *fines* a gynhigid gan y Cyffredin, ac weithiau wedi penderfynu ar ddull

[1] *Hist. Own Time*, v, 52.

newydd i'w gwario. Wrth gwt tynnu'r ddirwy i lawr, barnent fod un rhan o dair ohoni yn hen ddigon i'r ysbïwr (golygai'r gwelliant hwn golled iddo ef o £93 6s. 8c. y pen).

Nid oedd ganddynt ddim llai na phump o adrannau newyddion i'w hychwanegu at y mesur. Yn ôl adran newydd A, credai'r Arglwyddi na ddylai neb gael ei gollfarnu am gymuno'n achlysurol er mwyn cadw swydd heb i'r cyhuddwr dyngu llw ar y pen o fewn deng niwrnod i'r trosedd, a'i erlyn mewn llys gwladol o fewn tri mis ; dylid hefyd gael gair dau dyst annibynnol y gellid dibynnu arnynt. Tynnwyd y gwynt o'u hwyliau drwy i'r Cyffredin dderbyn yr adran hon. Amcan adran newydd B oedd dod a phethau i ryw fath ar synnwyr cyffredin ar ôl y dyfarniad yn *Rex v. Larwood*, drwy yr hwn y cospwyd dyn (dywedwn eto) am wrthod swydd a wrthodid iddo gan y gyfraith. Credai'r Arglwyddi na ddylid *gorfodi* undyn i dderbyn unrhyw swydd y byddai *raid* iddo gyfranogi o gymun yr Eglwys cyn ei derbyn. Ateb Toriaid Ty'r Cyffredin i hyn oedd : "*that the exempting Protestant Dissenters from serving Office would rather establish Occasional Nonconformity than prevent Occasional Conformity*"— ateb y rhaid i chwi sefyll uwch ei ben fwy nag unwaith cyn ei iawn ddeall. Gomeddent yn bendant â derbyn adran B, hynny yw, mynnent i ddedfryd

y ddau farnwr yn *Rex v. Larwood* i sefyll yn stond fel safon i farnwyr eraill. Ergyd adrannau C, D, E, oedd na ddylai'r mesur gyffwrdd â phregethu swyddogol y Prifysgolion, nag â breintiau'r Protestaniaid estron a heidient i'r wlad hon o Ffrainc ac Orange a dyffryn y Rhein,[2] nag â'r mân swyddwyr a reolai ysbytai a thai'r tlodion : "*what hurt can there come from Dissenting Bread and Cheese or Presbyterian Water-Grewel.*" Ni fynnai'r Toriaid syflyd ronyn ar y can punt dirwy, a chyhoeddasant anathema uwchben B, C, D, ac E.[3]

Arfer gyffredin y cyfnod hwnnw, pan godai cyfwng o anghydweled rhwng y ddau Dŷ, oedd pennu ar bwyllgor i gyflafareddu rhyngddynt, pwyllgor yn cynrychioli'r ddau. Hynny a wnaed yn 1703. Ni fu pwyllgor mwy afrywiog, mwy anghydnaws erioed. Digon yw dywedyd bod yr Esgob Burnet yn un o gynrychiolwyr Ty'r Arglwyddi, bwgan mwya'r Toriaid. Yr oeddynt byth a hefyd a'u dwylo yn ei frig ; a phle bynnag y byddai Burnet, ceid yno wybodaeth enfawr o hanes crefydd, cydymdeimlad gonest â rhyddid

[2]Priodol dywedyd am y caredigrwydd mawr a ddangosid at y tramorwyr truain a yrrid o Ffrainc gan Lewis. Gwneid casgliadau mynych iddynt. Er enghraifft, cyfrannodd Annibynwyr Llangyfelach 30s. yn nechreu 1704 at reidiau Protestaniaid Orange (*N.L.W. Add. MS.* 369A, t. 135).

[3]*Reports*, tt. 10–11.

crefyddol,[4] a geiriau brathog dewisol yn torri hyd at yr asgwrn. Ni fu'r Toriaid yn ôl o ddarpar eu dadl yn drwyadl mewn rhesymeg gywrain; gwnaethant alanas ar anghysondeb y cymunwyr achlysurol Presbyteraidd hafal i ymosodiad Defoe yn 1698. Agorasant y ddadl—dros beidio amharu'r mesur—drwy haeru bod crefydd sefydledig ac Eglwys genedlaethol yn anhebgorol angenrheidiol, yn enwedig mewn oes pan oedd cynifer o bobl seilwon yn honni ysbrydoliaeth a chynifer o ddynion gwan yn barod i'w dilyn. Yr unig foddion effeithiol i ddiogelu'r fath eglwys oedd y gallu gwladol, a chadw hwnnw'n dyn yn nwylo cydymffurfwyr â'r Eglwys. Nid oedd Seneddau 1661 a 1673, awduron deddfau'r *Corporation* a'r *Test*, wedi dychmygu erioed y tyfai cenhedlaeth o bobl yn y wlad, cydwybodau y rhai oedd ry dyner i ufuddhau i'r cyfreithiau, ond yn ddigon celyd i dorri drwyddynt bob yr un. A dyma gymalau o resymeg a llawer o ôl caboli arnynt: fod ymwahanu oddiwrth Eglwys nad oedd ynddi ddim yn treisio ar gydwybod yn ddim gwell na sism; fod sism yn bechod ysbrydol; fod cydwybodau'r achlysurwyr yn goddef iddynt gydymffurfio; fod

[4] Y noson cyn i'r pwyllgor gwrdd am y tro cyntaf (7 Ion., 1702–1703), pwy a alwodd gyda'r Esgob ym mhalas St. James i esgusodi'r achlysurwyr a rhoddi eu hachos yn glir o'i flaen? Neb llai nag Edmund Calamy, hanesydd y Ddwy Fil. "*He listened . . . with great attention*" (Clarke and Foxcroft: *Life of Bishop Burnet*, t. 400).

Ymneilltuaeth y bobl rheini o angenrheidrwydd yn bechod yn erbyn y goleuni.[5] Gwâd y cymal cyntaf un o'r rhesymau cryfaf dros y Diwygiad Piwritanaidd. Turia'r ail o dan sail y Diwygiad mawr Protestanaidd ei hun. Os sism oedd ymwahanu ag Eglwys Loegr, onid sism hefyd oedd ymwahaniad Eglwys Loegr oddiwrth Eglwys Rufain? A fyddai'r Toriaid lawn mor barod i waeddi sism ar y *Nonjurors*? Gyda golwg ar y ddau gymal olaf, yr oedd Defoe yn 1698 wedi eu cyfleu yn fyrrach a hawddach eu cofio. Y gwir yw, yr oedd mwy o gywreinrwydd ymadrodd yn nadl y Toriaid nag o resymu cydnerth, mwy o fantoli brawddegau nag o forteisio ffeithiau diymollwng.

Gafaelodd yr Arglwyddi'n ebrwydd yn y gair sism.[6] Enw byr ar ffaith fawr yw sism, meddent, ac ni ddylid byth alw neb yn sismaticiaid ond y rhai a ymwahanant â'r wir Eglwys ar bwnc dwfn o gredo, neu a anwesant syniadau dieithr am wirioneddau hanfodol crefydd. Pa reswm siarad am sism pan ŵyr pawb mai gwahaniaethau bychain—"*some little Forms*"—sydd rhyngom ni â'r Ymneilltuwyr? Os yw mynd i dŷ cwrdd y Dissenters y fath drosedd mewn gŵr swydd, paham y goddefwch y fath gyrddau o gwbl, yn lle dywedyd yn y *preamble* nad oes dim iod o'r Goddefiad i'w dynnu

[5]*Reports*, tt. 22–25.

[6]Os am glywed Arglwyddi'r pwyllgor yn siarad, darllener y *Reports*, tt. 25–27, a Burnet: *Hist. Own Time*, v, 49–52.

ymaith? Fe ddywedwch yn yr un *preamble* nad ydych yn credu mewn erlid ungŵr ar fater cydwybod; os felly, profwch hynny drwy dderbyn adran newydd B, amcan yr hon yw dangos trugaredd at y dynion anffodus a orfodir i dderbyn swyddi yn erbyn eu cydwybod. Dadleuai'r Arglwyddi lawn mor frwd dros y Protestaniaid alltud â thros y Dissenters brodorol: paham y dylid gorfodi'r Huguenotiaid truain i ddod o dan y mesur hwn, onid ydych ymron â chyfiawnhau eu hymlid gan y Pabydd Lewis, pan yw Protestaniaid fel chwi yn gwrthod cydfyw'n garedig gyda hwy? Dylem ddangos cymdogaeth dda iddynt, nid yn unig am eu bod yn Brotestaniaid fel ninnau, ond am iddynt gyfoethogi'n gwlad â diwydiannau newyddion. Oni wyddoch eu bod yn ystod teyrnasiad y diweddar frenin William wedi allforio gwerth miliynau o bunnau o wlanen a sidan yn unig, gwaith dwylo y bobl ddieithr hyn[7]? A chyda llaw, meddent, gesyd y mesur hwn bwysau trymach ar gefnau swyddwyr Protestanaidd Ymneilltuol nag sydd ar gefnau'r Pabyddion. Pa gyfraith a'i cospa hwy i'r swm o £100? Ai gwell myned i'r *Mass* nag i gonfenticl? Os gadewir y cymunwyr achlysurol yn llonydd, haerai'r Toriaid, bydd corfforaeth llawer tre' yn fuan yn eu dwylo. Oni wyddoch, oedd ateb parod yr Arglwyddi, fod y

[7]Y mae ochr arall i'r ddadl dramoraidd, a cheir hi gyda ffyrnigrwydd a chryn arabedd gan Dr. John Walker (*Sufferings*, Preface, ix).

bil hwn yn llymach na'r *Corporation Act* ei hun, ac mai eich gwir amcan yw cadw allan o'r corfforaethau bob mân swyddwyr o Ddissenters er mwyn sicrhau'ch plaid chwi mewn swydd a Senedd dros byth?[8]

Gan fod drwgdymer wedi codi mor uchel—fel y prawf y geiriau sarrug a deflid ar draws y bwrdd, a'r cwestiynau pigog—ofer sôn am ddeall ei gilydd. Aeth y ddwyblaid yn ôl i'w Tai i adrodd yr helynt. Ond yr oedd y Toriaid wedi ymddiofrydu i gael y mesur yn ddeddf: bu ail a thrydydd ymgynghoriad â chynrychiolwyr yr Arglwyddi. Dim newid ar y sefyllfa. Digwyddodd tipyn o gythrwfl y trydydd tro—ar y 16 o Ionawr, 1702–1703—trwp o aelodau'r Cyffredin yn tyrru i'r *Star Chamber* (yno'r cyfarfyddai'r pwyllgor), gan omedd symud oddiyno am dro byd, hyd nes i'r Llefarydd anfon yn chwyrn amdanynt.[9] O'r diwedd daeth yr amser i Dŷ'r Arglwyddi godi dwylo pa un a oeddent o ddifrif gyda'r gwelliant a'r adrannau newyddion ai peidio. Yr oedd holl ddylanwad y Frenhines a'r llys o blaid y mesur; arferwyd pob câst i'w wthio drwodd yn erbyn yr esgobion a'r Whigs: daeth gŵr y Frenhines, y Tywysog George o Denmark, Lutheran o ran crêd a chymunwr achlysurol ei hun, i lawr i'r Ty yn ei unswydd i gondemnio'r fath

[8]Cymharer y *Reports*, t. 23, â Burnet: *Hist. Own Time*, v, 50.

[9]*Reports*, t. 20.

gymuno[10]; daeth cynifer â 130 o Arglwyddi at ei gilydd y dwthwn hwnnw, mwy (medd Burnet) nag a welwyd erioed cyn hynny ar unwaith. Dynned oedd y pleidleisio fel y glynwyd wrth y gwelliannau drwy un o fwyafrif bob tro ar dair pleidlais wahanol, "*and it was a different person that gave it* [y mwyafrif o un] *in all the three divisions.*" Yr oedd un gryfed a chant; yr oedd y mesur wedi marw. Cyfarfu'r pwyllgor unwaith yn rhagor, ar y cyntaf o fis bach, i gilwgu ar ei gilydd a darllen y gwasanaeth claddu.

Gan gymaint eu dygasedd at yr achlysurwyr, mynnodd y Toriaid ei atgyfodi cyn diwedd y flwyddyn. Yr amgylchiadau wedi newid dipyn er dechreu mis bach—sêl y Frenhines wedi oeri dros dro; pawb a'i feddwl ar y rhyfel; prif bryder y Senedd oedd gofalu bod digon o arian i dalu'r milwyr a chadw'r cynghreiriaid mewn cywair da. Mynnodd y Toriaid atgyfodi'r mesur, ar waethaf pawb a phopeth. Newidiwyd peth ar ei gynnwys: tynnwyd y brif ddirwy i lawr o £100 i £50, a chodwyd rhif personau'r confenticl o 5 i 12.[12] Erbyn hyn yr oedd Syr Robert Harley,

[10]Dywedir i'r Tywysog, pan ar ei ffordd i'w le yn y Ty, sibrwd yng nghlust Arglwydd Wharton y Whig—"*My heart is vid you*" (I. S. Leadam: *Pol. Hist. Eng.*, ix, 32).

[11]*Hist. Own Time*, v, 53.

[12]*ibid.*, *ib.*, 105–107. H.y., pe digwyddai i Anghydffurfiwr dderbyn swydd, cymuno yn yr eglwys, a myned ar ei gyfer wedyn i addoli yn ei dŷ ei hun yng nghwmni *un-ar-ddeg* o bobl eraill, neu fyned i dŷ cymydog a *deg* arall yno ar wahan i'r teulu—ni ddywedai y mesur newydd air wrtho.

yr A.S. dros fwrdeisdrefi Maesyfed, wedi tyfu'n ddyn pwysig iawn yn Nhy'r Cyffredin. Eglwyswr cymedrol oedd ei dad Syr Edward, mor gymedrol fel y taflai fantell caredigrwydd dros rai o'r Ddwy Fil[13] ac yr âi ar ei dro i glywed Baxter yn pregethu. Yswain Piwritanaidd reiol oedd ei daid, Syr Robert Harley o Brampton Bryan, gŵr a fu'n noddydd a gwestywr i Walter Cradoc, Morgan Llwyd, Vavasor Powell ac amryw eraill o bregethwyr mawr cenhedlaeth gyntaf y Diwygiad Piwritanaidd.[14] Yn academi Ymneilltuol Sheriff Hales yn sir Amwythig y cafodd Robert yr ŵyr ei addysg fore ; ac er iddo ddweyd a gwneyd pethau anhebig aruthr i Biwritan, ni lwyr anghofiodd y graig o'r hon y naddwyd ef. Oni ddywedai clebrwyr y clybiau ei fod yn selog gadw'r ddyletswydd deuluaidd bob bore, a phob nos hefyd, ond pan yr analluogid ef gan ormod diod gadarn ? Erys yn ffaith brofedig iddo, yn gudd ac yn gyhoedd, lareiddio cryn lawer ar grwsâd erlidgar y Toriaid yn nechreu y ddeunawfed ganrif. Creadur cyfrwys dros ben ydoedd : "*Robin the Trickster*." O'r holl bobl gyfrwys sydd wedi bod wrth y llyw yn y wlad hon, ni fu un ohonynt gyfrwysach na Syr Robert Harley. Yr oedd yn awdurdod ar y llaw gudd, ar risiau'r cefn, ar holl beirianwaith y wâdd boliticaidd.

[13]Gwêl *MS. J. Walker*, c. 4, f. 106.

[14]*Gweithiau Morgan Llwyd*, gol. J. H. Davies, ii, xxiii-xxiv.

Fel Tori (mewn enw, beth bynnag) rhaid oedd iddo ddangos ei hun yn gefnogydd brwd i'r mesur diwygiedig. Oddiwrtho ef y daeth y syniad o dacio'r mesur wrth gyllideb y flwyddyn er mwyn tynnu dannedd gwrthwynebiad yr Arglwyddi. Dyma'r ffordd effeithiolaf i'w ladd : yr oedd yr Arglwyddi mor nerfus ar bwnc y tacio, mor benderfynol o beidio colli dim o'u pwysau cynhenid yn y Cyfansoddiad, fel y byddent yn sicr o daflu'r gyllideb allan gyda'r mesur taciedig. A dyna drychineb anaele ! Daeth hyn â Marlborough i'r adwy, pen cadfridog y fyddin, a'r mwyaf ei ddylanwad ar y Frenhines. Llwyddodd y Toriaid i gario'r mesur deirgwaith drwy Dŷ'r Cyffredin. Yn yr Arglwyddi ymaith ag ef drwy fwyafrif o 12. A fotiodd Marlborough drosto ? Do, rhag ofn colli ei swydd. A fu iddo ef ac Arglwyddi eraill arwyddo protest yn erbyn taflu'r mesur allan ? Do, hynny hefyd. Ond yr oedd wedi gofalu'n gynnar hau'r newydd fod y Frenhines yn erbyn y tacio, ac na ddeuai'r Tywysog George yn agos i'r Ty i roddi ei bleidlais drosto : dyna rai o achosion anamlwg y llongddrylliad.[15] Mewn tactics nid oedd gan wladweinwyr oes Ann ddim i'w ddysgu oddiwrth arweinwyr politicaidd ein dyddiau ni. Marw a fu tynged y mesur hwn eto.

[15] I. S. Leadam : *Pol. Hist. Eng.*, ix, 36–37.

VIII

Pamffleta.

Pwy a ddaeth allan i'r Wasg i bwyo i dre' y rhesymau dros gollfarnu'r achlysurwyr ac achub pen y bil rhag ei dorri'r eiltro ond yr A.S. dros sir Aberteifi, y gŵr anturus prysur a weithiai wythienau glô Castellnedd a lefelau plwm Ceredigion Uchaf. Yn ôl ei eiriau ef, amcan y bil ydoedd diogelu yn fwy sicr fyth seiliau yr Eglwys Wladol, swcro heddwch crefyddol, a llonyddu'r gwewyr meddwl a flinai lawer o ddeiliaid y Frenhines. Fel y gwelsom yn barod, Tori rhonc oedd Syr Humphrey Mackworth, un o brif hyrwyddwyr yr ysgolion elusenol Eglwysig yng Nghymru. Peth arall, nid oedd dim cwrteisi rhyngddo a'i gymdogion o Briton Ferry, y Manseliaid Whigaidd oedd beunydd a byth yn ymeirio ag ef ynghylch rhyw dir glô a orweddai rhwng Nêdd ac Afan.[1] Digon naturiol, a chofio'r cwbl, oedd i Syr Humphrey fod a'i lach ar y Whigiaid ac ar y cymunwyr achlysurol a achlesid ganddynt.

Yr enw a ddyry Mackworth ar ei bamffled oedd *Peace at Home*. Freeman Collins o Lundain a'i hargraffodd, ac yn nhymor cyfreithiol Mihangel 1703 y cyhoeddwyd ef.[2] Ceir ynddo air cyflwyn i'r Frenhines, dwy dudalen o ragymadrodd, a

[1] D. Rhys Phillips: *Hist. of Vale of Neath*, 235–237.
[2] Edward Arber: *Term Catalogues*, iii, 372–373.

deuddeg o dext. Nid oes dim byd newydd yn ei ddadleuon ; bodlon yw ar italeiddio brawddegau mwyaf miniog y *Reports* a gyhoeddwyd yn nechreu'r flwyddyn, a gofyn bagad o gwestiynau yn sgil y rheini. Nid oes ganddo arlliw o athroniaeth hanes ; ni ddaeth i'w ben erioed feddwl am y camwri o dderbyn y llawn drethi gan Ymneilltuwyr, derbyn hefyd eu cymorth i wthio byddinoedd Ffrainc o wastadeddau toeslyd Fflandrys, a pheidio caniatau iddynt ran yng ngweinyddiad y cyfreithiau. Nid oedd meddwl toreithiog Locke gan Humphrey Mackworth. Nid oedd wedi gweled cymaint o'r byd â Gilbert Burnet.

Hoff ydyw o gloriannu brawddegau. Am yr achlysurwyr dywed yr ânt i'r Eglwys er mwyn hunanlês, ond i'r confenticl i gael gwersi ysbrydol . . . y cydymffurfiant â'r Sefydliad er mwyn cadw swydd, nid cydymffurfiad calon a sicrhai undeb gwlad yn yr un Eglwys . . . yr osgoant y cyfreithiau pan fydd eu budd eu hunain yn y golwg, ac anghofio ufuddhau iddynt o barch i ddelfryd diogelwch y wladwriaeth (tt. 2–3). Digon twt, a digon gwir, ac eithrio'r cyfeiriad at y Llywodraeth a'i diogelwch. Pwy yn ei synnwyr a gredai mai bwriad yr ychydig Bresbyteriaid a gymunent yn achlysurol oedd chwildroi'r corfforaethau a sefydlu Gweriniaeth ? Pwy, yn wir ! Weithiau, gwaith Mackworth yw chwarae'n wirion â geiriau ; e.e., os haerid y collai'r Anghydffurfwyr eu genedigaeth fraint drwy eu cadw

allan o'r swyddi gwladol, gofyn ef a *enid* dyn yn faer neu yn gynghorwr. Bryd arall gwna'r eithriad yn rheol, yn enwedig pan yn ymdrin â phenderfyniad y Cyffredinwyr i ddal ati i gospi Anghydffurfwyr am beidio derbyn swydd yn erbyn eu cydwybod. Dywed ef y byddai dileu'r gosb yn calonogi Eglwyswyr i alw eu hunain yn Ddissenters er mwyn dod yn rhydd o lanw swydd a olygai dipyn o wario arian, h.y., *it would establish Occasional Nonconformity.*

Eco yw'r geiriau hyn, wrth gwrs, o ddadl cwnslar y brenin yn erbyn Larwood yn 1695, dyfyniad clos o ateb y Toriaid i brotest rhyddfrydig yr Arglwyddi yn 1702, ac eglurhad safonol Tori arall ar un o'r diarhebion cyfrin a gyfleir yn *Reports* 1703. Gwir yw fod yna un neu ddau adroddiad cyfreithiol yn profi y gallai math ar Eglwyswr suddo i'r rhagrith anhebig *occasional nonconformity*; ond nid wyf yn cofio bod un ohonynt wedi digwydd pan oedd Mackworth yn ysgrifennu'r pamffled. Pa reswm cospi Ymneilltuwyr egwyddorol fel Larwood er mwyn bod yn sicr o ddal Eglwyswr bondigrybwyll fel Burdett yn gwadu ei Eglwysyddiaeth? Serch hynny, dyna ddadl yr aelod dros sir Aberteifi a Thoriaid penboeth y Ty Isaf.

Ni ddeil ei ddadleuon eraill am foment fechan yn wyneb treigl hanes a phrofiad y blynyddoedd yn y wlad hon. Mynnai ef fod Eglwys Sefydledig yn anhebgor i lwyddiant a diogelwch gwlad. Beth pe cawsai fyw i weled dadsefydlu'r Eglwys yng

Nghymru? Beth ddywedai am Bresbyteriaid a Bedyddwyr yn penodi esgobion yn Lloegr? Credai, a dywed hynny dro ar ôl tro, y dylai swyddwyr y Goron i gyd fod o'r un lliw crefyddol. Ymhell cyn ei farw fe gafodd weled Eglwyswyr mawr fel Nottingham a Godolphin yn cwffio â'i gilydd, a thorf o Eglwyswyr uniongred (yntau ei hun yn eu plith) yn ffyddlog ddilyn anffyddiwr fel Bolingbroke. Maentumiai fod Deddf Goddefiad yn gwbl ddiogel yn nwylo Eglwyswyr a Thoriaid, heb gofio (neu yn dewis peidio) am areithiau eirias Atterbury ac eraill yn Nhy Isaf y Confocasiwn, areithiau yn llawn gwawd a dygasedd tuag at ryddid crefyddol. Ac fel dyn yn credu mai Eglwys Loegr oedd "*the best established Church in the World*," nid oes ganddo amynedd i enwi enw William y Trydydd a dim ond bonclust wrth fyned heibio i Bresbyteriaid bachog Ysgotland. Anhawdd credu bod hwn yn ŵyr i ŵr a fu yn un o Ddirprwywyr Deddf y Taeniad yng Nghymru.

Gwaith hawdd oedd taro'n drwm ar fannau gwan Mackworth. Ychydig wythnosau wedi i'w bamffled ddod allan o wasg Freeman Collins, dyma gawod o bamffledau yn disgyn ar ei ben. Y cyntaf a'r pwysicaf ohonynt oedd un Defoe, pamffledwr mwyaf amryddawn ei oes, gŵr a ymhyfrydai brofi'r du yn wyn, a'r gwyn yn ddu. Dim ond gŵr felly a fedrai feirniadu Howe am amddiffyn yr achlysurwyr a chystwyo Mackworth am eu beirniadu, y ddau waith yn bur agos i'w gilydd

o ran amser. Ond er ei drawsgyweiriadau aml, rhaid cyfaddef na lwyddodd Defoe erioed i weled fawr rinwedd yng ngwaith yr achlysurwyr yn chwarae mig ag egwyddor, ac nad oedd fawr wahaniaeth rhwng ei farn ef â barn Mackworth. Ar yr ochr arall, hyfrytaf waith Defoe oedd dyrnu'n chwâl ddadleuon dynion oedd yn rhodio megis wrth ei benelin : medrai egluro'n oleu egwyddorion sylfaenol (darllener tudalennau agoriadol ei *Challenge of Peace*) ; llawer gwell ganddo oedd hollti blew a gweddnewid twmpathau bychain yn fynyddoedd uchel. *Peace at Home* oedd delfryd Mackworth. *Peace without Union* oedd ar faner Defoe. A doniol yw gweled yr olaf yn taflu ei wrthwynebydd yn chwimwth i'r llawr, ei droi a'i drosi, ei drochi mewn ffrwd o eiriau arabeddus.

Mwy diddorol i ni yng Nghymru yw i James Owen ymdaflu i'r ysgarmes, nid yn gymaint i ateb Mackworth ag i amddiffyn yn gyffredinol olwg ac arfer y cymunwyr achlysurol. Dyna falch a fyddem pe buasai'r hen wron hwn, yn awr o fewn ychydig i ddydd ei dranc, wedi sefyll yn galonnog ar dir egwyddor, dehongli'n groew y dyhewyd am gydraddoldeb crefyddol, cynghori ei gyd-Bresbyteriaid i esgymuno'r Achan achlysurol o'r gwersyll ac ymddiofrydu i aros y tu allan i byrth y corfforaethau hyd nes y buasai boneddigeiddrwydd gwlad a chyflawnder yr amser yn eu hagor iddynt led y pen. Na, *Moderation a Virtue* oedd efengyl James Owen yn 1703, *Moderation*

Still a Virtue yn 1704[3]—dau deitl glasdwraidd a gysgodai ymdriniaeth fwy glasdwraidd fyth. Ni allai'r athro o'r Amwythig, pa beth bynnag y traethai arno, lai na dangos gwybodaeth ddofn ac ymresymu cywrain—gwna hynny yn y *Moderation* o dan saith o wahanol bennau.[4] Ni allai na dysg nac ymresymu wrthbrofi'r ffaith syml y medrai Ymneilltuwyr neilltuol, o dan amgylchiadau neilltuol, gydymffurfio ag Eglwys Loegr. Onibai am brawf diymwad y ddau bamffledyn, pwy heddiw a feiddiai ddywedyd mai gwaith James Owen yn 1703–4 oedd dangos i'r Eglwyswyr y fantais fawr o gael yr achlysurwyr i gyd-gymuno â hwy, dangos hefyd nad oedd dim ond pethau bychain iawn yn gwahanu'r Eglwyswyr oddiwrth y *Moderate Dissenters?* Anfantais i Ymneilltuaeth, cyfaddefai'n eglur, oedd y ffug-eglwysydda yma. Ac eto dyry iddo fendith cymedroldeb, a deil i'w amddiffyn—o dan saith o bennau!

Dyma'n sicr y gwaith salaf a wnaeth yn ei oes, hollol anheilwng o ŵr a oedd wedi dal heb syflyd ynghanol ystormydd ffyrnica'r erlidigaeth. Nid oes fawr londid calon i Gymro heddiw i ddarllen pamffledyn y marsiandiwr materol o Gastellnedd na phamffledyn *moderate* yr athro ysbrydol o'r Amwythig—un yn ffuantus o gul a'r llall yn beryglus

[3]*Cong. Hist. Soc. Trans.*, v, 17.

[4]Gorau i gyd yw darllen y gwaith drwyddo. Gellir darllen y saith ben yn Edward Arber: *Term Catalogues*, iii, 467.

o lydan. Yr oedd James Owen yn gofyn swllt am bob copi o'i waith ar gymedroldeb, a swllt a chwech am y *Moderation Still.* A ddywetsom i'r *Moderation* gyrraedd pedwerydd argraffiad (yn y man lleiaf) a'r *Moderation Still* drydydd argraffiad? Felly y bu.[5]

[5] Y *Term Catalogues* yw ein hawdurdod dros ddweyd. Gweler iii, 373, 390, 398, 467, 496, a'r *Advertisement* ar waelod 530.

IX

Gwerthu'r Achlysurwyr.

Er mai cawl ail-dwym oedd ymresymiadau Mackworth, er mai cul aruthr oedd ei syniadau am wir safon dinasyddiaeth, nid oes fodd amau ei onestrwydd, ac nid oes ddadl ychwaith nad oedd yn dywedyd yr union wir beth oedd meddwl Tori cyffredin y dyddiau. Am James Owen, druan, pentyrrid gwawd ar ben yr efengyl gymedrol a bregethai ef gan bamffledwyr Eglwysig a godent wal ddiadlam hyd yn oed rhwng yr Eglwyswr mwyaf *moderate* â'r Presbyteriad mwyaf dieneiniad. Prawf y ddwy ffaith hon—y gwawdio a fu ar James Owen a'r curo dwylo a fu ar Mackworth—na fuasai penboethiaid y Ty Isaf yn colli'r cyfle o gael trydydd cynnig ar wneud brâd yr achlysurwyr. Fe gofiwch i'r cynnig cyntaf fethu yn nechreu 1703, i'r ail fyned i'r coed yn Rhagfyr yr un flwyddyn. Daeth tro'r trydydd yn Rhagfyr 1704.

Lle gwael i benboethni yw Ty'r Cyffredin os na chyd-dymherir ef â chyfrwystra. Er mwyn cael barn i fuddugoliaeth yno, rhaid i'r ddelfryd uchel yn aml gyfaddasu ei hun i rigolau troiog cyfaddawd. Yn niwedd 1704 ni fynnai neb sôn am ddim ond y brwydro ar dir a môr; pennau'r fyddin yn disgwyl am gyllideb garedig i sicrhau atgyfnerthion iddynt; Marlborough yn llywio'r byddinoedd ar y Cyfandir a'i wraig yn arwain

meddwl y Frenhines ar hyd y ffordd y dymunai hi. Harley, y pen *trickster*, yn dal yn un o brif swyddwyr y Llywodraeth. Yr oedd pawb o'r bobl fawr yma, beth bynnag oedd eu hargyhoeddiadau cyfrin, wedi hen alaru ar y Gâd Gamlan ddioediad rhwng yr Eglwyswyr gorberffaith â'r Eglwyswyr achlysurol. Canys ni wnai ail-atgyfodi'r bwgan hwn yn y cyfwng presennol ddim llai na rhannu'r bobl yn ddwy garfan a cholli pleidleisiau'r esgobion isel-Eglwysig yn Nhy'r Arglwyddi.

Yn erbyn dymuniadau taer Harley mynnodd y Toriaid ddal ati i dacio poenau'r achlysurwyr wrth gyllideb y flwyddyn. Ond y tro hwn condemniwyd y tacio hyd yn oed gan Doriaid Ty'r Cyffredin—251 pleidlais yn erbyn 134. Heb y tac, darllenwyd y mesur ei hun deirgwaith. Taflodd yr Arglwyddi ef allan yn gwbl ddiseremoni ar y 15 o Ragfyr (71 yn ei erbyn, 50 drosto). A dyma ddarn o lythyr a anfonodd Marlborough at Harley drannoeth : "*I hope everybody will do you the justice to attribute the greatest share of it* [lladd y mesur] *to your prudent management and zeal for the public.*"[1] Beth pe bai'r Eglwyswyr ucheldrem wedi gweled y llythyr hwn? A hwythau eisoes yn gwybod bod gwraig a phlant Harley yn arfer mynychu moddion gras y Presbyteriaid !

[1]Leadam : *Pol. Hist. Eng.*, ix, 65–66.

Ar ôl trydydd atgyfodiad yn 1711, daeth y mesur yn ddeddf. Dringo i mewn yn un llu a wnaeth y Toriaid yn etholiad cynhyrfus 1710.[2] Ond pa sut y llwyddasant i wthio'r mesur drwy Dy'r Arglwyddi, hwnnw o hyd yn llawn o esgobion rhyddfrydig ac o Whigiaid caredig wrth Ymneill-tuwyr? Rhaid cyfaddef ei bod yn llawer haws deall tric y ddirwy yn 1703 ac ystryw'r tac yn 1704 nag egluro'r modd tanddaearol y llithiwyd yr Arglwyddi i basio'r mesur yn 1711. Dyryswch ein gwladlywiaeth dramor a fu'r prif achos. Yr oedd y Toriaid am gael heddwch a Ffrainc, doed a ddelo, y Whigiaid am ddal ati i ymladd hyd nes y dinystrid yn llwyr unbenaeth Lewis a'i gâr o'r Ysbaen. Ni allai'r Whigs daflu dwfr oer ar delerau'r heddwch[3] yn rhyw effeithiol iawn heb gymorth trwp o Doriaid; ni cheid y cymorth hwn heb i'r Whigs addaw gadael yr achlysurwyr i ddioddef condemniad a chosb. Bargen go ddiegwyddor oedd hon rhwng uchel-Eglwyswyr yn troi i waeddi rhyfel ar ôl hir alw am heddwch, â Whigiaid yn fodlon anghofio eu hen ffrindiau ar ôl siarad a phleidleisio gymaint drostynt.

---

[2]Diolch am hynny, neu fe fuasai'r Whigs wedi gwneyd pen ar y Tori Syr Humphrey Mackworth (Phillips: *Hist. Vale of Neath*, 735–736; Eliz. Phillips: *Pioneers of the Welsh Coalfield*, t. 13).

[3]Y telerau a sicrhawyd ym Mharis gan Matthew Prior yn haf 1711 ("*Mat's Peace*").

Arweinydd y trwp yma o Eglwyswyr oedd yr Iarll Nottingham, gŵr hirben urddasol, pruddglwyfus yr olwg arno—"*Old Dismal*," fel ei llysenwid. I'w ran ef y syrthiodd y gwaith o saernio'r bil newydd. "*He promised to draw it with all possible temper*," medd Burnet.[4] Gwelir dylanwad y Whigs yn amlwg iawn ynddo. Corfforodd yn adran v y gwelliant Whigaidd a dderbyniodd y Toriaid ddechreu 1703[5]; tynnodd y brif ddirwy i lawr i £40; nid oedd sôn am y ddirwy o £5 am bob dydd y daliai Ymneilltuwr swydd ar ôl cymuno'n achlysurol yn yr Eglwys; dim gair am ddyblu'r dirwyon am ail drosedd; ar y rhif 10 o bersonau ar wahân i'r teulu y safodd cwmpawd y term confenticl (5 oedd y nifer, fe gofiwch, ym mil 1702, 12 ym mesur 1703). Ond gwrthodwyd yn lân ag ymyryd dim â'r dyfarniad yn *Rex v. Larwood*.

Fe welwch ar unwaith fod y dyfarniad anffodus hwn yn taro nodyn drwg yn hanes crefyddol y ddeunawfed ganrif. Ffrwyth y fargen ddiegwyddor a wnaethpwyd yn 1711, a phrawf o anallu'r Whigiaid i ddylanwadu'n ddigonol ar glic Nottingham, oedd gadael blotyn du i ddifwyno gwyddor deddf, peidio unioni'r gwyrdro gwrthun yn natblygiad graddol yr egwyddor o gydraddoldeb. Daliwyd ati am rai cenedlaethau i gosbi'n

[4]*Hist. Own Time*, vi, 77.

[5]Gwêl uchod, t. 58.

anhrugarog yr Ymneilltuwyr a wrthodai dderbyn swydd, ie, *ac ethol Dissenters cefnog i swyddi er mwyn eu dirwyo.* A ddywed rhywun ein bod yn siarad yn y gwynt? Amau neu beidio, dyna'r ffaith noeth. Llwyddodd Toriaid y brifddinas i gasglu dros £15,000 o'r *fines* yma tua chanol y ganrif, a chyda'r arian anghyfiawn hynny y codwyd y *Mansion House.* O'r diwedd, penderfynodd tri Dissenter dewrgalon, gyda'r *Dissenting Deputies* yn gefn iddynt, fyned a'u cwyn i ben llysoedd y wlad. Ar y pedwerydd o Chwefror, 1767, fe gyhoeddodd Arglwydd Mansfield y ddedfryd bwysfawr honno (*Harrison, Knt. v. Evans*) a roddodd ben am byth ar yr ystryw iselwael o wneud Ymneilltuwyr cyfoethog y trefi yn gyff clêr a gwawd i benboethiaid Eglwysig.[6] Syr Samuel Eyre oedd yn gywir yn 1695, ac nid Syr Giles. Lle y methodd Larwood y llwyddodd Allen Evans.

Dyma beth yw crwydro oddiwrth y testun. Bydded inni frysio'n ôl o ganol y ganrif i'r flwyddyn 1711, ac ail-ymaflyd ym mesur y cyfaddawd. Fe synnwch braidd mai nid *Occasional Conformity Act* yw ei deitl, ond *An Act for preserving the Protestant Religion, by better securing the Church*

[6] *Hist. and Proceedings of the Diss. Deputies* (1814), tt. 33–50; sylwer yn ogystal ar y *Sheriff's Cause* (*City of London v. Grosvenor*), tt. 32–33. Nid "am byth" yn hollol, fel y prawf *dicta'r* Arglwydd Ellenborough yn *Rex v. Walker* (K.B., Easter, 57 Geo. III—6 Maule & Selwyn, 277–279). Marw'n araf iawn a wnai'r hen gyfreithiau cledion.

of England as by Law established; *and for confirming the Toleration granted to Protestant Dissenters.*[7] Nottingham, chwi gofiwch, oedd lluniwr Deddf Goddefiad 1689; ac y mae ymron gymaint o siarad yn neddf 1711 am Ddeddf Goddefiad ag am yr achlysurwyr eu hunain. Sonia'r *preamble* am dawelu meddyliau'r Dissenters; gwerir y cwbl o adran vii i ddywedyd pa mor sicr y bwriedid dal at y Goddefiad; sieryd adrannau viii a ix am ddau ddiwygiad yn y ddeddf honno, un er mantais i'r Ymneilltuwr lleyg a'r llall er hwylustod i'r pregethwr ordeiniedig. Y pregethwr yng nghyntaf: rhoddai adran ix berffaith hawl iddo i bregethu, nid yn unig yn y sir lle y cofrestrwyd ef, ond ymhob sir arall mewn tai cyrddau cofrestredig (os gofynnid iddo, byddai'n rhaid iddo dyngu'r llwon yn union fel y gwnaeth yn sir ei gartref). Effaith uniongyrchol yr adran hon oedd dymchwelyd dyfarniad y barnwyr yn *Regina v. Peach*—"*a licence inrolled . . . in one county will not extend into another county.*" Adran go ryfedd yw adran viii. Os delid pregethwr yn torri ar draws Deddf Goddefiad drwy bregethu heb *certificate* ei hun, neu mewn mannau heb eu cofrestru, byddai ar unwaith yn agored i ddirwyon Deddf 1670; os cyhuddid gŵr lleyg, "*not in holy orders or pretended holy orders or pretending to holy orders*," o dan y ddeddf honno neu eraill o'r

[7] *Statutes at Large* (arg. 1734), iv, 416–418.

hen ddeddfau erlidgar, dim ond iddo dyngu'r llwon angenrheidiol yn ôl Deddf Goddefiad, wele ef yn ŵr rhydd ar unwaith. Wn i ddim yn iawn beth oedd wrth wraidd yr adran hon os nad drwgdybiaeth y Toriaid eglwysyddol o'r pregethwyr ffanaticaidd a wrthodent ddod o hyd braich at na Sessiwn na llys esgob, rhag ofn iddynt dyfu eto yn allu yn y wlad, creu Gweriniaeth newydd, a chodi Cromwell arall. Effaith y clôs gwrth-bregethwrol yma oedd ei gwneyd hi'r agosaf peth i amhosibl i ymyryd â lleygwr o gwbl, bydded ef resymol, bydded ef eithafol. Nid cynt y gwaeddid pechod arno nad oedd iechydwriaeth wrth y drws. Paradwys y pregethwyr cynorthwyol oedd adran viii.

Wiw i ni wadu, llwyddodd y Toriaid y pedwerydd tro. A phwy ond *Robin the Trickster* a fu wrth gefn y tac yn 1703 er mwyn torri dan sail y mesur hwnnw—pwy ond ef oedd yn awr yn ben blaenor ar gâd yr Eglwyswyr? A ddigwyddodd i chwi erioed ddarllen *The History of John Bull* a gyhoeddwyd gan Dr. Arbuthnot yn 1712? Dyma'r modd doniol y cyfeiria ef at hanes deddf 1711: "*Jack Presbyter was persuaded by his friends* [y Whigiaid] *to hang himself, in expectation that Sir Roger* [Harley] *would interpose and cut him down. Sir Roger passes by without taking notice, letting Jack hang on notwithstanding his winks and contortions of countenance.*"[8]

[8]Burnet: *Hist. Own Time*, vi, 79, nodyn V.

Jack Presbyter, sylwer, nid Jack Independent, na Jack Baptist. Ni ellir pwysleisio'n rhy bwysig y ffaith mai Presbyteriaid y trefi oedd i ddioddef fwyaf oddiwrth ddeddf ferhoedlog 1711. Dim ond dyn go dda arno—fel Syr Humphrey Edwin neu Syr Thomas Abney—a allai byth lwyddo i'w ddewis yn Arglwydd Faer; o'r holl sectau anghydffurfiol, dim ond y Presbyteriaid a feiddiai gyfaddef mai ffin fain iawn oedd rhwng llawer ohonynt â meysydd y Sefydliad. Nid yw hyn gyfystyr â dweyd na cheid ambell Annibynnwr a Bedyddiwr yn cymuno'n achlysurol yn yr Eglwys. Yn ei araith fawr yn erbyn y mesur (Rhagfyr 1703) tystiai Burnet fod cymunwyr o'r fath yn nifer mawr yn ei esgobaeth ef[9]; ond nid yw'n dywedyd pa un ai cymuno er mwyn cadw swydd yr oeddynt, ai cymuno'n achlysurol o ran defod ac arfer. Sut bynnag, gallwn fod yn bur sicr nad Presbyteriaid bydol oedd pawb o'r cyfryw.

Yn ôl tystiolaeth y Dr. W. T. Whitley, ein prif awdurdod ar hanes Bedyddwyr Lloegr, "*only a single Baptist is known ever to have qualified in the parish church, and for his lack of principle his church at once dealt with him.*"[10] Tybed bod pethau lawn mor dda â hynyna?

[9]Leadam: *Pol. Hist. Eng.*, ix, t. 30 (a nodyn 2).
[10]*Hist. British Bapt.*, t. 196.

X

Deddf Sism (1714).

Yn ôl adran xi o Ddeddf Unffurfiaeth 1662 nid oedd gan unrhyw berson y gobaith lleiaf i gadw ysgol o fath yn y byd heb gael trwydded i hynny oddi dan law esgob yr esgobaeth ; os ceffid rhywun yn euog o gadw ysgol heb y caniatad hwn, tri mis o garchar fyddai ei ran, a dim gobaith cael myned allan o dan feichiafon.[1] Os meiddiai un o'r Ddwy Fil gadw ysgol yn ei hen blwyf neu blwyf arall, £40 oedd y ddirwy a ddigwyddai iddo.[2] Waeth beth, dygnu wrthi i gadw ysgolion a wnai'r Dissenters yng Nghymru fel ag yn Lloegr : mewn llythyr a ysgrifennodd at yr Archesgob ddechreu 1673 cwynai esgob Tyddewi ynghylch dau ŵr oedd wedi orfod esgymuno am y fath haerllugrwydd, Stephen Hughes o Abertawe a John Weaver o Fetws Diserth ym Maesyfed.[3] Dyry wybod am amryw o fannau lle'r oedd ysgolion tebig. Am y Cwacer James Picton, a fu mor feiddgar a dysgu plant o ffenestr carchar Caerfyrddin, ni ŵyr yn iawn pa beth i'w wneyd ohono ef.[4] A dal ati a wnaed ganddynt hwy a chan ugeiniau eraill hyd nes y daeth rhyddid cymharol

[1] *Documents*, gol. Geo. Gould (1862), t. 393.
[2] *ibid.*, t. 490 (adran iv, Deddf y Pum Milltir).
[3] *Tanner MS.* 146, ff. 138–138^{v}.
[4] *Tanner MS.* 314, f. 40 (3 Ebrill, 1673).

1687–1688. Ni ddywedai Deddf Goddefiad air am ganiatau pregethwyr na neb arall i gadw ysgolion heb drwydded esgob. A phan sonia Leadam fod rhyddid o dan adran ix, Deddf yr Achlysurwyr (1711), i ysgolfeistri a phregethwyr i symud o sir i sir,[5] y mae'n euog o gamgymeriad dybryd : " teacher *or* preacher " a ddywed yr adran honno, ac nid " teacher *and* preacher." Dau air cyfystyr am yr un pobl yw *teacher* a *preacher* yn neddfau'r cyfnod. *Teacher* y gelwid pregethwr anghydffurfiol yn hanes confenticlau 1669 yn llawysgrifau Lambeth, ac yng nghofnodion goddefiad bach 1672–1675 yn y *Record Office.* Na, ni roddodd Nottingham eglwysig ddim bendith ar ysgolfeistr di-drwydded yn neddf 1711.[6] Nid oes dim sicrach na hynny. Ac nid oes dim rhyfeddach na bod hanesydd mor garcus â Leadam yn dywedyd y fath beth.

Lle'r oedd y deddfau'n wan, y rhagor amlhaodd gras y barnwyr. Gynted â 1670 fe ddyfarnwyd yn *Bates' Case* na ellid troi ysgolfeistr o'i le, serch nad oedd ganddo drwydded esgob, os oedd yr ysgolfeistr hwnnw wedi ei benodi gan *founder* yr ysgol, neu gan y gŵr lleyg a'i noddai.[7] Dyfarniad digon diniwed yr olwg arno, ond chwildroadol ymron yn ei ganlyniadau. Yr oedd academi gan

[5]*Pol. Hist. Eng.*, ix, 217.

[6]Iawn o beth a fyddai darllen adran ix ohoni yn fanwl drwodd yn Grant Robertson : *Select Statutes*, 109–110.

[7]Mich., 21 Chas. II (1 Ventris, 41).

Samuel Jones ym Mrynllywarch : onid ef ei hun oedd y *founder*, a phwy a feiddiai gydio ynddo ? Effaith y dyfarniad yn ffafr William Bates oedd i'r Ymneilltuwyr dysgedig ymroi ati i agor ysgolion : yn ôl Irene Parker, fe agorwyd gryn fil ohonynt rhwng 1660 a 1730.[8] Yn naturiol ddigon, yr oedd swyddwyr yr esgobion—lawn mwy, yn wir, na llawer o'r esgobion eu hunain—am ladd yr ysgolion yma ; deuwn ar draws cnwd o achosion yn y *Law Reports* yn ystod teyrnasiad William. Er eu bod yn ochelgar tuhwnt ac yn boenus o gymedrol, o blaid yr ysgolfeistri Ymneilltuol yr oedd y dyfarniadau ar y cyfan. Yn achos *Cox* penderfynwyd nad oedd hawl gan yr esgob i ymyraeth â dim ysgolion ond yr hen ysgolion gramadeg ; felly yn *Rex v. Douse*[9] ; felly yn *Oldfield's Case*.[10]

Ond yn y flwyddyn wyllt 1702 ymddengys i'r llanw Toriaidd ddylanwadu hyd yn oed ar syberwyd y barnwyr : dywedant yn *Matthews v. Burdett* nad oedd gan Ddeddf Goddefiad ddim o gwbl i'w wneyd ag ysgolfeistr—"*that* [law] *did not exempt men in places of trust from qualifying themselves according to the rites of the Church of England.*" Mewn geiriau eraill, nid oedd siarad fel hyn namyn cyfaddasu egwyddor *Rex v. Larwood* at sefydliadau

[8]*Dissenting Academies*, tt. 49–50.

[9]Easter, 13 William III (Lord Raymond, 672). Ysgol i ddarllen ac ysgrifennu yn unig oedd dan sylw yn yr achos hwn.

[10]Toulmin : *An Hist. View*, 117–119.

addysg. Gwnaethant yn bur eglur hefyd, serch i ddadleuydd Matthews ymdrechu'n galed geisio profi nad oedd dysgu plant yn alwedigaeth eglwysig, fod gan lysoedd yr esgobion berffaith hawl i ddelio ag athrawon oedd yn dysgu mewn ysgolion heb ganiatad esgob, ac nad oedd wiw crio am drugaredd o flaen y *King's Bench.*[11] Waethaf y modd, nid yw'r *Report* yn rhyw glir iawn pa un ai ysgol gyffredin, ai ysgol ramadeg, ai academi Ymneilltuol, oedd gan Matthews. Ymneilltuwr ydoedd, neu ni ddesgrifid ef yn athrawiaethu heb fendith esgob; ac ni fuasai Eglwyswr yn apelio at Ddeddf Goddefiad. Câst effeithiol arall i beri diflastod ar addysgwyr o Ddissenters oedd atgyfodi'r hen *Stamford Oath.* Llw ffurfiol oedd hwn a ofynnid oddiwrth raddedigion Rhydychen a Chaergrawnt i beidio dysgu na darlithio i neb nac yn unman "*as in a University.*" Atgyfodid ef yn awr er mwyn llestair egnion y genhedlaeth Biwritanaidd oedd wedi bod yn un o'r ddwy Brifysgol rhag dysgu nac athroniaeth na'r clasuron y tu allan iddynt, hynny yw, mewn academi Ymneilltuol. Gwariodd Calamy gryn ugain tudalen yng nghyfrol gyntaf y *Continuation* i ddangos gwrthuni y fath ddadl.[12] Gwariodd Toulmin saith yn yr *Historical*

[11]Hilary, 1 Anne, K.B. (2 Salkeld, 672–674; 3 Salkeld, 318–319). Yr oedd y llysoedd eglwysig i fod ar eu gwyliadwriaeth pa fodd i ymyryd—"*they must proceed strictly according to the Canon.*"

[12]tt. 177–197.

View.[13] Nid yw yn werth gwario un arni. Dadl blentynaidd dynion maleisus.

Ni thalodd Samuel Jones (hen Gymrawd o Goleg yr Iesu) na Philip Henry (gŵr grâdd o goleg aristocrataidd Christ Church) fawr os dim sylw i'r llw ffuantus hwn. Daliodd Jones ati ym Mrynllywarch hyd ei farw yn 1697 a Henry yntau yn Broad Oak hyd ei farw yntau yn 1696. Dilynwyd Henry gan ei ddisgybl Samuel Bennion; a chymerwyd lle Samuel Jones am beth amser[14] gan Rice Price, tad y Dr. Richard Price ac ewythr y Ferch o Gefn Ydfa. Athrawiaethai Roger Griffith yn y Fenni hyd nes iddo droi i'r Eglwys tua 1702; yn union wedyn dechreuodd William Evans o Bencader ar bymtheg mlynedd o waith llwyddiannus yng Nghaerfyrddin. Tyfodd James Owen lawn mwy enwog na'r un ohonynt: bu yn cadw academi yng Nghroesoswallt hyd 1699, ac o'r flwyddyn honno hyd ei farw yn 1706, yn yr Amwythig. Cyfunai ef y dysgawdwr medrus gyda'r "*concionator assiduus*" a'r "*propugnator strenuus*" y cedwir cof amdanynt yn Eglwys St. Chad. Disgyblion iddo ef oedd ei frawd Charles, Thomas Perrott o Gaerfyrddin, a Samuel Jones o Tewkesbury—ill tri yn athrawon Ymneilltuol enwog yn eu dydd. Cyn darfod â James Owen gresyn yw gorfod galw i go' ei amddiffyniad tila i'r cymunwyr achlysurol yn 1704—*Moderation*

[13]tt. 217–224.
[14]1697–1704 ?

Still a Virtue—ond iechyd i'r galon yw darllen tua diwedd yr un pamffledyn ei safiad cadarn, teilwng o *propugnator*, dros yr ysgolion Ymneilltuol yr oedd ef ei hun y fath addurn iddynt.

Noddid a chyfnerthid yr ysgolion Cymreig i gyd, gyda degau o *academies* yn Lloegr, gan y cronfeydd Annibynnol a Phresbyteraidd. Gwariodd y gronfa Annibynnol rai ugeiniau o bunnau ar addysg pregethwyr ieuainc o 1695 i ddechreu 1697 (blwyddyn "ariannol" gyntaf ei bodolaeth)[15]; gwariwyd mwy na hynny o'r gronfa arall, am ei bod yn hynach a chryfach; a chwarae teg iddi, cynorthwyai Bresbyteriaid ac Annibynwyr ymron yn ddiwahaniaeth. Gresyn, ie, gresyn ganwaith, na fuasai'r Bedyddwyr wedi medru dilyn camrau y ddau enwad arall, canys nid oes dim mwy digalon yn llyfr diweddar y Dr. Whitley na'r adran ar *Education* yn y bumed bennod.[16] Paham yr oedd raid i'r Bedyddiwr Dafydd Rees o Hengoed fynd at yr Annibynnwr Rice Price am ei addysg tua 1700[17]? Am nad oedd un academi Fedyddiol yng Nghymru yn y flwyddyn honno, nac am lawer blwyddyn ar ôl hynny. Paham y gwelodd Caleb Evans o'r Pentre'n dda anfon ei fab Hugh i ysgol Dafydd Price yn y Llwynllwyd ger

[15] *Cong. Hist. Soc. Trans.*, v, 134, 148.

[16] *Hist. British Baptists* (1923), tt. 182–184.

[17] Cymharer *Cong. Hist. Soc. Trans.*, vi, 136, â Spinther: *Hanes*. iii, 33, nodyn *. Nid o dan Samuel Jones y bu Dafydd Rees.

Talgarth[18] ? Am na chedwid ysgol i fechgyn ieuainc debig iddi gan un Bedyddiwr yng Nghymru, gan ŵr "*eminent in his day as a sound classical scholar.*"

Dolur llygad i'r Anglicaniaid oedd yr ysgolion yma i bregethwyr y Dissenters, boent hwy Annibynnol, boent hwy Bresbyteraidd : ynddynt y gwreiddid y bechgyn ieuainc yn egwyddorion anghydffurfiaeth, ac y sicrheid cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o Ymneilltuwyr deallus. Gan nad oedd obaith, a chredu barn y Toriaid eu hunain, i ddwyn ymaith ryddid y Goddefiad oddiar sectariaid yr oes honno, nid oedd dim amdani ond sarnu colofnau'r achos anghydffurfiol, a diogelu i'r Eglwys yr oesoedd oedd ar ddyfod. Dechreuwyd meddwl o ddifrif am y pwnc yn nechreu teyrnasiad Ann, yn enwedig wedi'r ymdrechion anlwcus i roddi pen ar y cymunwyr achlysurol yn 1702–1704. Yn gynnar yn 1704, wele Dŷ Isaf Confocasiwn—y Ty, chwi gofiwch, lle y ceid cynrychiolwyr y clerigwyr mwyaf anwybodus o eithafol—yn gofyn am gymorth y Ty Uchaf i ddifodi ysgolfeistri'r Dissenters o'r tir[19] ; yn niwedd 1705, mewn dadl fawr yn Nhy'r Arglwyddi pa un a oedd Eglwys Loegr mewn perigl ai nad oedd, dywedodd Archesgob York yn groew glir ei fod yn llawn pryder oherwydd llwydd yr Ymneilltuwyr a chynnydd

[18]Dr. Rippon : *Address before the Bristol Education Society* (1795).

[19]Canon Beeching : *Atterbury*, tt. 107–108.

yr ysgolion a gadwent i'w pregethwyr ieuainc.[20] Yr oedd mwy o sail i ofn yr Archesgob yn 1705, y mae'n dra sicr, nag i grêd rhai Arglwyddi yn 1703 mai colli tir yr oedd Ymneilltuaeth, a bod y Goddefiad wedi profi'n fagl iddi.[21] Beth bynnag, dyna farn Samuel Wesley, tad yr anfarwol John, mab i bregethwr Piwritanaidd, ac ŵyr i un arall. Mewn academi Ymneilltuol y derbyniasai ei addysg fore, a thalodd ei ddyled drwy droi'n Eglwyswr ac ymosod yn chwyrn ar yr addysg a gyfrennid gan athrawon anghydffurfiol. Ymddangosodd ei bamffledyn cyntaf yn 1703, yr ail yn 1704, y trydydd yn 1707.[22] Daeth Samuel Palmer i'r maes i'w ateb, a gwnaeth ei waith gyda nerth ac arddeliad dirfawr. Ond—ryfedded y digwydd !—drosodd at yr Eglwys yr aeth yr amddiffynnydd hwnnw yntau. Wedi'r fath glwyfo ar Ymneilltuaeth yn nhŷ ei charedigion, beth pe buasai'r Toriaid eu hunain yn dod i ddal yr awenau ?

Am bum mlynedd ar ôl 1705 allan yn yr oerfel y buont ; a phan ddaeth llawn awdurdod i'w rhan, rhaid oedd yn gyntaf (fel y gwelsom ym mhennod IX) adeiladu ysgaffaldiau i grogi'r achlysurwyr arnynt. Hyd yn oed ar ôl hynny, gwariwyd amser enbyd i ddadlau telerau'r heddwch â Ffrainc,

[20] Burnet: *Hist. Own Time*, v, 235–236.

[21] *Reports*, t. 26; Burnet: *Hist.*, t. 50.

[22] *Dict. Nat. Biog.*, lx, 315 (ffaglu dadl â Palmer yr oedd Wesley yn 1704 a 1707).

ac i ateb ensyniadau'r Whigs ar ôl ei gael. Mor ymarhous oedd y Toriaid doethaf i weled holl adnoddau'r ysbryd Piwritanaidd yn crynhoi yn eu herbyn, i alw i frwydr oludoedd cêl y gydwybod Ymneilltuol, fel mai drwy dric gwleidyddol y deuwyd at yr ysgolion o gwbl. Cynhaeaf cenfigen un dyn mawr at ddyn mawr arall. Un oedd Bolingbroke, y llall Harley (Iarll Oxford a Mortimer er 1710). Toriaid y galwai'r ddau eu hunain; ond ni bu dau ddyn erioed belled oddiwrth ei gilydd o ran tymheredd, dawn areithyddol, a pholisi gwladol. Uchelgais Bolingbroke oedd cael i'w fynwes ei hun holl gyfrinachau'r Frenhines eglwysyddol a gosod Harley mewn penbleth—yr Harley hwnnw nad anghofiodd yn llwyr hen draddodiadau Piwritanaidd ei dadau. Er mwyn lladd dau aderyn a'r un garreg y lluniodd Bolingbroke fesur y Sism: "*the schism bill was a mine dug to blow up the White Staff*" (y ffon wen oedd arwyddlun seremonïol Harley fel Arglwydd Drysorydd y wlad).

Llwyddodd yn dda odiaeth yn ei amcan: daeth yn ŵr ffafr y Frenhines, plesiodd yr Eglwyswyr penboeth, rhoddodd Robin mewn rhwyd. Pan ddaeth y mesur i fyny i Dŷ'r Arglwyddi, ni ynganodd Harley air o'i ben drosto, eisteddai'n fud ynghanol yr holl siarad, "*but swelling with a discontent that visibly spake his affections to the bill*," yn ôl un o bamffledwyr crafog plaid

Bolingbroke.[23] Wrth fynd heibio, cystal cyfaddef bod tipyn o atal-dywedyd arno ar y goreu. Yn wyneb tystiolaeth ddigamsyniol pobl oedd yn byw yn 1714, methodd Irene Parker ymhell wrth haeru'n ddiofal fod Harley yn ffyrnig *dros* y mesur ac mai ei ddylanwad ef ar *Dy'r Cyffredin* a sicrhaodd fwyafrif mawr iddo yno.[24] Nid oedd Harley dros y mesur o gwbl ; nid oedd yn aelod o Dy'r Cyffredin er 1710.

Annifyr dros ben fu hi arno. Pa faint lai annifyr ar Bolingbroke ? Oni fu ef, yn ogystal â Harley, yn academi Ymneilltuol Sheriff Hales yn sir Amwythig ym more ei oes ?[25] Moment go boenus oedd honno pan gododd yr Arglwydd Wharton ar ei draed i ddannod i'r ddau eu bod yn fradwyr i achos yr ysgolion a fu unwaith mor garedig wrthynt. Pa le, gwaeddai'n wawdlyd, y buasai'r Weinyddiaeth hon onibai am ysgolion y Dissenters ? Ac nid oedd Wharton heb wybod am elyniaeth y ddau at ei gilydd, am fawr anesmwythyd meddwl Harley ynghylch y mesur oedd o flaen y Ty. Ar Bolingbroke a'i blaid y gwenodd y duwiau. Yn Nhy'r Cyffredin cafodd y mesur drydydd darlleniad drwy fwyafrif o 111 (237-126).

---

[23]Leadam : *Pol. Hist. Eng.*, ix, 218.

[24]*Dissenting Academies*, t. 72.

[25]Toulmin : *Hist. View*, App. V, 559. Dim gair am hyn yn y *D.N.B.*, l, 129-130, nac yn y *Life of Viscount Bolingbroke* a gyhoeddwyd gan Arthur Hassall yn 1915.

Dim ond pump o fwyafrif a roddodd Ty'r Arglwyddi iddo (77-72).[26]

Deddf ddi-drugaredd oedd y 13 *Anne*, *cap.* 7, teitl gyfreithiol Deddf Sism. Nid mor ddi-dostur nag y cafwyd clerigwyr i'w galw yn ddeddf resymol, gyfiawn, Gristionogol,[27]—dyna'r ansoddeiriau diamwys a ddefnyddir gan John Bear, offeiriad Shermanbury yn Sussex. Barned y sawl a ddarlleno'r ddeddf yn ofalus fychander y weledigaeth a gafodd y Bear tafotrydd hwn ar safonau'r grefydd Gristionogol. Dim ungŵr i gadw ysgol, gyhoeddus neu breifat, heb lwyr gydymffurfio ag adran iv yn Neddf Unffurfiaeth 1662, h.y., hyglyw gyhoeddi ei grêd ym mhob iod o Lyfr y Weddi Gyffredin, cael trwydded esgob, a thalu swllt amdani. Os ceffid ef yn euog o fyned ymlaen heb yr anhebgorion hyn, i'r carchar ag ef heb obaith meichiafon. Dyna'r adran gyntaf, chwaer unfam i adran xi Deddf 1662. Dim esgob i roddi trwydded i neb os na allai hwnnw brofi ei fod wedi cymuno yn Eglwys Loegr o fewn y flwyddyn flaenorol—dyna brif bwynt yr ail adran, efelychiad cywir ryfeddol o egwyddor a geiriau *Corporation Act* 1661. Os y temtid rhywun, wedi iddo dderbyn trwydded, i fynychu cyrddau'r

[26]Fe fotiodd Harley dros yr *ail*-ddarlleniad, a siaradodd hefyd y tro hwnnw, ond yn fyr a gochelgar (*D.N.B.*, xxiv, 403). Nid hawdd oedd dal y *Trickster*.

[27]*MS. J. Walker*, c. 5, f. 234 (mewn llythyr oddiwrtho at John Walker, 31 Gorff., 1714).

Ymneilltuwyr, neu os profid ef yn euog o ddysgu i'w ysgolheigion unrhyw fath ar gatecism heblaw catecism Llyfr y Weddi Gyffredin, dyna ddiwedd arno i gadw ysgol o fath yn y byd byth wedyn (adrannau iii a iv). Beth pe tai yn edifarhau am ei bechod, cydymffurfio a'r Eglwys am un flwyddyn gyfan, cymuno yno deirgwaith yn ystod y flwyddyn? Byddai felly ar dir atgyfodiad ac ail-ddechreu, ar yr amod bod iddo dyngu llw o'r cydymffurfio a'r cymuno o flaen y barnwyr neu ynadon y Sessiwn (adrannau x a xi). Oni chlywsom am rywbeth tebig yn hanes yr achlysurwyr a syrthiasai oddiwrth y gras Eglwysig, am y pair tri-onglog a baratoid i'r rhai edifeiriol ohonynt? *Omnibus* o ddeddf oedd Deddf Sism. Taflwyd i mewn iddi adrannau athrawol hen Ddeddf 1662, egwyddor y flwyddyn gydymffurfiol a gyfleid yn Neddf y Corfforaethau, ac amryw o ddarpariadau mwyaf pryfoclyd Deddf yr Achlysurwyr. Toddwyd a chymhathwyd hwy (dyma newid metaffor!) gan athrylith yr athronydd politicaidd Bolingbroke a thrwy gynorthwy ei lu gynffonwyr yn y Ddau Dŷ.

Yn ôl i ddarllen y Ddeddf eto[28]! Cai'r Protestaniaid dieithr y fraint o gadw *tutor* yn eu teuluoedd eu hunain, a dim ond yn eu teuluoedd eu hunain (adran ix). Adran ddiddorol yw yr olaf (xii). Yn ôl hon, caniateid i unrhyw berson,

[28]Rhydd Grant Robinson: *Select Statutes*, tt. 110–113, eiriad y gwahanol adrannau yn bur gyflawn.

heb ofyn dim arno, i ddysgu pobl ieuainc sut i ddarllen, ysgrifennu, a rhifo ; gallai hefyd ddysgu faint fyd a fynnai o elfennau rhif a mesur a daflent oleuni ar waith morwr a chrefftwriaeth gwaith llaw, ond dim cymhwyso rhif a mesur at unrhyw bwrpas arall. Yn yr iaith Saesneg yn unig y caniateid yr addysg fesuronol uchod. Nid làch a sen i'r iaith Gymraeg oedd diweddglo adran xii,[29] ond gwrogaeth i ddysg yr athrawon Ymneilltuol. Beth petaent yn troi ati i siarad Groeg a Lladin â'u disgyblion ? Beth petaent yn yr ieithoedd clasurol rheini yn ymroi i ymdrin ag egwyddorion Ymneilltuaeth yn lle cadw at rif a mesur ? Golygai adran xii fod rhyddid cyffredinol i ddysgu elfennau gwybodaeth fydol. Effaith yr adrannau eraill oedd cyfyngu holl addysg grefyddol y wlad i ddwylo aelodau'r Eglwys Wladol. "*Cloggs that will render it ineffectual*" yw disgrifiad John Bear o glôs xii. Cedwch mewn cof, os gwelwch yn dda, mai ar y dydd olaf o Orffennaf, 1714, yr oedd yr offeiriad arthaidd hwn yn ysgrifennu ei lythyr.

Pwy na chrêd, pe gweithid Deddf Sism allan yn onest, trwyadl, di-dderbyn-wyneb, na fuasai Ymneilltuaeth ymron wedi ei diwreiddio o'r tir mewn cenhedlaeth neu ddwy ? "*The intention of the Tory party at this time was not to distress*

[29]Nid oedd fawr berigl i Ddissenter nag Eglwyswr Cymreig i gyfrannu addysg yn yr iaith Gymraeg (nag am yr iaith Gymraeg) yn nechreu'r ddeunawfed ganrif. Nï chlywais i am yr un, sut bynnag.

the consciences of the existing generation of Nonconformists, but to prevent any fresh generation from being brought up in error" (Bolingbroke).[30]. Buasai'r Goddefiad yn ddiangenrhaid. Byddai'n hawdd gwyrdroi cronfeydd ariannol y Presbyteriaid a'r Annibynwyr at wasanaeth yr Eglwys drwy gyfaddasu atynt axiom gyfreithiol y *cy-près* (fel y gwnaed gan yr Arglwydd Geidwad North yn llys y Chancery yn 1684[31]). Beth, medd rhywun, am ddyfarniadau grasol y barnwyr yn ffafr Bates, Cox, ac Oldfield? Oni fyddent hwy yn darian ac astalch i ysgolion y Dissenters? Y gwir yw bod adran gyntaf Deddf Sism—brawddegau cryfion, croew—yn eu chwâl a'u dymchwel un fel ei gilydd. Ni thâl dyfarniad barnwr ddraen yn wyneb deddf bendant dau Dŷ'r Senedd. Amwysedd deddf yw cyfle'r barnwr. Yr oedd Deddf 1714, fel y cleddyf noeth, yn gwbl ddiamwys. Gofalodd y brawd Bolingbroke am hynny.

Eistedd yn fud y gwelsom Harley ddiweddaf. Ni fu'r *Trickster* yn hir o dan y clwyf hwnnw. Fel Arglwydd y Trysorlys yr oedd ganddo

---

[30] G. M. Trevelyan: *England under the Stuarts*, t. 475, nodyn 1.

[31] *Attorney-General v.* [Richard] *Baxter* (1 Vernon, 248–250). "It was decided that the practice had always been to apply charities *in eodem genere*, and this being intended for ejected ministers ought to go amongst the clergy." Dymchwelwyd y dyfarniad diegwyddor hwn yn 1689. (Ystyr y term *cy-près* yw *agosed ag sy'n bosibl at y pwrpas gwreiddiol.*)

fanteision lawer i gadw golwg ar helyntion ariannol Bolingbroke, a gwyddai o'r goreu na allai y cwbl ohonynt ddal goleuni dydd. Mynnodd dynnu'r gorchudd oddiar y mannau gweinion. Gorfu ar y Frenhines afiach ohirio eisteddiad y Senedd rhag ofn i'r Whigiaid barus orhoian wrth weled dau Dori mawr y dydd yn neidio i yddfau ei gilydd. Hyn ar y nawfed o Orffennaf, 1714. Yn ymyl tair wythnos yn ddiweddarach, trowyd Harley allan o'i swydd. Bum niwrnod wedi hynny bu farw'r Frenhines Ann ar y dydd cyntaf o Awst. Digwyddai fod yn ddydd Sabath, "*y Sul cyntaf o Awst.*" Beth, tybed, oedd teimladau John Bear pan ddaeth y newydd trist i Shermanbury, ac yntau newydd bostio'r llythyr hyll hwnnw?

Achubwyd yr ysgolion Ymneilltuol, achubwyd Deddf Goddefiad. Ar y dydd cyntaf o Awst yr oedd Deddf Sism i ddechreu gweithio. Nid oes fawr ddim prawf iddi ddod i weithrediad o gwbl: prysurodd ddiwedd academi Dr. Oldfield yn Hoxton, *efallai*;[32] lled-*awgrymir* mai hi a laddodd academi'r 'Mwythig[33] (yr oedd James Owen wedi marw ers wyth mlynedd); am ysgol Bridgewater yn unig y dywedir iddi gau i fyny am dymor.[34] Sicr yw na wnaeth Samuel Jones o Tewkesbury y sylw lleiaf ohoni.[35] Dal ymlaen i dalu symiau

[32] *Cong. Hist. Soc. Trans.*, vi, 142.
[33] *Cong. Hist. Soc. Trans.*, v, 21.
[34] *ibid., ib.*, 71.
[35] *ibid., ib.*, 77.

o arian i dutors a disgyblion a wnai rheolwyr y ddwy Fund Lundeinig. Mewn gair, bu'r Ddeddf farw cyn iddi gael dechreu byw. Yn nechreu 1719 rhoddodd y Whigs gladdedigaeth ffurfiol iddi. Tra'n dywedyd fel hyn i Ddeddf Sism fethu â chael ei thraed dani, anghywir yw meddwl iddi farw'n ddisyfyd gyda'r Frenhines. Ystyr yr ymadrodd hynod nad yw y Brenin byth yn marw ydyw ei fod ef ei hun *yn* marw, ond bod y Cyfansoddiad gwladol yn dal yn fyw, y cyfreithiau yn parhau yn eu llawn rym. Ar yr ochr arall, fe rwydd gyfaddefir taw anffawd anaele i faban egwan yw colli ei rieni yn ei fabandod: os mai Bolingbroke oedd y tad, y Frenhines oedd y fam a'r famaeth. Pwy a goleddai'r bychan wrth gropian, heb sôn am gerdded?

Gair angladdol am Bolingbroke a Harley. Bu'r cyntaf—hen ddisgybl John Woodhouse yn Sheriff Hales ac awdur Deddf Sism—yn alltud o'i wlad am rês o flynyddau. Gyda chryn drafferth y llwyddodd Harley i gadw ei ben ar ei ysgwyddau: nid oedd *Jack Presbyter* wedi anghofio crogbren 1711 a'r modd yr aeth wŷr yr hen Syr Robert heibio iddi heb gymaint ag edrych arno; cofiai pawb am ei dawedogrwydd yn 1714; yn anad dim, cofiai'r Whigs am ei driciau diddiwedd. Ymneilltuodd i gasglu llyfrau lu a llawysgrifau prin am y gweddill o'i oes. Dydd du yn hanes Toriaeth oedd y Sul cyntaf o Awst, 1714. Ofer ymbil ac ymbalfalu am dipyn o'r hen awdurdod—dyna'u

hanes am dros hanner can mlynedd ar ôl y bore hwnnw.

Nodyn: Marwnad i'r Frenhines Ann.

Os mai gorfoleddu ym marw'r Frenhines a wnai Ymneilltuwyr y wlad, galar a glywid yng ngwersyll yr Eglwys. Yng Nghymru rhoddwyd llais i'r galar hwn gan Robert Wynn, ficer Gwyddelwern (*Blodeugerdd y Cymry*, arg. Stafford Prŷs, 269–271). Nid yw ei farwnad yn sôn gair am Ddeddf Sism na phenyd yr achlysurwyr; yn hytrach, rhydd bwyslais digon naturiol ar y *Queen Anne's Bounty*, ar "oreuglod Fam yr Eglwys" yn "helpu athrawon llesgedd," ac ar ei sêl yn dwyn y "filain hyll ryfeloedd" i ben:

> Hi a ystudiodd roi gwastadrwydd
> Rhwng pob llywydd a phob llu.

Iddo ef, drwy hanes y brenhinoedd, a'u cyfri' bod ag un,

> Nid oes i ni, o reiol ri
> I'w henwi ond ei hun.

Marwnadwr gwael, ond Eglwyswr da. Digon yma dywedyd iddo hefyd gyfansoddi dau englyn i'w cerfio ar garreg fedd Huw Morus y Cafalîr o Bontymeibion (*Eos Ceiriog*, 1823, ii, 428), ac i'w bregeth angladd yntau gael ei thraddodi gan Edward Samuel yn eglwys Llangower ar yr ail o Fai, 1720. Rhydd Edward Samuel, sef person llengar Bettws Gwerfil Goch a Llangar, air da odiaeth iddo fel gwir aelod uniongred o Eglwys Loegr. Hawdd credu hynny.

XI

Cyfeillgarwch Gwŷr Mawr.

Dyweд Spinther bethau cryfion iawn am Ymneilltuwyr y wlad yn ystod dyddiau Ann y Frenhines, eu cyflwr yn resynus i'r eithaf a'r rhagolygon yn ddychrynllyd.[1] Annoeth ac anochelgar yw arfer y fath eiriau. Oni wyddai Spinther fod Ty'r Arglwyddi wedi hir amddiffyn y Piwritaniaid meinion hynny, y cymunwyr achlysurol, drwy anghytuno â Thy'r Cyffredin deirgwaith yn olynol? A phan daflodd yr Arglwyddi hwy i'r llewod yn 1711, nid llwyr anghofio ei hen gyfeillion a wnaethant, ond taro bargen dros dro gyda thrwp o Doriaid "*to secure the latter's concurrence in those important matters* [sef taflu allan delerau gwael yr heddwch cyntaf â Ffrainc] *that might come before them.*"[2] Oni chofiai mai dim ond pump o fwyafrif a gafodd Deddf Sism yn yr un Ty, ac na phesid ef o gwbl onibai i'r Frenhines Doriaidd greu dwsin o Arglwyddi newyddion heb fod yn hir cyn hynny? Reiol o beth yw deall i 33 o Arglwyddi'r wlad lawnodi protest yn erbyn y byrbwylltra penboeth oedd wrth gefn y mesur, a bod pump esgob yn eu plith, Wake o Lincoln yn un o'r pump, prelad a godwyd yn y man yn Archesgob Caergaint. Allan o'r pedwar esgob Cymreig,

[1] *Hanes y Bedyddwyr*, iii, 110.
[2] Burnet: *Hist. Own Time*, vi, 79.

fotiodd tri yn gyson yn erbyn y mesur, a gwelir enwau'r tri ar y brotest sydd ynghadw yng nghroniclau Ty'r Arglwyddi.[3] Fe fotiodd Nottingham hefyd yn erbyn y mesur, pensaer penyd yr achlysurwyr, un o Eglwyswyr mwyaf a mwyaf egwyddorol ei oes. Nid fotio yn unig, heb brotestio gyda hynny.

Prin, a chofio'r ffeithiau arwyddocaol yma, y mae'n ddoeth haeru bod y rhagolygon yn "ddychrynllyd." Gwyddai Presbyteriaid dinas Llundain am y sefyllfa gystal â neb byw: tra'r oedd Bolingbroke yn prysur forteisio adrannau'r mesur, a thra'r oedd gwefusau teneuon yr hustyngwyr Toriaidd yn prysur hau'r sibrwd ar hyd clybiau'r brifddinas, cyfarfu cyfarwyddwyr y *Fund* Bresbyteraidd a gadwai lawer academi Ymneilltuol ar ei thraed, a phenderfynasant—nad oedd neb i alw am ddiod tra byddai'r Llywydd yn y gadair, "*nor no Tobacco taken*," heb orfod talu chwecheiniog gron bob tro y gwneid hynny.[4] Yr oeddent hwy yn byw yn Llundain yn 1714. Gwyddent hwy am lawer o bethau na wyddai Spinther fawr amdanynt. Yna aethant ymlaen yn hamddenol â'u gwaith o rannu mwy o arian i ysgolion a myfyrwyr anghydffurfiol.

---

[3] Gwêl *Journals of the House of Lords*, xix, 716–717; *A Genuine and Complete Collection of all the Protests . . . House of Lords* (arg. 1754), i, 170–172. Y ddafad ddu oedd Esgob Tyddewi (Dr. Adam Ottley).

[4] *Minutes Presb. Board*, ii, 257. 5 Ebrill, 1714.

Paragraff bychan am yr esgobion a'r lordiaid a safasant yn lew yn erbyn rhysedd annosbarthus y Toriaid. Esgobion rhyddfrydig, Latitudinaraidd oedd yr esgobion hyn, brodyr-yng-nghyfraith i'r Piwritaniaid, gyda Burnet yn ben ac arweinydd iddynt. Am un ohonynt hwy y dywedodd rhyw wag o Dori nad oedd braidd un Presbyteriad o fewn ei sir ef, ond yr esgob ei hunan! Fel y bu'r digwydd, methodd Burnet â bod yn ei le yn y Senedd i ymosod ar gynlluniau Bolingbroke. Anhap amgylchiadau fu'r achos: yr oedd amser ei ymweliad tair-blynyddol â phlwyfi ei esgobaeth wedi taro, ac yr oedd yr esgob lawn mor gydwybodol gyda'r dyletswyddau hynny ag ydoedd am gadw gwarchodaeth ar yr Uchel-Eglwyswyr yn Nhy'r Arglwyddi.[5] Tebig iawn i Burnet mewn amryw bethau oedd Fleetwood o Lanelwy, Whig mawr arall; annhebig iddynt ill dau oedd Beveridge, rhagflaenydd Fleetwood, esgob a roddodd ei fôt yn 1705 dros ddywedyd *bod* Eglwys Loegr mewn perigl dirfawr oddiwrth atheistiaid ac anghydffurfwyr.[6] Pwy a faddeuai inni am anghofio esgobion Bangor? Yr esgob yno o 1689 i 1701 ydoedd Dr. Humphrey Humphreys,[7] Cymro o waed ac iaith, ac un o brif hynafiaethwyr ei genhedlaeth. Nid oedd arlliw Presbyteriaeth arno ef; ond casglwn oddiwrth ei ornest gyda rhai o

[5] H. C. Foxcroft: *Life*, t. 467.
[6] *MS. J. Walker*, c. 3, f. 16.
[7] Esgob Henffordd o 1701 hyd ei farw yn 1712.

ffanaticiaid Ty Isaf Confocasiwn yng ngwanwyn 1701,[8] a'i ddiofalwch ysgafala yn ateb gofyniadau Walker ynghylch offeiriaid esgobaeth Henffordd a ddifuddiwyd yn oes Cromwell[9]—casglwn oddiwrth yr arwyddion hyn mai go brin y buasai'r Esgob Humphreys, pe wedi cael byw, yn cefnogi mesur ffol 1714. Yn wyneb y ffeithiau a'r casgliad uchod, byddai'n ddiddorol gwybod ar ba delerau yr oedd ef â'i frawd-yng-nghyfraith, y Robert Morgan hwnnw a wrthododd dyngu llwon M.A. yn 1692,[10] a sut y gadawodd i'w ferch briodi â mab y cyn-esgob William Lloyd o Norwich, prif ben y Nonjurors ar ôl marw Sancroft (cofier mai ym Mhenrhyn Deudraeth y ganwyd Dr. Humphreys, a'r Dr. William Lloyd yn Llangower, ill dau yn sir Feirionydd). Dyn mwy diddorol fyth oedd y John Evans a ddaeth yn esgob Bangor fel olynydd iddo, mab y Plas Du ym mhlwyf Llanarmon Eifionydd, a rheithor Llanaelhaiarn wedi ei ddychwelyd o'r India. Fel y disgwyliem oddiwrth un a fu yn gaplan yn yr India am ugain mlynedd, gŵr plaen ei eiriau ydoedd, a chwffiwr dan gamp. Nid ofnodd John Evans ddywedyd yn nannedd Atterbury ei fod yn pallu mewn

[8]Toulmin: *Hist. View*, tt. 147–148; Lathbury: *Hist. Convocation* (arg. 1853), tt. 354–358.

[9]*MS. J. Walker*, c. 3, f. 226. "I have sent & been 10 times with y^e^ Bp. of Hereford. He promised fare (*sic*), but doth nothing" (nodyn oddiwrth Robert Clavell at Walker, 14 Rhag., 1706).

[10]Gwêl uchod, tt. 20–21.

geirwiredd ; nid ofnodd ychwaith fyned i'r afael â Swift—nid llawer a feiddiai wneuthur hynny heb orfod llyfu'r llawr yn hurt eu gwala.[11] Fel y gwyddom, Annibynwyr Llangybi a Llanarmon oedd anghydffurfwyr ffyrnica'r Dywysogaeth ; ac er mai ar fronnau'r Eglwys y magwyd mab y Plas Du, yr oedd yn wir fab y fro o ran nodwedd a greddf—dewrder calon nas lleddid, a rhyw gariad cynhenid at gadw chwarae teg. Nid oes eisiau dywedyd mai Whig ydoedd, Eglwyswr isel iawn, a'r ffrind salaf yn Nhy'r Arglwyddi i Ddeddf Sism. Ef, wrth gwrs, oedd un o'r tri esgob Cymreig a lawnododd y brotest yn ei herbyn ar y 15 o Fehefin, 1714.

Gwell symud ymlaen at y lordiaid Whigaidd a safasant fel un gŵr i wrthwynebu'r un mesur. Rhaid gofalu peidio ag arfer gormodiaith wrth siarad amdanynt hwy : parchu'r *Nonconformist conscience* er mwyn sicrhau'r *Nonconformist vote* oedd y rhan fwyaf ohonynt. Dylid gwneyd eithriad o Thomas, Arglwydd Wharton. Piwritan trwyadl oedd ei dad Philip : pleidiodd y Senedd yn y Rhyfel fawr Gartrefol ; dewr geisiodd liniaru tipyn ar ddeddfau Unffurfiaeth a'r Confenticlau ; cadwai gaplan Piwritanaidd yn ei blas ; bu'n gefn mawr i Dafydd Jones, Llandysilio, wrth ddwyn allan argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg yn 1690 ; a phan fu farw, cafwyd bod darpariaeth yn

[11] *D.N.B.*, xviii, 64.

ei ewyllys ar gyfer dosbarthu Beiblau i blant tlodion ar amodau neilltuol. Tebig hefyd mai ef oedd yr Arglwydd Wharton a roddodd fod a bywyd i ysgol Ymneilltuol Maesgwyn ym Maesyfed.[12] Mab i'r Calfin aristocrataidd hwn oedd Thomas. Gyn belled ag yr ai ymadrodd syber a moes weddus, safai yn y pegwn cyferbyniol i'w dad; nid oedd greadur mwy trythyll a didoriad yn byw yn y cyfnod llwgr hwnnw.[13] "*An atheist grafted upon a dissenter*," meddai Swift amdano. "*One of the Lewdest and most Profligate Libertines*," oedd barn John Walker.[14] A beth bynnag a ddywedir am eiriau Eglwyswyr fel Walker a Swift, yr oedd y ddau yn byw yn yr un blynyddoedd ag yntau, Swift wedi cael aml ysgwrs ag ef, a'r ddau yn fanwl gydnabyddus â throion ei yrfa. Yr oedd iddo ddylanwad aruthr ar ddynion ieuainc; yn swydd Bucks, ef oedd y brenin. A chwarae teg iddo, glynodd fel y gele wrth draddodiadau ei deulu fel noddwyr rhyddid crefyddol: dyna'r paham, y mae'n debig, y gorfoleddai tipyn o swyddwr eglwysig yn Llandâf fod gelyn-ddyn i'r Eglwys wedi cwympo pan ddaeth y si am farw Wharton

[12] *Y Beirniad* (gol. Syr J. Morris Jones), viii, 20 (mewn ysgrif gan Mr. Shankland).

[13] Un o'r pethau mwyaf doniol a hyawdl a ysgrifennodd Macaulay erioed yw ei ddisgrifiad dihafal o Wharton (*Hist. Eng.*, arg. Longmans, 1895, ii, 462–464).

[14] Nid yw Walker yn ei enwi wrth ei enw, ond nid oes ddadl at bwy y cyfeiria (*Sufferings*, Preface, x).

yn 1715.[15] Nid ofnai'r Toriaid ddim yn y byd mwy na gwatwareg finiog yr Arglwydd hwn: yr Ymneilltuaeth a erlidir yma, meddai yn Nhy'r Arglwyddi yn 1714, yw'r sefydliad gwladol yn yr Ysgotland; a wnaiff yr arglwyddi hyn, gan edrych i gyfeiriad arglwyddi eglwysig y wlad honno, gefnogi mesur i gyhoeddi Anglicaniaid y gogledd yn euog o sism? Ac nid ydych, gobeithio, wedi gollwng o go' y tawelwch syn yn yr un Ty pan oedd Wharton yn cnocio pennau Bolingbroke a Harley wrth ei gilydd, a'u galw ill dau yn blant y brâd. Diddorol cofio i'w chwaer Mary briodi ag un o Domosiaid Wenvoe, teulu arall a thipyn o Biwritaniaeth yn eu gwythi. Marw yn ei bechod a'i ryfyg fu tynged Wharton. Dyry un o'n poetau ni ryw led-obaith am uffern leddf lonydd i oferwyr rhadlon ynghlwm o lwch a fflam. Prin y disgwyliai'r ffrind yma i Biwritaniaid ddim byd gwell na'r ffawd anffodus hon.

Dyna ddigon am Wharton. Beth pe taem yn anturio dywedyd gair neu ddau am Radnor, arglwydd sydd a'i enw megis yn ymguddio o dan gysgod dynion mwy brochus. Pwy o bobl y byd oedd hwn? Ei enw'n llawn oedd Charles Bodvile Robartes, ail Iarll Radnor, cwnstabl Castell Caerynarfon, mab i Sara Bodfel, ac ŵyr i'r Cyrnol John Bodfel o Fodfel ger Pwllheli a Llaneigrad ym

[15] *Rawlinson Letters* 97, f. 33 (Francis Davies at y Canghellor Beaw, 12 Ebr., 1715). Bu Wharton farw ar y dydd yr ysgrifennwyd y llythyr hwn.

Môn—drwy Gymru i gyd nid oedd Cafalîr mwy direswm a diras a'r Cyrnol. Nid o'r cyfeiriad yma y daw eglurhad ar waith yr ŵyr yn 1714. Trown i ochr arall y tabl, a chawn fod ei daid—yr hen Arglwydd Robartes o Gernyw, iarll cyntaf Radnor[16]—yn Seneddwr pybyr yn y Rhyfel Gartrefol, ac yn bleidiwr pur selog i ryddid crefyddol ar ôl Adferiad y brenin. Cawn fod ei dad Robert Robartes, creded a gredo, yn dal i fyny gwt gŵn porffor Cromwell pan ei gorseddwyd yn Brotector yr eiltro yn 1657. Hwn oedd y gŵr ieuanc a briododd ferch Bodfel. A phan ddaeth egwyl fechan o ryddid addoli i Ymneilltuwyr yn 1672–1675, agorwyd drws plas Bodfel iddynt, un ai yn bersonol gan Robartes a'i wraig, neu gan y beili oedd yn gofalu am y lle.[17] O gofio tueddiadau'r tad a'r taid, peth digon naturiol oedd i'r ail Radnor[18] brotestio o galon yn erbyn Deddf Sism. Un arall a brotestiodd oedd Arglwydd Foley, ŵyr i'r masnachwr haearn o swydd Worcester a fu'n nodedig gyfeillgar â Richard Baxter; un arall eto oedd Arglwydd Haversham, ŵyr i un o

[16]Hawdd yw troi *Radnor* yn *Faesyfed*, anhawdd yw profi cyswllt teulu Robartes â'r sir honno.

[17]Caniatawyd y drwydded ar y 5 o Fedi, 1672 (*St. Pap. Dom., Chas. II, Entry Book* 38*A*, t. 238). Trwy ryw ddiofalwch diesgus, anghofiwyd rhoddi enw'r *householder* arni.

[18]Y taid oedd yr iarll cyntaf, yr ŵyr yr ail. Bu'r tad farw o flaen y taid.

gefnogwyr Cromwell, a mab i un o bleidwyr mwyaf selog y cymunwyr achlysurol. Ryfeddach fyth, yr oedd Radnor yn ffrindiau garw efo Swift Doriaidd, a Foley yn un o'r deuddeg arglwydd Toriaidd a grewyd yn uniongyrchol gan y Frenhines yn nechreu 1712 er mwyn gwthio telerau'r heddwch ar y Whigs. Nerthol o beth oedd teimlo bod ysbrydoedd teidiau a thadau yn cynniwair i'r ysgarmes. Calondid mawr yn nydd y drin oedd cefnogaeth dynion a godai egwyddor hen uwchlaw cyfeillgarwch newydd a buddiannau'r byd presennol. Yn wir, daeth aml (i) wythïen Biwritanaidd i'r wyneb yn 1714 oedd a'i gwely yn y ddaear ers mwy na chenhedlaeth. Nid rhesymau rhamantus o'r math yma a safai y tu cefn i brotest y Duc Grafton a'r Duc Somerset, un yn ŵyr i Siarl II ac un o'i ordderchadon, a'r llall yn greadur mor aristocrataidd nes yr aeth ei drem uchelffroen yn ddiareb gwlad. Beth a'i corddai hwy? Dau lafn o foneddwr oeddynt, na falient fotwm corn am y Frenhines na Bolingbroke, ac a gwbl gredent fod Deddf Sism yn damsang ar ganonau cydnabyddedig boneddigeiddrwydd. Amhosibl, ysywaeth, cael digon o ofod i fanylu ymhellach ar y llawnodwyr (bydd raid, felly, gau'r mwdwl ar Torrington a Chornwallis, ar Schomberg a De Longueville, a llawer o fechgyn eraill digon diddorol). Fe rown orffen sydyn ar y paragraff hir hwn drwy bwysleisio unwaith yn ychwaneg fod 33 o Arglwyddi wedi protestio'n arbennig a phendant yn erbyn

anghyfiawnder Deddf Sism, a bod cynifer a 72 o Arglwyddi wedi fotio yn erbyn y trydydd darlleniad. A buasai'r 72 yn 73 onibai bod Burnet mor gydwybodol gyda'i waith fel esgob.[19]

I lawr yn Nhy'r Cyffredin hefyd, cadarn gartref rhagfarn, yr oedd gan yr Ymneilltuwyr a'u hysgolion nifer o gyfeillion twymgalon, dynion ieuainc talentog, dynion a dyfodd yn oleuadau'r wlad yn oes y Georges. Syr Peter King, perthynas o du ei fam i John Locke, mab-yng-nghyfraith i Richard Seys o Boverton ym Morgannwg, Arglwydd Ganghellor yn 1725, onid ef a wnaeth un o'r areithiau hyotlaf yn erbyn mesur Sism yn 1714?[20] Wrth ei ochr safai Syr Joseph Jekyll, gŵr fel Syr Peter a gafodd ei addysg fore mewn academi Ymneilltuol, ac a wnaed yn *Master of the Rolls* yn 1717. Nicholas Lechmere oedd gyfreithiwr enwog arall a wnaeth wrhydri ar yr un ochr. Dau aelod mwy enwog, efallai, a wrthwynebodd y mesur hwn i'r diwedd eithaf oedd y Cadfridog Stanhope, yr hwn mewn pum mlynedd wedyn a gafodd yr anrhydedd o'i lwyr ddiffoddi, a Syr Robert Walpole, gwladweinydd a ddangosodd ochr

[19]Seilir prif ffeithiau'r paragraff hwn ar y *D.N.B.*, xlviii, 339–341 (Radnor); xix, 356 (Foley); lvi, 215–216 (Haversham). Cyfleir achau Radnor yn bur drefnus yn *Pedigrees* J. E. Griffith (t. 171). Yr awdurdod o hyd ar enwau'r protestwyr yw'r *Lords' Journals*, xix, 716–717.

[20]*D.N.B.*, xxxi, 144–147; G. T. Clark: *Limbus Patrum*, 219–220; a chyfeiriad ato yn *MS. J. Walker*, c. 4, f. 72.

dda i Ymneilltuaeth (cystal ochr ag y gallai) drwy gydol blynyddau maith ei awdurdod yn y wlad. Nid rhyw wâg siarad oedd gwaith y boneddigion uchod; na, gwrthwynebent y mesur o galon ac o argyhoeddiad; a chafodd y Toriaid amser anghysurus aruthr wrth wrando ar eu rhesymeg gydnerth a'u geiriau llymion. Gyda'r fath amddiffynwyr a'r rhain yn y lleoedd goruchel, ffôl yw sôn am Fedyddwyr Sir Benfro yn ymfudo i'r Amerig am fod rhagolygon *dychrynllyd* i Ymneilltuaeth. A pheth arall—pe buasai y Bedyddwyr yma heb ymfudo i'r Gorllewin ni fyddai Deddf yr Achlysurwyr o ddim ddiddordeb iddynt hwy. Pa raid iddynt hwy ofni Deddf Sism, a dim un ysgol i Fedyddwyr wedi ei chodi ganddynt?

Nid oedd rhai o wŷr mawr Cymru heb ddangos caredigrwydd i Ymneilltuwyr. Disgwyliem hynny oddiwrth Bussy Mansell o Briton Ferry, ac yntau wedi bod yn Ddirprwywr o dan Ddeddf y Taeniad, wedi eistedd yn Senedd y Saint yn 1653! Nid oes fawr amheuaeth nad ef a roddodd dir i godi capel Gellionen arno,[21] a'r coed i adeiladu capel yr Annibynwyr yn y Chwarelau Bach ger Castellnedd.[22] Ond pan ddywed dau hanesydd yr Annibynwyr fod Bussy drwy oes hirfaith yr erlid yn aelod ffyddlon gyda'r Ymneilltuwyr,[23]

[21] D. Rhys Phillips: *Hist. of the Vale of Neath*, t. 147, n.1.

[22] Doctoriaid Rees a Thomas: *Hanes Egl. Ann.*, ii, 97.

[23] *ib.*, *ib.*, 97, 136.

y maent yn arddangos dygn anwybodaeth o yrfa gŵr a gydymffurfiodd yn 1660 ac a enwodd John Hutton yn ficer Llangynwyd yn lle Samuel Jones. Dafydd Jenkins o Hensol eto—mab yr hen Judge Jenkins—rhoddodd yntau dir i godi capel Cwmyglo Merthyr arno, oherwydd (medd traddodiad) fod brawd un o'r aelodau yn fwtler iddo.[24] A chafodd Presbyteriaid Caerdydd dir i godi capel gan Syr John Thomas o Wenvoe ar lês o fil namyn un o flynyddoedd, y rhent i fod yn 5s 1c. y flwyddyn (os gofynnid amdano).[25] *Gwraig* hwn oedd y Biwritanes—gweddw Edmund Ludlow y *regicide* enwog.[26]

Ni raid dywedyd mai gwth a bwgwth a gaed gan gorff mawr arglwyddi ac ysweiniaid Cymru. Nid oedd gan anghydffurfwyr oes gyntaf Goddefiad fawr le i ddiolch iddynt hwy, tystied y trwbwl a gafodd James Owen yn nhre' Dinbych a'r wers a ddysgwyd i ynadon y sir gan Farnwyr yr *Assizes*. Nid oedd yn debig y deuai llawer o gymorth oddiwrth arglwyddi Cymru i gadw chwarae teg i athrofeydd ieuainc y Dissenters. Er enghraifft, serch y dywedir i'r Arglwydd Mansell cyntaf fod o dan addysg Samuel Jones ym Mrynllywarch Biwritanaidd,[27] byddai'n groes iawn i'r graen i hwnnw godi ei law yn erbyn mesur Sism : onid

[24] *ib.*, *ib.*, 247.
[25] *ib.*, *ib.*, 415.
[26] G. T. Clark : *Limbus Patrum*, 445–446.
[27] Calamy : *Account* (1713), ii, 721.

ef oedd un o'r deuddeg Tori a grewyd yn Arglwyddi gan y Frenhines eglwysgar yn nechreu 1712? Onid oedd yn naturiol disgwyl iddo, gan nad oedd ganddo (fel yr Arglwydd Foley) hen draddodiadau Piwritanaidd yn ei wythienau, anghofio dyddiau Brynllywarch a chofio dymuniadau'r Frenhines? Yr oedd ef yn Nhy'r Arglwyddi pan ddarllenwyd y mesur y drydedd waith. Hyd yn hyn, methais â dod o hyd i enwau'r 77 a fotiodd *dros* wneuthur y mesur yn ddeddf. Ond y mae mor sicr a dim fod Mansell yn un ohonynt. Fe ŵyr pawb sy'n gwybod rhywbeth am ach a llinach hen deuluoedd Cymru mai adar o'r un nythaid oedd Manseliaid Briton Ferry a Manseliaid Margam; ac fe ŵyr pawb (ag) sydd wedi dilyn hanes crefydd yn y wlad a orwedd rhwng Ogwr a Thawe fod tipyn o wahaniaeth rhyngddynt yn eu teimladau at Ymneilltuaeth—teulu Margam yn dra Cheidwadol ac Eglwysig, teulu Briton Ferry (gwehelyth Bussy) yn fwy rhadlon a rhyddfrydig. Drwy i ŵyr Bussy Mansell farw'n ddiblant yn 1706, aeth ei holl diroedd i ddwylo un o feibion Margam, Bussy fyth, fel y mae'n rhyfedd dweyd. Etifeddodd y Bussy ieuanc diroedd a da, do, a deuparth o ysbryd y Bussy hen. Wele ei ddeclarasiwn yn 1734—"*if I have the Honour to Represent this County I shall always have a Tender Regard to those Just Privileges they [Dissenters] at present enjoy with Relation*

to . . . the Worship of God According to the Dictates of their Own Consciences."[28]

Gormod o grwydro eto. Ond gynted ag y cymerwn aden o 1734, disgyn ymhlith Whigiaid bore'r ganrif, a chofio eu caredigrwydd at gymunwyr achlysurol ac ysgolfeistri anghydffurfiol, wynebir ni â chwestiwn digon dyrys. Gan fod y Whigiaid hyn yn gyfeillion mor dda i Ymneilltuwyr, a chan mai eu brwdfrydedd hwy a gadwai y rhyfel â Ffrainc i fyned ymlaen, byddem yn hanner disgwyl i Ymneilltuwyr y wlad, hyd yn oed y pregethwyr, brysur bregethu rhyfel. Oni allai Vavasor Powell droi ei law at waith caplan yn y fyddin, neu ymladd mewn brwydr fel milwr cyffredin? Oni fu John Davies o Langatwg Brycheiniog yn ymladd ym mrwydr Worcester? Na, yr oedd yr oes honno drosodd; yr oedd yr elfen filitaraidd ym Mhiwritaniaeth wedi glân farw allan[29]; yn lle'r fidog a'r bwled, fe gawn lythyrau John Locke ar Oddefiad, amddiffyniad John Howe i'r achlysurwyr, a chyfrolau clasurol Calamy'r hanesydd. Drwy beth anffawd a llawer o falais, llygaid ceimion a drowyd at rai pregethwyr yn Lloegr: oni fu Defoe yn dwfn rygnu am waith rhyw ustus eglwysig yn yr Isle of Ely yn mynnu anfon gweinidog o Anghydffurfiwr ar ei ben at y sowldiwrs[30]? Yng

[28]D. Rhys Phillips: *Hist. Vale of Neath*, 149, n. 2.

[29]Dylid llareiddio ychydig ar y gosodiad hwn yn wyneb hanes y ddau weinidog yn 1715 (gwêl isod, t. 140).

[30]Edward Arber: *Term Catalogues*, iii, 467, 495. O gwmpas 1705 y bu'r tro hwn.

Nghymru cafodd rhai pregethwyr dipyn o drafferth i ddianc rhag crafangau'r *press-gang*: yn 1706 bu raid torri ar ei hanner Gymanfa'r Bedyddwyr yn Abertawe[31]; a thua'r un adeg, onibai am farw ynad ffyrnig o'r gymdogaeth, buasai'r John Davies a ofalai am fugeilio Bedyddwyr tueddau Llanelli a'r Felinfoel, wedi cael mynediad buan i fyddin Marlborough.[32] Bu'n fwy anffodus fyth ar Matthias Maurice o Henllan: daeth y *gang* ar ei draws yn ymyl tre' Hwlffordd tua 1710, ac i ffwrdd ag ef mewn llong ryfel i enau'r Dafwys. Cyfryngiad Annibynwyr cefnog Llundain a'i hachubodd.[33] Ond pan ddarllenwn am dywys gweithwyr glô Castellnedd i'r fyddin drwy drais, gellir bod yn bur sicr mai drwg-deimlad personol oedd wrth wraidd yr helynt; a phan ddarllenir ymhellach ymlaen am un o Fanseliaid y Ferry wrth y gwaith o bressio, dyna brawf terfynol ar y mater.[34] Nid angen dynion i'r fyddin oedd, ond dyhead am yrru Syr Humphrey Mackworth i golli arian a rhegi'n gaclwm gwyllt. Gwell gadael rhwng gwŷr Pentyrch a'i gilydd.

---

[31] Joshua Thomas: *Hist. Bapt. Assocn.*, t. 31.

[32] Joshua Thomas: *Hanes* (arg. Pontypridd), t. 118.

[33] *Cofiadur* (1925), t. 37. Beth oedd awdurdod *Hanes Egl. Ann.*, iii, 346, dros ddweyd mai gelynion crefyddol Maurice oedd y tu cefn i'r gwaith? A oes rhywun a gred hynny am Bresbyteriaid Annibynnol Henllan?

[34] D. Rhys Phillips: *Hist. Vale of Neath*, 235–237, 389 (n. 7).

XII

Y Brotest.

Ar ôl sôn cymaint am brotest y 33 Arglwydd—ac ni ellir sôn gormod—nid drwg o beth a fyddai ei dodi i lawr air am air. Bydd amryw yn synnu at ei hyd—saith o bennau gwahanol, gyda dwy gangen i'r pen cyntaf, a dau baragraff ychwanegol wrth gwt yr olaf. Bydd eraill yn dra siomedig ar ei ffurf a'i sylwedd. Arwyddion amlwg o frys arni : sylwer ar y brawddegau bongleraidd a egyr y pumed pen ; gellid meddwl oddiwrth eiriau dechreuol y chweched fod perigl i'r Ymneilltuwyr yn *gyffredinol* ymado â'r wlad, pryd y prawf y geiriau clô mai y Protestaniaid alltud yn unig oedd ganddynt mewn golwg. Gresyn fod Burnet ramadegol wedi mynd adre' i Salisbury.

Nid traethawd ar egwyddorion rhyddid crefyddol yw'r brotest hon. Nid oes, erbyn heddiw, ond ofer ddyfalu pwy a'i rhoddodd wrth ei gilydd. Pwy bynnag a wnaeth hynny, Eglwyswr ydoedd (nid oedd bosibl i un anghydffurfiwr, yn ystyr arferol y gair, eistedd yn Nhy'r Arglwyddi). Pwy ond Eglwyswr a fuasai'n pwysleisio anarciaeth grefyddol y sectau (pen. 1, sylw 2), ac yn ailddywedyd yr hen stori am Ymneilltuaeth yn colli tir (pen. 2)? A chwarae teg, nid hawdd oedd saernïo protest ag y cytunai Anglican rhonc fel Nottingham, Whig pechadurus fel Wharton, a

Phrotestant ffanaticaidd fel yr esgob o Fangor, i ysgrifennu eu henwau odditani. Amryw blu at amryw bysgod hefyd. Un bluen (y chweched) i ddal Meinhard Schomberg,[1] trydydd mab y Schomberg Ellmynig Protestanaidd hwnnw a syrthiodd yn farw ym mrwydr yr Boyne ; pluen arall (paragraff canol y seithfed) i ddwyn Greenwich i'r lan—Iarll Greenwich yn Lloegr, ail Dduc Argyll yn yr Ysgotland, pennaeth y Campbells Presbyteraidd, gŵr a dderbyniodd ei wersi bore gan weinidog o Bresbyteriad. Nid gwaith hawdd, dywedwn eto, oedd trefnu'r plu afrywiog yn dwt a chymesur.

Efallai bod y brotest yn fwy clyfar nag y meddyliodd llawer. Paham y codwyd Siarl yr Ail a'i frawd Iago o'u beddau i baragraff 5 ? Am mai Pabyddion oeddynt. Craffer ar y geiriau *Papists*, *Pretender*, *French King*, yn codi eu pennau fel bagad o fwganod yn rhigolau'r rhesymeg—y *Pretender* yn hanner brawd i'r Frenhines, yn Babydd, a'i loches yng ngwlad y *French King*. Â'r *French King* yma yr arwyddodd y Toriaid delerau heddwch flwyddyn yn flaenorol. A phwy yw'r "*great Numbers in this Kingdom who are professedly in his Interests*" (sef y *Pretender* neu'r *French King*, neu'r ddau). Pwy ond y Toriaid, siwr iawn ? Os llwyddodd y Toriaid eithafol i wthio'r mesur

[1]Dim ond *tair* gwaith y gwelodd y fforeiniwr hwn yn dda ddod i lawr i Dŷ'r Arglwyddi i fotio. Dod i wrthwynebu'r mesur Sism oedd un ohonynt.

drwodd, mynnodd y Whigiaid a'r Toriaid cymedrol wneyd y Ddeddf yn drostan i'w crogi arni. Neu os mynnwch, arlwyo bord yng ngwydd eu gwrthwynebwyr. Yn y fan yma rhaid gohirio achos y *Pretender* tan y bennod nesaf.

Gŵr hirben a chyfrwys oedd y gŵr a gylymodd y saith pennau. Sylwch ar y ddau baragraff Gwyddelig, y perigl a bregethir o bydd gallu'r Pabyddion yn cyfateb i'w nifer, y pwys a osodir ar y *Protestant* Dissenters. Ni fu'r teimlad gwrth-Babyddol erioed yn gryfach yn y wlad hon nag ym mlynyddau olaf y Frenhines Ann. Gafaelodd protestwyr 1714 yn y teimlad hwn gyda phob gewyn oedd ganddynt. A chan na syrthiodd i'n rhan yn y gwaith presennol i ddywedyd dim am Biwritaniaid yr Ynys Werdd, priodol a fydd cadw llygad agored iawn ar y seithfed pen a'r paragraff sydd yn ei gynffon.

Dyma'r brotest :

1. *We cannot apprehend (as the Bill recites) that great Danger may ensue from the Dissenters to the Church and State ;*

Because,

1. *By Law, no Dissenter is capable of any Station, which can be supposed to render him dangerous.*
2. *And since the several Sects of Dissenters differ from each other as much as they do from the Established Church, they can never form of themselves a National Church, nor have they any Temptation to set up any one Sect among them : For in that Case, all that the other Sects can expect is only a Toleration, which they already enjoy by the Indulgence of the*

State ; and therefore 'tis their interest to support the Established Church against any other Sect that would attempt to destroy it.

2[2]. *If nevertheless the Dissenters were dangerous, Severity is not so proper and effectual a method to reduce them to the Church as a charitable Indulgence ; as is manifest by Experience, there having been more Dissenters reconciled to the Church since the Act of Toleration, than in all the Time from the Act of Uniformity to the Time of the said Act of Toleration, and there is scarce one considerable Family in England in Communion with the Dissenters : Severity may make Men Hypocrites, but not Converts.*

3. *If Severity could be supposed ever to be of Use, yet this is not a proper Time for it, while we are threatened with much greater Dangers to our Church and Nation, against which the Protestant Dissenters have joined, and are still willing to join with us in our Defence ; and therefore we should not drive them from us by enforcing the Laws against them, in a Matter which, of all others, must most sensibly grieve them, viz., the Education of their Children, which reduces them to the Necessity either of breeding them in a Way which they do not approve, or leaving them without Instruction.*

4. *This must be the more grievous to the Dissenters, because it was little expected from the Members of the Established Church, after so favourable an Indulgence to them, as the Act of Toleration, and the repeated Declarations and Professions from the Throne, and former Parliaments, against all Persecution, which is the peculiar Badge of the Roman Church, which avows and practises this Doctrine ; and yet this has not been retaliated even upon Papists, for all the Laws made against them have been the Effect and just Punishment of the Treasons from time to time committed against the*

---

[2]Anghofiwyd rhoi'r 2 yma yn ei le priodol yn *Journals* Ty'r Arglwyddi (xix, 717). Ceir ef yn arg. 1754 o'r *Protests* (i, 170, camarg. 270).

State : But it is not pretended that this Bill is designed as a Punishment of any Crime which the Protestant Dissenters have been guilty of against the Civil Government, or that they are disaffected to the Protestant Succession, as by Law established : for in this their Zeal is very conspicuous.

5. *In all the Instances of making Laws, or of a rigid Execution of the Laws against Dissenters, it is very remarkable that the Design was to weaken the Church, and to drive them into one common Interest with the Papists and to join them in Measures tending to the Destruction of it : These were the Measures suggested by Popish Counsels, to prepare them for the two successive Declarations in the time of King Charles II and the following one issued by King James II to ruin all our Civil and Religious Rights;*[3] *and we cannot think that the Arts and Contrivances of the Papists to subvert our Church are proper means to preserve it, especially at a Time when we are in more danger of Popery than ever by the Designs of the Pretender, supported by the mighty Power of the French King, who is engaged to extirpate our Religion, and by great Numbers in this Kingdom, who are professedly in his Interests.*

6. *But if the Dissenters should not be provoked by this Severity to concur in the Destruction of their Country and the Protestant Religion, yet we may justly fear they may be driven, by this Bill, from England, to the great Prejudice of our Manufacturers ; for as we gained them by the Persecutions abroad, so we may lose them by the like Proceedings at home.*

7. *Lastly, the Miseries we apprehend here are greatly enhanced by extending this Bill to Ireland, where the Consequences of it may be fatal ; for since the number of Papists in that Kingdom for exceeds all the Protestant of all Denominations together, and that the Dissenters are to be treated as Enemies, or at least, as Persons*

---

[3]Declarasiynau Rhagfyr 1662 a Mawrth 1672 (Siarl II); Ebrill 1687 (Iago'r Ail). Peth rhyfedd na fuasent yn dywedyd gair am Ddeclarasiwn Ebrill 1688.

dangerous to that Church and State, who have always in all times joined, and would still join with the Members of that Church in their common Defence against the common Enemy of their Religion ; and since the Army there is much reduced, the Protestants, thus unnecessarily divided, seem to us to be exposed to the Danger of another Massacre, and the Protestant Religion in danger of being extirpated.

And we may further fear that the Scotch in Britain, whose national Church is Presbyterian, will not so heartily and so zealously join with us in our Defence, when they see those of the same Nation, the same Blood, and the same Religion, so hardly treated by us.

And this will still be more grievous to the Protestant Dissenters in Ireland, because whilst the Popish Priests are register'd, and so indulged by Law as that they exercise their Religion without Molestation, the Dissenters are so far from enjoying the like Toleration, that the Laws are, by this Bill, enforced against them.

A dyma enwau'r protestwyr, yn y drefn yr ysgrifennasant hwy i lawr :

TORRINGTON.
DORCHESTER. SOMERSET.
BOLTON. DORSET & MIDDLESEX.[4]
T. WHARTON.
GRAFTON.
DEVONSHIRE. TOWNSHEND. CARLISLE.
SCARBROUGH. SUNDERLAND.
DERBY. CORNWALLIS.
LINCOLN. ORFORD.
NOTTINGHAM.
RADNOR. SOMERS.
ROCKINGHAM.
HAVERSHAM.
W. LINCOLN. J. ELY. JO. BANGOR.
FOLEY.
W. ASAPH. JO. LANDAFF.

[4]Un Arglwydd, dau deitl.

SCHOMBERG & LEINSTER.[5]
MONTAGU.
DE LONGUEVILLE.
HALIFAX.
COWPER. GREENWICH.

[5]Arglwydd arall, Duc yn wir, a dau deitl iddo.

XIII

Addolwyr Iago.

Yr oedd pwerau mor nerthol oddimewn i Ymneilltuaeth a chefnogwyr mor rymus o'r tu allan iddi, fel mai ofer oedd ceisio ei dymchwel mwy, na'i gwasgu i gongl. Yn niwedd gyrfa'r Frenhines Ann, serch hynny, bygythiai cymylau pygddu ddylifo ystorm ar bennau Ymneilltuwyr a phob Protestant arall yn y wlad: dyna'r rheswm i'r Dr. Daniel Williams, wrth eirio ei ewyllys yn 1711, arfer pob sgil gyfreithiol i gadw ei eiddo rhag syrthio i ddwylo Pabyddion pe deuent rywdro i lywio cyfreithiau'r wlad, yn enwedig rhag ofn i lys y Chancery o dan awdurdod Pabyddion gyfaddasu egwyddor y *cy-près* at yr incwm, a'i wyrdroi i'w pwrpas eu hunain.[1]

A oedd y fath berigl yn bod mewn gwirionedd? Oedd. Os digwyddai i'r Frenhines gael bywyd hir, ac os llwyddai Bolingbroke i gadw ei le fel prif weinidog y Goron, ofnai'r Ymneilltuwyr a'r Whigiaid mai Pabydd a fyddai'r brenin nesaf, neb amgen na Iago Stuart, hanner brawd y Frenhines. Er bod yr *Act of Settlement* (1701) wedi sicrhau'n sicr iawn (ar bapur) pwy oedd i esgyn i'r orsedd ar farwolaeth Ann, nid oedd yr uchel-Doriaid fodlon ar y drefn: credent mai syniadau amwys ac

[1] W. D. Jeremy: *Presbyterian Fund*, tt. 85–86.

annelwig William III oedd syniadau teulu Hanover ynghylch yr Eglwys wir Gatholig yn Lloegr; ofnent mai parchu'r Goddefiad fai eu polisi, a throi cilwg ar adrannau llymion Deddf Sism. Gwell ganddynt Babydd a dywysid gan Doriaid na Phrotestant o dan iau y Whigs. Onid Addison a roddodd y frawddeg grafog honno yng ngenau un ohonynt—"*the Church of England will always be in danger till it has a Popish king for its defender.*" ?[2] Bolingbroke am anwybyddu deddf 1701. Harley yn ormod o Brotestant i ddywedyd ie yn groew gydag ef. Am ryw gyfnod o amser, heb os nac onibai, gwenai'r Frenhines ar y syniad mai ei brawd a ddeuai yn ei lle, ac nid estron Germanaidd o gyfnither neu gyfyrder iddi; y mae'n ffaith na wahoddwyd neb o deulu Hanover i ymweled â'r wlad hon yn ystod ei bywyd hi.

Addolwyr Iago—yr hen Iago'r Ail hyd 1701, yr Iago ieuanc o hynny ymlaen—yw y term Cymraeg am y *Jacobites*. Neidiai pob Nonjuror i gerbyd Iago; ni allai lai o safbwynt egwyddor. Ond tra'r oedd pob *Jacobite* yn uchel-Eglwyswr, nid oedd pob uchel-Eglwyswr yn *Jacobite*. Ymswyno rhag popeth Iagoaidd a wnai Burnet a'r blaid Latitudinaraidd. Am Doriaid cyffredin y Senedd, graddol iawn yr argyhoeddwyd hwy mai oddiwrth y Pabydd Iago y deuai eu cadernid a'u hiechydwriaeth; yn 1701 mynnodd un ohonynt,

[2]Dyfyniad o *Atterbury* gan Canon Beeching (t. 263).

John Howe ffraethlym o Gaerloew, gelyn mawr yr achlysurwyr—mynnodd ef fynd a gŵr o'r enw Prinn i lys y *King's Bench* am i Prinn feiddio taeru bod Howe yn dymuno'n dda i Iago ac am ddod a Phabyddiaeth yn grefydd y wlad.[3] Erbyn haf 1714 yr oedd mwyafrif mawr y Toriaid yn rhwyfo yng nghwch Bolingbroke. Dim ond lleiafrif bychan o'r blaid a lysenwid yn *Hanoverian Tories*. Pa ryfedd bod llawer o Ddissenters dinas Llundain ar y Sul cyntaf o Awst wedi troi'r pregethu yn gyrddau diolchgarwch, nid yn gymaint am fod y Frenhines wedi marw, ond am fod ei thranc amserol wedi symud o'r ffordd ddau berigl ar unwaith—perigl y Protestant oddiwrth y Pabydd, a pherigl yr Ymneilltuwr oddiwrth Ddeddf Sism. Tybed a yw'n wir mai o bulpud yr Annibynnwr Thomas Bradbury yn Fetter Lane y cyhoeddwyd gyntaf y newydd bod Ann wedi marw a Siôr yn teyrnasu yn ei lle, a hynny am fod negeseuydd oddiwrth yr Esgob Burnet wedi gwneuthur arwydd dirgel arno, sef gollwng hancas poced i lawr oddiar oriel y capel?[4] Anhawdd credu hyn ar yr olwg gyntaf. Ond os bu'r esgob garediced yn 1702 a chael ymgom a Chalamy am awr a hanner yn ei dŷ yn

---

[3]Mich., 1 Anne, K.B. (2 Salkeld, 694–695). Ar t. 54 y soniasom am yr Howe yma o'r blaen.

[4]*Cong. Hist. Soc. Trans.*, iv, 339; Foxcroft: *Life of Burnet*, 469–470. Nid yw Miss Foxcroft yn mynd mor bell a dywedyd mai Bradbury oedd y *cyntaf* i gyhoeddi'r newydd.

Salisbury, a gwrando ar yr un Calamy yn 1703 yn dadlau dadl yr achlysurwyr ym mhalas St. James, paham lai na gwneyd arwydd ar Bradbury yn 1714, ac yntau yn gyfwng mor bwysig yn hanes y wlad?

Ochr yn ochr â'r amrywiaeth barn ymhlith Toriaid (yr oedd byd o wahaniaeth rhwng Nottingham a Bolingbroke) ac ymhlith Eglwyswyr (yr oedd mwy fyth o wahaniaeth rhwng Burnet ac Atterbury) ynghylch y priodoldeb o alw Iago i'r orsedd, ceid rhai trefi yn fwy Iagoaidd na'i gilydd, rhai siroedd cyfain ymron fel pe wedi eu hargyhoeddi o gysegredigrwydd gwaed Iago bach (er mai Eidales ronc oedd ei fam). Cariad mawr tuag ato yn swydd Lancs. yn Lloegr, yn siroedd Mynwy a Fflint yng Nghymru, oherwydd y lluoedd Pabyddion oedd ynddynt ill tair, disgyblion a disgynyddion yr hen Gatholiciaeth nad oedd erioed wedi marw (yn wir, pan anfonodd yr hen Iago nifer o lythyrau o'r Iwerddon yn 1689 at ei gyfeillion yn Lloegr, naturiol iawn oedd i'r awdurdodau ddod o hyd iddynt—y bobl a'u dygent a'r allwedd i'w hystyr—mewn ogof ar lan môr Fflint, yng ngwlad ffynnon Gwenffrewi a'r Mostyniaid Pabyddol[5]) A chau allan y siroedd lle'r oedd y Pabyddion yn gryf, dwy sir Jacobaidd iawn oedd

[5]W. C. Braithwaite: *Second Period of Quakerism*, t. 161.

Caerlleon[6] a'r Amwythig : dim ond edrych eto ar restri'r Nonjurors gan Kettlewell (a'u cymharu gyda rhestr Bowles), fe welwch fod 32 o glerigwyr wedi myned allan o'r eglwys yn y sir gyntaf a saith yn yr ail ; ac fe gofiwch am Oronwy Owen, mewn llythyr o Donnington at William Morris, wrth ddilorni'r Boycott cybyddlyd hwnnw, yn ei alw yn un o "addolwyr Iago" (a hynny yn 1753, pan oedd pob gobaith i Iago lwyddo wedi hen ddiflannu).[7] Dim mymryn gwell na'r Nonjurors oedd rheithor Whittington yn yr un sir, Thomas Adams wrth ei enw, awdur nifer o bregethau eithafol Eglwysig o flaen pennaethiaid Prifysgol Rhydychen, pregethau ag y bu'r Dr. Henry Sacheverell garediced a'u golygu iddo. Pwy oedd hwnnw ? Cawn weled yn y paragraff nesaf.

Yn 1710 cafwyd prawf goleu iawn o deimladau gor-Doriaidd ac uchel-Eglwysig gwlad Amwythig pan ddaeth y Dr. Henry Sacheverell hwn ar daith rwysgfawr o Lundain i Selattyn.[8] Gŵr yn tarddu o gyff Ymneilltuol oedd hwn eto : cafodd ei daid a dau o frodyr ei daid eu troi allan o'r Eglwys Wladol yn 1662. Tyfu'n Eglwyswr mawr a

[6]A llawn dig at Ymneilltuaeth (am enghraifft o hynny yn 1692, gwêl Alex. Gordon : *Cheshire Classis*, t. 9 (Great Budworth)).

[7]*Letters* (gol. J. H. Davies), t. 43. Llythyr dyddiedig 24 Chwef.

[8]"*In North Wales*," medd Burnet (*Hist. Own Time*, vi, 9). Nid yw Selattyn yng Nghymru, ond y mae ar y goror, ac yn esgobaeth Llanelwy.

wnaeth yr ŵyr, digon eofn yn ei bregethau i ymosod ar drefn y Chwildroad, ar Ddeddf Goddefiad, ar yr ysgolion Ymneilltuol (wrth gwrs), ac ar y perigl i'r Eglwys oddiwrth y gweinidogion Whigaidd oedd ar y pryd yn brif bennau llywodraeth y wlad. Y canlyniad fu i'r Whigs gylymu pen ei holl bechodau a'i ddwyn i sefyll ei brawf yn Nhy'r Arglwyddi yn nechreu 1710 (*impeachment*). Cafwyd ef yn euog, ond nid oedd y gosb yn werth sôn amdani. Gweddnewidiwyd y gosb fach yn fuddugoliaeth fawr gan y Toriaid, a daeth Sacheverell dros dro yn ben arwr y blaid. Pentyrrid caredigrwydd arno : cyflwynodd un o'i hen ddisgyblion, Robert Lloyd o Aston yn sir Amwythig, fywoliaeth Selattyn[9] iddo, honno'n werth oddeutu £200 y flwyddyn. Ym mis Gorffennaf daeth Sacheverell i lawr am dro i Selattyn, er mwyn rhoddi cyfle i'r Eglwyswyr a'r Toriaid Jacobyddol wneyd yn fawr ohono. Fe ddywedir nad oedd dim llai na hanner can mil o bobl yn ei gyfarfod yn nhre'r Amwythig yn unig, prif deuluoedd y Goror yn eu plith. Ymdeithiai saith mil gydag ef i dre' Bridgnorth.[10]

---

[9]Yn yr eglwys hon y priodwyd Goronwy Owen yn 1747 gyda'r " Elin rywiog olau " (*Letters*, gol. J. H. Davies, App. III, 206).

[10]Os am ymdriniaeth lawn a diddorol ar y Dr. Sacheverell a'r wbwb boliticaidd a llenyddol a gynhyrfwyd ganddo, gwêl *History of Selattyn Parish* gan yr Anrh. Mrs. Bulkeley Owen, tt. 344–376.

Yr oedd Eglwyswyr Gwrecsam wedi dathlu buddugoliaeth Sacheverell fisoedd ynghynt, a thrwy hynny brofi bod Nonjuriaeth Caerlleon ac Iagoaeth Amwythig wedi tywallt yn lli' dros wastadeddau Maelor. Ar y 23 o Fawrth, 1710, y cyhoeddwyd y ddedfryd ysgafn ar y Doctor. Yr oedd y newydd wedi cyrraedd i Wrecsam ar y 24. Tarawyd ar ffordd effeithiol iawn i gyhoeddi'r peth i'r wlad oddeutu : cynneu coelcerthi o dân, ffurfio gorymdaith (gyda dyn y drwm ar y blaen) at dai prif Ddissenters y lle, torri ffenestri'r rheini a ffenestri'r ddau dŷ cwrdd Ymneilltuol. Ai tybed mai gof barus o Wrecsam oedd y Robert William hwnnw a darawodd yr englyn yma oddiar ei eingion ? Dyma fo[11] :

Angel y Shiewrel ag sydd, yn gadarn
Gida'r wir grefydd,
Llafurwr da'r lleferydd,
Piler ffast rhag pylu'r ffydd.

Pa un a oedd ef ym mhlith y cynhyrfwyr ai peidio, gwnaethant ymgais i dorri i mewn i un tŷ (nid torri'r ffenestri yn unig), ond methasant. Waethaf y modd iddynt, pwy ddaeth yno ar ei dwrn fel Prif Farnwr Caer ond y Barnwr Jekyll, yr un Jekyll ag oedd i ridyllio bil Sism yn 1714. Whig mawr, yn ffieiddio Sacheverell, ac yn cashau pob tuedd i wneud arwr ohono. Cafodd allan fod

[11] *N.L.W. Add. MS.* 436 B, t. 83. "*Robert William y gof*" sydd odditano.

ynadon Wrecsam wedi rhyw gil-agor eu llygaid, a neb wedi dod i'r ddalfa ; mynnodd y Barnwr anfon allan warantau yn ei enw ei hun, gan orchymyn y Siryf a'r *high constable* i gyflawni eu dyletswyddau. Torrodd y cythrwfl allan yr eiltro a'r trydydd. Gwasgarwyd y penboethiaid, ac aed drwy'r chwarae bach o ddal un ohonynt fel bwch dihangol, ei brofi'n ddieuog, a'i ollwng yn rhydd drachefn. Hyn i gyd o dan drwyn y Barnwr ! Hoffai Jekyll yn ei afiaith Whigaidd fedru profi'r arweinwyr yn euog o deyrnfradwriaeth—"*if I would have gained any Information that any of the Offenders were seen to offer violence to more than one house* (*which might have been an Evidence of a generall design*), *the Offence might have been high Treason, but none could prove that.*" Gallwn fentro credu bod y Barnwr o Lundain yn hyddysg ddigon yn y gyfraith. Cystal inni gyfaddef bod gan Jacobitiaid Gwrecsam grap go dda arni hefyd.

Nid oedd amheuaeth ym meddwl Jekyll nad yr offeiriaid lleol oedd wrth wraidd y drwg : o'r holl bregethau a bregethwyd o'i flaen fel Barnwr, dim ond un oedd yn rhydd oddiwrth sôn mewn brawddegau gochelgar gofalus am beryglon yr Eglwys ar law atheistiaid a Dissenters, a hynny, cofier, yng nghlustiau Barnwr a fuasai yn ddisgybl yn academi Ymneilltuol Islington. Y mae'n llawdrwm iawn ar haerllugrwydd Mr. Jones y ciwrad. Gair da sydd ganddo i'r ficer ; ymddangosai hwnnw'n fawr ei bryder fod y fath

gythrwfl wedi digwydd, "*and . . . expresst a great concern for the ill behaviour of his Curate.*"[12] Beth a ddywedodd Jekyll, os daeth y newydd erioed i'w glyw, fod y ficer pryderus hwnnw wedi gorfod ymado â'r Eglwys yn 1715, ac wedi ymuno â rhengau'r Nonjurors?[13] Beth a ddywedodd y Barnwr pan daflwyd allan y cyhuddiadau yn erbyn pregeth y ciwrad gan y *Grand Jury*, ac yntau wedi clywed yr ymadroddion peryglus a'i glustiau ei hun?[14] Gan i'r Toriaid ddod i awdurdod mewn ychydig flynyddoedd, y mae'n debig fod mwy o orfoledd yng Ngwrecsam ar ddiwedd y flwyddyn nac hyd yn oed ar ei dechreu. A dyma'r dre' y bu Walter Cradoc yn pregethu ynddi, a Morgan Llwyd, a John Evans, a James Owen!

Bu i ryddhad Sacheverell roddi gwynt rhyfedd yn hwyliau'r Eglwyswyr ym mhob rhan o'r wlad, Lloegr a Chymru, Gwrecsam a Chonwy. Pan oedd dau esgob Protestanaidd o'r Iwerddon ar eu taith adre' yno drwy Ogledd Cymru ym mis Medi 1710 tyrrai gwerin y wlad i dalu gwrogaeth iddynt. "*I observed every where that people shewed more respect to our Order than ever I saw*

[12]Ar y pedwerydd o Ebrill, 1710, ysgrifennodd Jekyll lythyr o Wrecsam at un o'r Arglwyddi Whigaidd, llythyr a roddai hanes pur gyflawn o'r hyn a welodd ac a glywodd yn y dref honno (*P.R.O., State Pap. Dom.*, Anne, bundle 16, No. 44).

[13]*Trans. Hon. Soc. Cymmrodorion*, 1904–1905, t. 139. John Price oedd ei enw.

[14]*D.N.B.*, xxix, 287.

y^m doe before." Syrthiai poblach ar eu gliniau i ofyn bendith ganddynt ; yng Nghonwy daeth dros ddeucant o'r cyfryw i lety'r ddau esgob er mwyn derbyn deheulaw cymdeithas a rhin cyfrin yr apostolion Anglicanaidd o'r Iwerddon. Cododd y llanw eglwysig yn uchel iawn yn sir Fôn, y sir salaf ei Phiwritaniaeth yng Nghymru : yn 1710 gwnaed llw ym Meaumaris gan *Grand Jury* y sir honno, nid i amddiffyn bywyd y Frenhines rhag cynllwyn Pabyddion, ond i beidio â dal unrhyw gymundeb â'r Dissenters—"*not to deal or to have any commerce with them.*"[15] Mewn gwirionedd, nid oedd yno nemor Ddissenter i ddal cymundeb ag ef (dim un o gwbl yn nechreu 1705, meddai Arglwydd Bulkeley[16]). Nid oedd Bwrdd Presbyteraidd Llundain, er cyfoethoced ydoedd, wedi anfon un cenhadwr i Fôn eto. Ddeng mlynedd cyn y flwyddyn 1710, talai ddeg punt i frawd am bregethu yn nhre' Caernarfon "*in Wales near the County of Anglesey.*"[17] Bu raid aros yn ymyl pum mlynedd a deugain ar ôl 1700 cyn agor drws Caeaumôn i Siencyn Morgan.

Cafodd addolwyr Iago amser braf i wneyd drygau adeg marw'r Frenhines yn 1714 a chyhoeddi

[15] *MS. Ballard* 8 (Bodl.), ff. 80–80^v (llythyr, dyddiedig 20 Medi, oddiwrth Esgob Killaloe at Dr. Arthur Charlett, Prifathro Coleg University, Rhydychen. Yng Nghaergybi yr ysgrifennwyd ef).

[16] *Anglesey Antiq. Soc. Trans.*, 1924, t. 86.

[17] *Minutes Presb. Board*, ii, f. 38. Ar y pumed o Chwef. 1699–1700, y rhoddwyd y gorchymyn i'w talu.

Siôr yn frenin yn ei lle. Ddydd coroni'r brenin newydd (Hydref 20) bu tipyn o gythrwfl yn Tewkesbury : daeth tyrfa wallgof at dŷ academi Samuel Jones, ac am flynyddau wedyn dangosid ôl min eu bwyeill ar ddrws derw oedd mewn un ochr i'r adeilad.[18] Cafodd yr Iagoaid gyfle ardderchog drachefn pan fu etholiad cyffredinol ddechreu'r flwyddyn 1715. Bu'r fath sŵn a chynwrf mewn rhai mannau fel y penderfynodd y Senedd newydd basio'r *Riot Act*—y *Riot Act* sydd hyd heddiw yn aros ar ddeddf-lyfrau'r wlad.

Dyma ni'n ôl yng Ngwrecsam chwap. Yr oedd si a sibrwd drwy haf 1715 y byddai Iago ei hun yn glanio cyn bo hir. Yr oedd hynny'n ddigon i Iagoaid y dref ddangos eu hochr, eu hanwybodaeth, a'u sêl anghall. Ddydd Sadwrn, y 16 o Orffennaf, gwnaethant ddifrod mawr ar y ddau dŷ cwrdd Ymneilltuol, y Newydd (Presbyteriaid) oedd dan ofal John Kenrick, a'r Hen (Annibynwyr a Bedyddwyr) oedd newydd alw John Williams i fod yn weinidog yno. Ar ddydd Sabath y 17 o Orffennaf, gorfu i'r ddau weinidog adael y ddau gapel, a phregethu gyda'i gilydd mewn tŷ preifat. Fore Llun wele'r mwnwyr glô o'r gymdogaeth (nid o'r Rhos, tybed?) yn dod i'r dre' "*to assist and protect the rioters*" ; llwyddodd un o hynafiaid Syr Watcyn i'w darbwyllo i ddychwelyd adref ; ond gyda'r nos dyma bobl y

[18] *Cong. Hist. Soc. Trans.*, v, 77–78.

dref yn ail-ymosod ar y ddau dŷ cwrdd, gan dynnu'r tô i ffwrdd oddiar y Capel Newydd, torri'r coed, a dinistrio fframiau'r ffenestri a'r drysau. Awst 1 a ddaeth, pen blwydd dyfodiad Siôr i'r orsedd—ni chanwyd yr un gloch yng Ngwrecsam, ni chynneuwyd yr un goelcerth. Daeth Hydref 20 yn ei dro yntau, pen blwydd y coroniad—canwyd ychydig ar y clychau, ond y prif waith oedd torri ffenestri tai'r Dissenters, ffustio drws y tŷ cwrdd, a chanu caneuon anheyrngar. A phan gyrhaeddodd y newyddion da fod pobl Iago wedi eu trechu yn Preston a Sheriffmuir, tawelwch fel y bedd yng Ngwrecsam. Ni lonyddodd y dyfroedd hyd yn oed yn 1716: canu'r clychau drwy'r dydd ar y 29 o Fai, diwrnod mawr cofio adferiad Siarl II i'r orsedd yn 1660; ar y 10 o Fehefin, dydd pen blwydd Iago ei hun, dechreu gyda'r clychau am wyth yn y bore, a dal ati hyd nos, pawb o'i addolwyr yn gwisgo pluf a dail derw yn eu hetiau.[19] Pwy feddyliai mai Gwrecsam, pencadlys dirprwywyr Deddf y Taeniad yng Ngogledd Cymru, a fuasai ar y blaen yn moli Sacheverell, torri tai cyrddau, addoli rhempyn o Babydd ystyfnig fel Iago Fychan? Dyna'r gwir noeth megis yr ategir ef gan y Barnwr Jekyll a'r pregethwr John Kenrick.

---

[19]Yr awdurdod dros ffeithiau'r paragraff hwn yw A. N. Palmer: *Hist. of the Older Nonconformity of Wrexham*, tt. 63-64 (dyfyniadau o *Note Book* y Parch. John Kenrick).

Yn ystod 1715 bu'r Iagoaid wrthi yn prysur ddifrodi tai cyrddau'r Dissenters ledled y wlad, yn fwyaf enwedig yn swyddi Lancs. a Chaer, sir Amwythig a'r Gororau. Pur dawel, ar y cyfan, a fu pethau yn Ne Cymru a siroedd de-orllewin Lloegr.[20] Da cofnodi i bob capel a dorrwyd gael ei ail-godi ar draul y Llywodraeth, ac i berchenogion y tai a faluriwyd dderbyn iawn cyflawn am y niwed a wnaethpwyd iddynt. Er enghraifft, cafodd awdurdodau capel Eliezer Birch ym Manchester *grant* o £1,500 at ei ail-adeiladu.[21] Tebig mai tua 1715, ac nid yn 1712[22], y llosgwyd capel Llanfyllin i'r llawr. Ar garreg goffa yno, sonnir am ail-godi'r capel yn 1717 ar draul y Llywodraeth. Fel clô i'r hanes, dyfynnir y geiriau tarawiadol :

Uno avulso, non deficit alter.[23]

---

[20] "*Men make their reports here according to their fancies and Inclinations,*" oedd geiriau Francis Davies o Landâf at y Canghellor Beaw ar 17 Rhagfyr, 1715 (*Rawlinson Letters* 97, f. 19).

[21] Alex. Gordon : *Cheshire Classis*, t. 158.

[22] *Hanes Egl. Ann.*, i, 260–261.

[23] *ib.*, *ib.*, 262.

XIV

Pleidwyr Sior.

Gwell troi dalen. Gŵr genedigol o Wrecsam, brawd i wraig y tŷ y bu'r ddau bregethwr yn llechu ynddo yn ystod y *riots*, gŵr a wnaeth gymwynasau fil i achos Ymneilltuaeth yn ei fywyd a thrwy ei gymunroddion—y Dr. Daniel Williams—ef a gafodd yr anrhydedd o arwain cynrychiolwyr y Tri Enwad i wyddfod Siôr I yn 1714 er mwyn diolch iddo am ddod a goleuni o dywyllwch (a gwneyd amryw o adrannau gwrth-Babyddol ewyllys y Doctor yn ddiangenrhaid).[1] Dilynwyd Siôr I gan dri Siôr arall. Beth bynnag oedd eu gwendidau—ac yr oedd iddynt lawer—ni fynnent ymyryd â breintiau'r Goddefiad na gwyrdroi datblygiadau anorfod yr egwyddor o gydraddoldeb crefyddol.

Naturiol iawn oedd i Ddissenters y wlad ddangos parch a theyrngarwch iddynt. Daw y teimladau hyn i'r golwg mewn ffyrdd pur wahanol. Soniasom yn barod am ddiolch cyhoeddus y Dr. Daniel Williams a'i gymrodyr. Ar y ddalen wen o flaen un o bregethau Vavasor Powell (y *Christ Exalted*) y dymuna John Landeck fendith ar Siôr I "*and all his men*"—efallai mai'r un gŵr

[1] Yn 1711 y trefnwyd yr ewyllys; ar 22 Awst, 1712, yr arwyddwyd yr atodiad iddi; ond bu'r Doctor byw hyd 26 Ion., 1716.

oedd ef a'r John Llandegg hwnnw o Forgannwg a ysgrifenasai ei enw ar yr *Association Oath Roll* yn 1696, i ddymuno cadw'r Protestant William III yn fyw rhag llid ei elynion Pabyddol. Flynyddau wedi hyn, yn 1745, torrodd John Daniel ei enw ar ddechreu copi Saesneg o waith Hugo Grotius ar y Wir Grefydd Gristnogol, a chyda hynny ddymuniad pendant y byddai pleidwyr yr ail Siôr yn llwyddo yn erbyn pobl y Tywysog Charlie, ŵyr yr ail Iago a mab y trydydd. Da cofio mai ar Feiblau a llyfrau pregethau y byddai duwiolion yr oes honno yn cofnodi eu pethau pwysicaf—dydd eu priodi, arian oedd yn ddyledus iddynt, eu hargyhoeddiadau politicaidd. Tebig, felly, mai Whigiaid mawr oedd John Landeck a John Daniel. Profion go sownd, hefyd, mai Ymneilltuwyr selog oedd y ddau.[3]

Gŵyr pob Bedyddiwr goleuedig am gymanfaoedd y cyfnod, yn enwedig y rheini a gynhaliwyd rhwng Cymanfa Llanwenarth 1716 a Chymanfa Llanwenarth 1723, y llythyrau a anfonwyd ohonynt, y sôn mynych am y "deliverance" a ddaeth drwy Siôr I, a'r cyfarfodydd diolchgarwch y gorchymynnid eu cadw. A chyda llaw, nid ar y Sul cyntaf o Awst bob blwyddyn yr oedd y diolch i fod, ond ar y Mercher cyntaf ymhob mis

[2] *Bulletin Board of Celtic Studies*, Mai 1926, t. 142.

[3] Gellir gweled ysgrif y ddau yn Llyfrgell Gymraeg Coleg y Gogledd.

yn ogystal.[4] Nid oes ddadl am orfoledd enwad y Bedyddwyr, mor fyw oeddynt i lawn arwyddocad marw'r Frenhines Ann. Ac aeth pregethwr Annibynnol o Sir Fynwy mor bell a rhoddi'r enw *Hanover* ar gapel a godwyd ganddo yn 1744.[5] Pa un ai ar ddalen pregeth Vavasoraidd, neu ar glawr traethawd ar Wir Grefydd, neu wrth enwi enw capel, pa un ai dirprwyaeth o wŷr mawr yn y Brifddinas oedd yn siarad, ai cymanfa o bregethwyr syml yng Nghymru—pwysleisient i gyd ddiolchgarwch diffuant Ymneilltuwyr y wlad i Siôr I, a'u penderfyniad anorthrech i'w gadw ef a'i deulu ar yr orsedd.

Pur annoeth a fyddai meddwl mai neb ond Dissenters oedd yn llawn diolch. Beth am glerigwyr ysgol Burnet, ysgol Hoadley, ysgol Gibson? Beth am Whigiaid plaid Wharton a'r *Hanoverian Tories*? Clerigwr o Gymro a aeth mor eithafol a galw'r *Pretender* cyntaf (Iago'r Trydydd) yn

fradwr dyrys
Heb gantho fam na thad,

gan gyfeirio at ystori hyll ei eni ym Mehefin 1688.[6] Hyn yn 1716. Yn y flwyddyn cyn hon, blwyddyn gythryblus 1715, y sefydlwyd Cymdeithas aristocrataidd yr *Antient Britons*, gyda'r

[4] Joshua Thomas: *Hist. Bapt. Assocn.*, t. 38.

[5] Dyna farn Syr Joseph Bradney ar ystyr yr enw (*Hist. Mon.*, i, 395).

[6] *Journal Welsh Bibliographical Soc.*, Rhag. 1918, tt. 123–124.

amcan deublyg i ddangos eu sêl dros deulu Hanover a darpar addysg i blant rhieni Cymreig y Brifddinas.[7] O'r mudiad hwn, ymhen y rhawg, y tyfodd Ysgol Merched Ashford. Hyd heddiw, rhaid i dad neu fam merch yn Ysgol Ashford fod yn hannu o Gymru neu Fynwy, neu o blwyfi Selattyn, Croesoswallt, neu Lanymynech. Yn rhyfedd ddigon, dyna'r plwyfi y bu'r teimlad Shriefelaidd (ag arfer Cymreigiad Robert William y gof) unwaith mor wresog, ac y telid gynt gymaint parch i'r ddau Iago. Un o'r cyd-ddigwyddiadau rhamantus rheini ag sydd yn torri ar draws gwyddoniaeth beiriannol hanes, ac yn cyhoeddi naw wfft uwchben y syniad plentynaidd nad yw datblygiadau oes newydd yn ddim ond ailadroddiad o ffeithiau'r hen.

Deil un axiom henafol yn ffres ei phregeth ynghanol miri pob datblygiad : unwaith y tywynna haul ar fryn ar ôl ystorm, fe raddol ddatgloir rhwymau'r undeb cedd mor angenrheidiol yn y dyddiau tywyll. Diffydd y tân a oleuid yn ffiam gysegredig gan wynt erlidigaeth. Hyd i Siôr I orffen teyrnasu, daliai Bedyddwyr y wlad i gofio amdano ar y Sul cyntaf o Awst ac ar y Mercher cyntaf ymhob mis *am yr hanner cyntaf o'r flwyddyn. Am yr hanner arall*, cyhoeddai awdurdodau Cymanfa'r Blaenau yn 1724, y dylid drwy weddi ac ympryd gofio am yr anghydfod blin yn

[7] Sir Thomas Jones : *The Rise and Progress . . . Society of Antient Britons* (1717), tt. 1–77.

Rhydwilym, a dymuno ar i Dduw gyfryngu rhwng John Jenkins a Dafydd James.[8] A byddai'n syn gan Dr. Daniel Williams y Presbyteriad feddwl fod y syniadau rhyddfrydig ar bwnc astrus yr Etholedigaeth a goleddid, gyhoeddid, ganddo ef a'i ysgol yn myned i wneyd peth rhyfedd mwy o ddifrod yng ngwersyll Presbyteriaeth Dê Prydain nag a wnaed gan ddeddfau Clarendon a deng mlynedd ar hugain o erlidigaeth. Nid oddiwrth Babyddiaeth filwriaethus y ddau *Bretender* Ffrengig y deuai perigl i hen safonau crêd, ond o'r rhyddid meddwl a'r rhysedd syniadau a gaffent ddaear fras i dyfu ym mywyd digyffro y ddau Siôr cyntaf.

Profedigaeth arall. Yng nghôl y trugareddau a syrthiodd i ran Ymneilltuwyr y wlad drwy farw Ann ac esgyniad Siôr, ac fel cynhysgaeth digon naturiol i'r teimladau caredig a goleddid gan y Dissenters at y Wladwriaeth newydd, dyma'r Dr. Edmund Calamy yn cael yn 1721 rodd o £500 gan y brenin—y *Regium Donum*—er budd a chymorth gweddwon gweinidogion ymadawedig. Codwyd y rhodd i £1,000, ac wedi hynny i £1,695. Anesmwyth iawn y gorffwysai'r caredigrwydd hwn ar feddwl Anghydffurfiol yr oes. O radd i radd fe dyfodd yr anesmwythyd gymaint fel yr ysgydwyd y *Donum* yn gyfangwbl ymaith yn oes Victoria. Cyffelybid ef i geffyl melltith y Groegiaid yn andwyo cadernid Caerdroia. Ac allan y câdd fyned.[9]

[8] Joshua Thomas: *Hist. Bapt. Assocn.*, t. 41.
[9] *Encycl. Brit.*, 11eg. arg., xxiii, 45.

Felly ni bu'r oruchwyliaeth newydd, gyda'i rhyddid a'i charedigrwydd, heb esgor yn ei thro ar anhawsderau fyrdd—clwyfau câs yn nhai carediglon, rhwydau dieithr i gydwybod, atgyfodi hen ddadleuon, gormod cyfeillgarwch â brenhinoedd a gwŷr mawr. A chlywid, yn Neheubarth Cymru yn hytrach na'r Gogledd, sŵn syniadau newyddion mewn athrawiaeth a threfn eglwysig yn dechreu aflonyddu ar eglwys a chymanfa, ar sefydliadau ac unigolion. Yn oes Siôr I, serch hynny, draw y trychai'r mellt, draw y trystiai'r daran. I ffansi fywiog Dyfnallt, sŵn adar ymfudol ydoedd yn croesi ar awr dawel canol nos.[10]

[10] *Hanes Eglwys Heol Awst* (1926), t. 17.

XV

5 *Geo. I, c. 4.*[1]

Drwy holl ffwdan y trawsgyweiriad politicaidd fe safodd Anghydffurfwyr y wlad yn stond tu cefn i Siôr a'i bleidwyr fel yr unig gyfrwng, drwy rad Duw, a gadwai draw y diluw Toriaidd ac Uchel-Eglwysig. Yn swydd Lancs. mynnodd dau weinidog ddwyn arfau i ymladd â phobl y Pretender yn 1715; talwyd diolch cyhoeddus i un gan y Cadfridog, a chafodd y llall y fraint o'i alw'n Gadfridog ei hun hyd ddydd ei farw.[2] Purion, felly, oedd i'r Llywodraeth Whigaidd dalu iawn i'r Dissenters am eu colledion, ac ail-godi'r tai cyrddau a ddrylliwyd gan orffwyll addolwyr Iago.

Gwell na hynny, fel y cyfeiriwyd yn barod, oedd claddu Deddf Sism ac ysigo pen y ddeddf honno yn erbyn yr achlysurwyr y bu'r Whigs ffoled a'i phasio yn 1711. Ddechreu'r flwyddyn 1719 llwyddodd Stanhope gael gan y Senedd ddywedyd nad oedd cymuno yn yr eglwys yn ystod y deuddeg mis cyn hynny yn anhebgorol mwyach er mwyn dewis unrhyw un i swydd ar gorfforaeth tref.[3] Llwyddodd y teimlad eglwysig, drwy'r cwbl, wthio i mewn ddwy adran go ddiflas, er mwyn cadw

---

[1] Dyma'r teitl arferol. Dylid dywedyd mai rhif 2 ydyw yn *Journals* Ty'r Arglwyddi (xxi, 74).

[2] Alex. Gordon: *Cheshire Classis*, tt. 209, 215.

[3] *Hist. Dissenting Deputies*, t. 202.

llawenydd Ymneilltuwyr y trefi rhag myned dros ben y llestri. Pe llwyddai clymblaid go niferus ar y gorfforaeth i ddiswyddo Ymneilltuwr a ddewisid felly, *o fewn chwe mis ar ôl ei ethol*, byddai raid i'r esgymundod aros—"*such election is not void* [fel y dywedai *Corporation Act* 1661] *but only voidable.*" Hefyd, nid oedd na maer na beili unrhyw gorfforaeth i fyned i unrhyw dŷ cwrdd ond un Eglwys Loegr yn ei wisg swyddogol [pechod mawr Syr Humphrey Edwin yn 1697]. Gorfu i'r Dissenters aros am dipyn rhagor cyn i Senedd o Eglwyswyr, hyd yn oed pe'n Whigiaid, fodloni agor drysau'r *corporations* i wrth-Eglwyswyr, h.y., eu hagor o led y pen ac o lwyrfryd calon.

Jôc fawr 1711 oedd saernïo crogbren i'r achlysurwyr a'i galw'n "*Act for preserving the Protestant Religion and quieting the minds* [of Dissenters]." Cystal jôc â honno oedd gwaith Whigiaid 1719 yn tynnu'r grogbren i lawr a galw'r gwaith yn "*Act for strengthening the Protestant Interest.*" Aeth y Whigs, mae'n debig, belled ag y gallent i gwrdd â'r Dissenters yn 1719. Hoffai Stanhope fynd ymhellach drwy ddiddymu'r *Test Act* a chyhoeddi fod swyddi'r fyddin a'r llynges yn rhydd iddynt. Nid oedd y Senedd yn addfed i hynny; bu gorfod aros am fwy na chanrif cyn diddymu'r *Test.* Ond er clafared oeddynt, ac mor swrth i symud, yr oedd y Whigs ganmil gwell na'r Toriaid. Cawsant gymorth cyson cywir pob Piwritan o bleidleisiwr: er eu mwyn hwy, ac er

mwyn profi dylanwad politicaidd y Dissenters, y dechreuodd y Dr. John Evans gasglu ei Ystadegau yn 1715. Dywetsom o'r blaen i'r Whigs ddal wrth lyw llywodraeth y wlad am fwy na hanner canrif ar ôl marw'r Frenhines Ann. Y mae'n werth ei ddweyd y fan hon eto.

Beth am adran ix yn Neddf 1711—saig felys yng nghanol danadl poethion—yr adran a roddai ryddid i bregethwr cofrestredig o dan y Goddefiad i bregethu mewn tai cofrestredig tu allan i'w Sir ei hun, a gafodd honno fyned dros y bwrdd gyda'r adrannau eraill? Na, bu Stanhope yn ofalus iawn i'w chadw i mewn. Yn wyneb hyn oll, nid oes angen dywedyd bod i'r flwyddyn 1719, 5 *Geo. I*, ei lle ei hun yn natblygiad asgwrn cefn Ymneilltuaeth. Uchel gyhoeddai fod y Goddefiad wedi dod i aros, wedi goroesi cynllwynion Atterbury a phenboethiaid Ty Isaf Confocasiwn, wedi achub plant yr ail genhedlaeth rhag bygythiadau gwag-philosoffaidd Bolingbroke. Drwy ddifodi Deddf Sism, dangosodd y Whigs eu bod am chwarae teg i ysgolion y Dissenters; drwy ad-drefnu Deddf 1711 addefasant fod gan y bobl y tu allan i'r Eglwys gystal hawl (ymron) i wasanaethu'r wlad a'r bobl oddimewn.

Nid oes berigl i'r flwyddyn 1719 golli coron ei gogoniant, canys cyduna'r chwilotwr sych a'r rhamantwr arwynebol i ganu ei chlodydd. Pa newydd wyrth a ddaw o ffansi ffri'r rhamantwr[4]?

[4] *Cong. Hist. Soc. Trans.*, vi, 205.

Dywedyd y mae am ddeddf a basiwyd yn 1852 (15 & 16 *Vict., cap.* 36) i orchymyn casglu ynghyd i *Somerset House* brofion o bob sir yn y wlad o bob tystysgrif a ganiatawyd o dan Ddeddf Goddefiad er y flwyddyn 1689, dywedyd nad oes trywydd yn *Somerset House* ar ddim un o'r tystysgrifau hyn cyn y flwyddyn 1719, nad oes sôn am dystysgrif o esgobaeth Caer cyn 1719, ac mai yn 1719 fyth y crybwyllir yn *Somerset House* am dystysgrifau cyntaf Morgannwg—tŷ i Grynwr yn Abertawe, tŷ'r Gilfach Isa' ym mhlwy' Gelligaer, tŷ Evan Davies yn Llangan, y ddau ddiweddaf hyn "*for Protestant Dissenters.*" Simsan aruthr yw sail yr efengyl yma. Beth am dystiolaeth *Somerset House* fod saith o dai wedi eu cofrestru i Grynwyr yn sir Drefaldwyn yn unig, a hynny rhwng 1708 a 1714, heb sôn am dŷ arall ym Mroniarth "*for Protestant Dissenters*" yn yr un sir, a hynny yn 1713? A chydnabod mai tawel yw'r croniclau yno am Forgannwg a Chaer cyn y flwyddyn 1719, a ydym i gredu bod Ymneilltuwyr y broydd hynny wedi aros am ddeng mlynedd ar hugain cyn myned ar gyfyl yr awdurdodau goruchel? Neu a oedd eu Piwritaniaeth hwy o uwch a manylach safonau na'r cyffredin, fel na fynnent ddod i wynt llys yr esgob nac ynadon Chwarter Sessiwn? Choelia i fawr.

Cam gwâg y ffug-resymu yma yw'r gred ffuantus fod *record* llawn yn *Somerset House* o bopeth a wnaed o dan Ddeddf Goddefiad o

1689 ymlaen. Ni ddaeth yr hanner, naddo, mo'r traean, o gofnodion y siroedd i fyny i Lundain yn ôl gorchymyn Deddf 1852. Anghofrwydd, diofalwch, peth gwrthnysigrwydd; gwaeth na'r cwbl, cofnodion wedi myned ar goll. A chyfrif y wlad i gyd, a chyfrif neb ond Crynwyr, cafodd y bobl hynny gofrestru dim llai na 239 o'u tai rhwng 1689 a diwedd 1691.[5] I ble'r aeth y rhan fwyaf o'u cofysgrifau hwy? Dywedir ar sail pur safadwy, fod mwy na mil o dai cyrddau Anghydffurfwyr yn Lloegr a Chymru cyn marw William y Trydydd yn 1702. Bwrier na chafodd cant ohonynt eu cofrestru—beth am y naw cant gweddill? Ond myn y rhamantwr rygnu mai yn y flwyddyn fawr 1719 yr egyr cofnodion tystysgrifau'r Goddefiad ym Morgannwg a Chaer. Os felly y mae pethau, digwyddiad ydyw, digwyddiad anffodus a wna gam dybryd â grym Ymneilltuaeth yn ystod ugeinmlwydd cyntaf y ddeunawfed ganrif. Yn wir, bregus a thyllog iawn yw *records Somerset House* o 1689 hyd 1749.[6]

Trown y drych i ongl arall. Camgymeriad mawr a fyddai credu bod y Crynwr o Abertawe wedi disgwyl eiliad am ddeddf Stanhope yn 1719;

---

[5]Norman Sykes: (Bishop) *Edmund Gibson*, t. 277.

[6]Ymhlith llawysgrifau'r Dr. Thomas Rees, Abertawe, yn y Llyfrgell Genedlaethol y mae "*Return of all places certified for religious worship in the diocese of Llandaff from* 1688 *to* 1852." Erbyn troi i'r *Return* ei hun, nid oes gair am ddim byd *cyn* 1754 (*N.L.W. Add. MS.* 373 C).

camgymeriad mwy wedyn a fyddai meddwl bod Thomas Evans o Eglwysilan wedi aros heb gofrestru ei dŷ hyd Hydref 1720 er mwyn bod yn sicrach fyth na'r Crynwr nad rhyw dric Whigaidd i brynu cymorth y Dissenters oedd deddf 1719. Camgymeriad arall yw credu i Thomas Perrott ddechreu yn 1719 ar ei yrfa fel athro academi Caerfyrddin am na allai cyn y flwyddyn honno fyned ymlaen a'r gwaith heb ofni gwg a phenyd esgob. Y gwir plaen yw i Perrott ddod i Gaerfyrddin yn 1719, nid oherwydd pasio deddf Stanhope, ond oherwydd ei benodi'n olynydd i'r William Evans a fu farw yn 1718.

Gwaith diddorol yn ei ffordd yw dadreibio swynion y maniwffactrwyr rhamant. Ysywaeth, os mai un o ganlyniadau'r fath waith fydd peri inni anghofio pwysigrwydd cynhenid y flwyddyn 1719, bydd y diddordeb yn fagl, a'r golled yn fwy na'r ennill. Buddiol fydd atgofio ein gilydd, heb arlliw barddoniaeth na rhamant, o bwrpas deublyg y 5 *Geo. I, c.* 4,—achub yr ysgolion Ymneilltuol a chilagor pyrth y corfforaethau i wrth-Eglwyswyr. Llwyddodd Stanhope i basio deddf arall hefyd yn ystod yr un flwyddyn—"*An Act for quieting and establishing Corporations.*" Rhyw fath ar atodiad oedd hon i'r *c.* 4. Wrth ei llunio cafodd twrneiod y Goron gyfle ardderchog i roddi gwedd gyfreithiol ar bechodau'r achlysurwyr ac i osod hen ddeddfau anhostur, hen fargeinion diegwyddor, o dan iau'r egwyddorion newydd. Nid

hawdd oedd disgrifio rhyddid newydd yr achlysurwyr—rhyddid mawr ond amherffaith—mewn brawddegau heb fod yn amwys. Llwyddodd y twrneiod yn go dda.

Arwr y paragraff olaf hwn yw Thomas Perrott. Er mai cyd-ddigwyddiad damweiniol, a dim ond hynny, oedd ei ddyfod ef i Gaerfyrddin yn 1719, bu'r dyfod hwnnw yn bwysig odiaeth yn hanes datblygiad yr academi, ac yn bwyslais trwm ar ogwydd y meddwl newydd yn y Deheubarth. Y mae peth lle i gredu bod yr athro William Evans yn awr ac eilwaith yn troi i mewn i Eglwys San Pedr er mwyn cadw cymdogaeth dda i'r academi.[7] Nid oes air am Thomas Perrott yn gwneyd hynny. Ar ôl pasio deddf 1719, nid oedd reswm dros y fath beth. Nid astudio safonau cyfaddawd â'r Eglwys oedd pryder ei galon ef, ond pa fodd i gymhathu yr hen efengyl a ddysgodd yn Llanybri pan yn blentyn gyda'r syniadau amrwd anturus a ddysgodd ar y Gororau. Nid oes fawr amheuaeth na roddodd ef bob siawns i'r surdoes Arminaidd i lefeinio'r pregethwyr ieuainc yng Nghaerfyrddin. Daeth yr adar ymfudol i waered o'r entrych i glwydo ar y llawr. Ac nid awr dawel canol nos a fu mwy.

[7]Dyfnallt: *Hanes Eglwys Heol Awst*, t. 14.

Atodiad: Colledion Sir Fôn.

Dwy ffynnonell fawr cofnodion tystysgrifau'r Goddefiad yw (*a*) croniclau'r Chwarter Sessiwn a gedwir gan glercod heddwch y gwahanol siroedd, a (*b*) chroniclau'r llysoedd esgobol a ddiogelir gan y *diocesan registrars*. Garw yw cyfaddef nad oedd yn ddigon i Biwritaniaeth Môn fod y salaf a'r lwytaf yng Nghymru heb i uchel swyddwyr y sir hefyd fod y dynionach mwyaf ysgafala yn y wlad—gadael *records* y tystysgrifau (a chofnodion eraill lawn mor bwysig) yn nwylo is-glercod a mân-weision, a'r rheini wedyn yn eu gadael at drugaredd truan lleithder a llygod. Yn ôl ysgrif fanwl yr athro Hugh Owen, M.A., o Langefni, yn yr *Angl. Antiq. Soc. Trans.* (1925, td. 69–114), yn 1768 yr egyr cof-lyfrau'r Sessiwn ym Môn, a dim crap ar dystysgrif hyd yn oed yn y flwyddyn ddiweddar honno. Nid yw pethau ronyn gwell yn y swyddfa esgobol ym Mangor, lle y deuai swmp mawr pregethwyr Môn am ganiatad i gofrestru eu tai cyrddau. Brysiwn i bwysleisio nad oes dim o'r bai wrth ddrysau clerc presennol Môn na chofrestrydd presennol Bangor—dau ŵr dysgedig cydwybodol ydynt hwy, llawn cariad at hanes, eang eu cydymdeimlad. Yn wir, anfonodd yr ail (Eglwyswr rhonc, cofier, nid Ymneilltuwr) ddwy ysgrif ddiddorol i'r *Anglesey Transactions*—un yn 1922 (tt. 47–56), a'r llall yn 1924

(tt. 52–53)—ar "*Sidelights on the Rise of Non-conformity in the Diocese of Bangor*," seiliedig ar gofnodion yn ei swyddfa ef ei hun. Methodd yn lân a tharo ar ddim trywydd tystysgrif yno cynt na 1774, h.y., dros bedwar ugain mlynedd ar ôl i Ddeddf Goddefiad ddod i rym. Y gyntaf i'r Bedyddwyr (yn ôl tystiolaeth Bangor) yw un capel Tyddyn Watcyn, Llanddyfrydog (1788), yr ail yw Carnau (?), Penmynydd (1790), y drydedd i "dŷ a elwid Bethesda" yn Amlwch (1794), a'r bedwaredd yw capel Rhosfawr yn Llanfair Mathafarn Eithaf (1798). A oes un o'r rhai hyn ar gael mewn tŷ capel neu ystafell pregethwr? Neu a oedd Bedyddwyr Môn yn yr oes o'r blaen mor ddiofal ohonynt â chlercod y Sessiwn a swyddwyr llys yr Esgob?

MYNEGAI.

A

Abertawe, 113, 143
Abney, Syr Thomas, 53–54, 81
Act of Settlement, 121
Adams, Thomas, 125
Amwythig (sir), 125, 133
——— (tref), 126
Ann, Y Frenhines, 26, 51, 63, 64, 66, 90, 96, 98, 99, 121, 123
Antient Britons, 136–137
Ashford, Ysgol Merched, 137
Association Oath Rolls, 13–16, 135
Aston, 126
Atterbury, Dr. Francis, 70, 102–103
Attorney-General v. Baxter, 34, 95 (n. 31)

B

Bangor y Mynachod, 19
Bates' Case, 83, 84, 95
Baxter, Richard, 34, 65, 95 (n. 31), 106
Bear, John, 92, 94, 96
Beaufort, Duc, 39
Beaumaris, 16, 130
Bebington, Zachary, 20
Bedyddwyr, Y, 11, 12, 15, 28, 81, 87–88, 109, 135–136, 137–138, 148
Bennion, Samuel, 86
Bethesda, Amlwch, 148
Bettws Diserth, 82
Bettws Gwerfil Goch, 98
Bevan, Sylvanus, 14
Beveridge, Esgob William, 101
Birch, Eliezer, 133
Bodfel, Cyrnol John, 105–106
———, Sara, 105
Bolingbroke, Iarll, 70, 90–91, 93, 94–95, 97, 100, 122
Boulston, 19
Boycott, Mr., 125
Bradbury, Thomas, 123, 124
Brampton Bryan, 65
Bridgewater, 96
Bridgnorth, 126
Briton Ferry, 67, 111, 113
Britton v. Standish, 46 (n. 3)
Broniarth, 143
Bruton, 36–37
Brycheiniog, 16
Brynbuga, 15
Burdett v. Newell, 46, 69
Burnet, Esgob Gilbert, 25, 59–60, 68, 81, 101, 114, 122, 123–124
Butler (Boteler), John, 20

C

Caeaumôn, 130
Caerdydd, 110
Caerfyrddin (tref), 145
Caergybi, 130 (n. 15)
Caerlleon (sir), 124–125, 133
Caerynarfon (tref), 130
Calamy, Edmund (y trydydd), 51, 60 (n. 4), 85, 112, 123–124, 138

Casnewydd, 15
Castellnedd, 113
Challenge of Peace, 71
Charity Schools, 42, 67
Chwarelau Bach, 35, 109
Cilgwyn (Ceredigion), 26
Cilycwm, 33
City of London v. Grosvenor, 78 (n. 6)
Clavell, Robert, 102 (n. 9)
Clears, St., 19
Collins, Freeman, 67
Comprehension Bill, 23, 24
Confenticl (deffiniadau), 55 (n. 13), 64 (n. 12)
Confocasiwn (Ty Isaf), 24, 70, 88, 102, 142
———— (Ty Uchaf), 25, 88
Conwy, 129, 130
Corporation Act 1661, 39, 43, 60, 62, 92, 141
Cox's Case, 84, 95
Cradoc(k), Richard, 14
————, Walter, 65, 129
Creed, Laurence, 36–37
Croesoswallt, 32, 50, 137
Cronfa'r Annibynwyr, 34, 87, 95, 97
——— Presbyteriaid, 34, 87, 95, 97, 100
Cronwear, 19
Crynwyr, Y, 11, 28, 29, 143, 144.
Cwm Nedd, 40
Cwmyglo (Merthyr Tydfil), 110
Cymanfa Abertawe, 113
———— Blaenau Gwent, 137–138
Cymanfa Llanwenarth (2), 135
———— Llundain, 11
Cy-près, 95 (a n. 31), 121

D

Daniel, John, 135
Davies, Francis, 105 (n. 15), 133 (n. 20).
——— John (Felinfoel), 113
——— John (Llangatwg), 112
——— Thomas, 19
Defoe, Daniel, 49–50, 70–71, 112
Dinbych, 35, 110
Dissenting Deputies, 78
Dodwell, Henry, 25 (n. 2), 50–51
Dolben, Y Barnwr, 34
Donnington, 125

E

Edwardes, Maurice, 20
Edwin, Syr Humphrey, 39–40, 47–48, 50, 53, 81, 141
Efenechtyd, 17, 19
Eglwys Cymun, 19
Eglwysilan, 145
Eglwyswrw, 19
Esgair Hir, 42
Evans, Allen, 78
———, Caleb, 87
———, Syr Herbert, 41
———, Hugh, 87–88
———, Esgob John, 102–103, 115
———, Dr. John, 142
———, John, 129
———, Thomas, 145
———, William, 86, 145, 146
Eyre, Syr Giles, 45, 78
——, Syr Samuel, 45, 78

F, Ff

Fenni, Y, 15–16, 53
Fetter Lane, 123
Ffynnon Gwenffrewi, 124
Fleetwood, Esgob William, 101
Foley, Arglwydd, 106, 107, 111

G

Gelligaer, 143
Geillionen, 109
George o Denmark, Y Tywysog, 63, 66
Godolphin, Iarll, 70
Gogledd Ceredigion, 41
Grafton, Duc, 107
Great Budworth, 125 (n. 6)
Green and Fifteen Others v. Pope, 30–31
Griffith, Roger, 53, 86
Grotius, Hugo, 135
Guildford, 44
Gwrecsam, 32, 127–129
Gwrthryfel Monmouth, 18, 37
Gwyddelwern, 98

H

Hanover (capel), 136
Harley, Syr Robert (Iarll Oxford), 52 (n. 7), 64–65, 75, 80, 90–91, 92 (n. 26), 95–96, 97, 122
Harley, Syr Robert (y taid), 65
Harrison, Knt. v. Evans, 78
Haversham, Arglwydd, 106–107
Henllan, 35, 113
Henry, Philip, 86
Hickes, Dr. George, 18
———, John, 18
Hindley, 30
History of John Bull, The, 80
Holt, Y Prif Farnwr, 43, 45
Howe, John (Eglwyswr), 54, 123
Howe, John (Ymneilltuwr), 11, 22, 48–49, 50 (n. 4), 54, 112
Howe v. Prinn, 122–123
Howell, John, 20
Hughes, Stephen, 82
Humphreys, Esgob Humphrey, 21, 101–102
Hutchinson a'i Wraig v. Brookebanke, 34–35
Hutton, John, 14–15, 110
Hwlffordd, 113

I

Iago'r Ail, 10, 22, 39, 122, 124
Isle of Ely, 112
Islington, 128

J

James, Dafydd, 138
———, Nicholas, 20
Jekyll, Syr Joseph, 108, 127–129
Jenkins, Dafydd, 14, 110
———, John, 33, 138
Jones, Mr., 128–129
Jones, Dafydd, 103
———, Dr. John, 20
———, Dr. Richard, 19
———, Samuel (Llangynwyd), 14–15, 84, 86, 110, 111
———, Samuel (Tewkesbury), 86, 96, 131
———, Thomas, 19

K

Keach, Benjamin, 35
Ken, Esgob, 17
Kenrick, John, 131, 132
King, Syr Peter, 108

L, Ll

Lacharn, 19
Lancs. (sir), 30, 124, 133, 140
Landeck, John 134–135
Lathbury, Thomas, 21–22
Lechmere, Nicholas, 108
Lewis o Ffrainc, 10, 11, 53, 62, 76, 115
Lewis, John (Boulston), 19
———, ———, (Coleg yr Iesu), 21
Locke, John, 51, 68, 108, 112
Lucy, Esgob William, 82
Ludlow, Edmund, 110
Llanaelhaiarn, 102
Llanarmon (Eifionydd), 102
Llanbrynmair, 29
Llanddyfrydog, 148
Llaneigrad, 105
Llanelli (Caerfyrddin), 29
Llanfair Mathafarn Eithaf, 148
Llanfyllin, 35, 133
Llangan, 143
Llangar, 19, 98
Llangatwg, Nedd, 20
Llangennech, 29
Llangower, 17, 98, 102
Llangybi (Eifionydd), 103
Llangyfelach, 59 (n. 2)
Llangynog (Trefaldwyn), 29
Llangynwyd, 14
Llanidloes, 29
Llanigon, 16
Llanmihangel (ger y Bontfaen), 40, 47
Llannon (Caerfyrddin), 29
Llanwenarth, 16, 24 (n. 1), 135
Llanwenog, 33
Llanymynech, 137
Lloyd, John, 19
———, Richard, 20
———, Robert, 126
———, Esgob William (Llanelwy, Lichfield, Worcester), 25 (n. 2), 50
———, Esgob William (Nonjuror), 17, 52 (n. 9), 102
Llwyd, Morgan, 65, 129
Llwydarth (Tir Iarll), 14
Llwydlo, 35, 36
Llwynllwyd, 87–88
Llyfr y Ficer, 18
Llywelyn, Edward, 14

M

Machynlleth, 29
Mackworth, Syr Humphrey, 40–41, 67–71, 74, 76 (n. 2), 113
Maesgwyn, 104
Maesyfed Newydd, 20
Malpas, 29
Manchester, 133
Mansell, Arglwydd, 110–111
———, Bussy (Briton Ferry), 109–110
———, Bussy (Margam), 111–112
Mansfield, Arglwydd, 78
Mansion House, 78
Manuel, Dafydd, 12–13
Margam, 111–112

Marlborough, Duc, 53, 66, 74, 75
Matthews v. Burdett, 84–85
Maurice (Morris), Hugh, 19
———, Matthias, 35, 113
Mayor of Guildford v. Clarke, 44
Mayot, Robert, 34
Miles, John, 15
Moderation a Virtue, 71–73
Moderation Still a Virtue, 71–73, 86–87
Môn, 16, 130, 147–148
Morgan, Robert (Nonjuror) 20–21, 102
———, Robert (Ymneilltuwr), 29
———, Siencyn, 130
Morgannwg, 14–15, 143, 144
Morris, William, 125
Morus, Huw, 98
Mynwy, 15

N

Norwich, 44, 45
Nottingham, Iarll, 27, 70, 77, 79, 83, 100, 114

O

Oldfield, Dr., 96
Oldfield's Case, 84, 95
Ottley, Esgob Adam, 100 (n. 3)
Owen, Charles, 32 (n. 16), 86
———, Goronwy, 125, 126 (n. 9)
———, Hugh, 33
———, James, 12, 35, 71–73, 74, 86–87, 110, 129
Owen, Michael, 19

P

Palmer, Samuel, 89
Peace at Home, 67–71
Peace without Union, 71
Penmynydd, 148
Penrhyn Deudraeth, 102
Penybont ar Ogwr, 15
Perrott, Thomas, 86, 145, 146
Petty Bag Office, 13, 16
Picton, James, 82
Plâs Du (Eifionydd), 102, 103
Pontardulais, 29
Pope, Mr., 30–31
Powell, Anthony, 14
———, Thomas, 19
———, Timothy, 19
———, Vavasor, 65, 112, 134
———, William, 24 (n. 1)
Presbyteriaid, Y, 23–24, 48–49, 71, 75, 81, 110
Presteign, 20
Preston, 132
Pretender, Y, 115, 121, 136, 140
Price, Dr. Christopher, 16.
——, Dafydd, 87–88
——, Henry, 19
——, John, 129 (n. 13)
——, Kenrick, 21
——, Rice, 86, 87
——, Dr. Richard, 86
——, Robert, 10
Prichard, William (Eglwyswrw), 19
———, William (Llanwenarth), 24 (n. 1)

Prinn, Mr., 123
Prior, Matthew, 76 (n. 3)
Protestaniaid alltud, Y, 59, 62, 114
Protestwyr, Y, 103–108, 114–120

R

Radnor, Iarll (Y cyntaf), 106
———, Iarll (yr ail), 105–106
Rees, Dafydd, 87
Regina v. Peach, 32 (n. 14), 33, 79
Regium Donum, 52 (n. 7), 138
Rex & Regina v. Clark, 33–34
Rex v. Douse, 84
Rex v. Larwood, 44–46, 47, 48, 58, 77–78, 84–85
Rex v. Walker, 78 (n. 6)
Rhosfawr, 148
Rhuthyn, 19, 32
Rhydyceisiaid, 35
Riot Act, 131
Robeston West, 19

S

Sacheverell, Dr. Henry, 125–126, 127
Samuel, Edward, 98
Sancroft, Archesgob, 17
Saphin, William, 15
Selattyn, 125, 126, 137
Seys, Richard, 108
Sheriff's Cause, 78 (n. 6)
Sheriff Hales, 65, 91, 97
Sheriffmuir, 132
Shermanbury, 92
Somerset, Duc, 107
Somerset House, 29, 143–144
Stamford Oath, 85–86
Stanhope, Y Cadfridog James, 108, 140, 141, 142, 145
Star Chamber, Y, 63
Stennett, Joseph, 11, 12
"Sul Cyntaf o Awst, Y," 96, 97, 123, 135–136, 137
Swift, Dr. Jonathan, 47, 103, 104, 107

T

Teacher, 83
Test Act 1673, 43, 141
Thomas, Syr John, 110
———, Lewis, 14, 33
Torbay, 9
Trefeglwys, 29
Trefynwy, 15
Tregare, 20
Trenewydd Nottais, 14
Trelech (Mynwy), 20
Tyddyn Watcyn, 148

W

Wake, Esgob William, 99
Walpole, Syr Robert, 108–109
Watkins, William, 16
Weaver, John, 82
Wenvoe, 105, 110
Wesley, Samuel, 89
Wharton, Arglwydd (Philip), 103–104
———, Arglwydd (Thomas) 91, 103–105, 114
Whittington, 125
Wigmore's Case, 35 (n. 20)
William y Trydydd, 9–13, 24, 51, 62, 122

William, Robert, 127
Williams, Dr. Daniel, 52 (n. 7), 121, 134, 138
———, John, 131
Woodhouse, John, 97
Wynn(e), Dr. Hugh, 19
———, Robert, 98

Y

Yarbaston, 19

WRECSAM
HUGHES A'I FAB, CYHOEDDWYR


KT-242-613